# Cyfarfod y Cyngor

I ddechrau am 10:30am ddydd Mercher 24 Mai 2017, Caerdydd

## Agenda

| | |
|---|---|
| Y Fonesig Janet Finch<br>Cadeirydd | Fionnuala Gill<br>Ysgrifennydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | **Gair o groeso a sylwadau agoriadol y Cadeirydd** | NMC/17/36 | **10:30** |
| 2 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | NMC/17/37 | |
| 3 | **Datganiadau buddiannau** | NMC/17/38 | |
| 4 | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**<br>Cadeirydd | NMC/17/39 | |
| 5 | **Crynodeb o'r camau gweithredu**<br>Ysgrifennydd | NMC/17/40 | |
| 6 | **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd | NMC/17/41 | 10:40 |
| 7 | **Rhaglen addysg**<br>Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi | NMC/17/42 | 10:50 |
| 8 | **Diweddariad nyrsys cyswllt**<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd | NMC/17/43 | 12:20 |

## Adroddiadau corfforaethol

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | **Diweddariad Bydwreigiaeth**<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd | NMC/17/44 | 12:35 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **10** | **Blwyddyn gyntaf ailddilysu**<br>Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu | NMC/17/45 | 12:50 |

## CINIO (13:00-13:45)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **11** | **Adroddiad ar Berfformiad 2016-2017**<br>Cyfarwyddwr Adnoddau | NMC/17/46 | 13:45 |
| **12** | **Cynllun Gweithredu PSA: Adroddiad cynnydd**<br>Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu | NMC/17/47 | 14:00 |
| **13** | **Adroddiad monitro ariannol**<br>Cyfarwyddwr Adnoddau | NMC/17/48 | 14:10 |
| **14** | **Rheolau Sefydlog y Cyngor a'i Gynllun Dirprwyo**<br>Ysgrifennydd | NMC/17/49 | 14:20 |

## Materion er gwybodaeth

*Fel rheol ni thrafodir materion er gwybodaeth. Dylai aelodau hysbysu Cadeirydd neu Ysgrifennydd y Cyngor ymlaen llaw os dymunant i eitem gael ei thrafod yn y cyfarfod.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **15** | **Adroddiad y Pwyllgor Archwilio**<br>Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio | NMC/17/50 | |
| **16** | **Camau a gymerwyd gan y Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf**<br>Cadeirydd y Cyngor | NMC/17/51 | |
| **17** | **Cwestiynau gan arsylwyr**<br>Cadeirydd y Cyngor | NMC/17/52<br>**(Ar lafar)** | 14:30 |

## Lluniaeth (14:45-15:00) a Chau

Eitem 4
NMC/17/39
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

Cyfarfod y Cyngor
A gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor yn 23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ ar 29 Mawrth 2017

# Cofnodion

## Presennol

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Y Fonesig Janet Finch | Cadeirydd |
| Karen Cox | Aelod |
| Maura Devlin | Aelod |
| Maureen Morgan | Aelod |
| Derek Pretty | Aelod |
| Robert Parry | Aelod |
| Stephen Thornton | Aelod |
| Lorna Tinsley | Aelod |
| Ruth Walker | Aelod |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Marta Phillips | Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Archwilio |

**Swyddogion yr NMC:**

| | |
|---|---|
| Jackie Smith | Prif Weithredwr a Chofrestrydd |
| Adam Broome | Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Emma Broadbent | Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu |
| Judith Toland | Cyfarwyddwr Trawsnewid |
| Geraldine Walters | Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi |
| Sarah Page | Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer |
| Fionnuala Gill | Ysgrifennydd y Cyngor |
| Pernilla White | Rheolwr y Pwyllgor a Llywodraethu |

DRAFT

## Cofnodion

**NMC/17/17 Gair o groeso a sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod, gan gynnwys Marta Phillips, Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Archwilio, sylwedyddion ac aelodau o staff, ac amlinellodd drefn y dydd.

**NMC/17/18 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

1. Cafwyd ymddiheuriadau gan Anne Wright.

**NMC/17/19 Datganiadau o fuddiant**

1. NMC/17/24: Nyrsys cyswllt: Cafodd buddiant ei ddatgan gan bob aelod cofrestredig a Geraldine Walters, Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi. Nid ystyriwyd hyn yn rhagfarnus gan nad oedd yn effeithio ar yr unigolion yn fwy nag aelodau cofrestredig eraill.

2. NMC/17/35: Cyllideb Ddrafft 2017-2020: Datganodd pob aelod cofrestredig a Geraldine Walters, Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi, fuddiant yn y broses o adolygu ffioedd yn flynyddol. Nid ystyriwyd hyn yn rhagfarnus gan nad oedd yn effeithio ar yr unigolion yn fwy nag aelodau cofrestredig eraill.

3. NMC/17/26: Adolygu polisïau aelodau'r Cyngor: Cafodd fuddiant ei ddatgan gan bob un o aelodau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r Ysgrifennydd. Nid ystyriwyd hyn yn rhagfarnus gan fod y Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau effeithiol ar waith o dan y Gorchymyn.

**NMC/17/20 Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

1. Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir, ar ôl gwneud y newidiadau canlynol:

   a) NMC/17/04: Nyrs gyswllt: paragraff 3c. Ychwanegu'r canlynol: *'rôl arfaethedig y nyrs gyswllt gofrestredig'.*

   b) NMC/17/04: Nyrs gyswllt: paragraff 3h. Ychwanegu'r canlynol: *'yn ogystal â llwybrau eraill'.*

**NMC/17/21 Crynodeb o'r camau gweithredu**

1. Nododd y Cyngor hynt y camau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol.

2. Yn codi o NMC/17/07: Prentisiaethau: Gofynnwyd am friffiad ar drefniadau prentisiaethau yn y pedair gwlad ar gyfer cyfarfod y Cyngor

DRAFT

ym mis Mai 2017.

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | **Paratoi briffiad ar drefniadau prentisiaethau yn y pedair gwlad** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi** |
| **Erbyn:** | **24 Mai 2017** |

**NMC/17/22 Adroddiad y Prif Weithredwr**

1. Ystyriodd y Cyngor adroddiad gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ar ddatblygiadau allanol allweddol, ymgysylltu strategol a gweithgarwch yn y cyfryngau ers cyfarfod blaenorol y Cyngor. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

a) Roedd y dystiolaeth a roddwyd gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd i'r Pwyllgor Dethol ar Iechyd ar 28 Chwefror 2017 yn canolbwyntio ar effaith Brexit ar iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn arbennig ar oblygiadau i'r gweithlu ac amddiffyn y cyhoedd.

b) Roedd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd wedi cyfarfod â phedwar Prif Swyddog Nyrsio'r DU yn Nulyn ar 31 Ionawr 2017.

c) Cyfarfu'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd â Chyfarwyddwr Gofal cartref nyrsio yn Erskine, yn ogystal â'r Prif Swyddog Nyrsio, yn ystod ei hamser yng Nghaeredin ar 2 Mawrth 2017.

d) Roedd symposiwm yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA), lle roedd y Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer ac Anne Wright yn bresennol, hefyd yn canolbwyntio ar y DU yn gadael yr UE, ac wedi cynnig cyfle defnyddiol i drafod yr heriau i'w hystyried gan reoleiddwyr yn y tymor byr a chanolig.

e) Byddai'r NMC yn nodi Diwrnod Rhyngwladol y Nyrsys ar 12 Mai 2017 drwy fynd i'r gwasanaeth coffa yn Abaty Westminister i ddathlu bywyd Florence Nightingale a thrwy gefnogi lansio gwaith y Prif Swyddog Nyrsio ar broffesiynoldeb.

**NMC/17/23 Adran 60: Canlyniadau'r ymgynghoriad addasrwydd i ymarfer a Rheolau arfaethedig**

1. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer yr adroddiad, a oedd yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'i ganlyniadau ac yn argymell newidiadau i Reolau Addasrwydd i Ymarfer 2004. Nododd y Cadeirydd fod yr NMC wedi pwyso am y newidiadau hyn ers tro, felly roedd yn croesawu'r ffaith bod yr adeg wedi cyrraedd i'w rhoi ar waith.

2. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

a) Byddai'r Gorchymyn yn dod i rym ar 31 Mawrth 2017; roedd y

DRAFT

Cyngor yn cael ei ofyn i gymeradwyo'r newidiadau i'r Rheolau mewn egwyddor. Ar ôl hynny, byddai'r Cyngor yn cael ei ofyn i wneud y Rheolau drwy ohebiaeth, ac roedd trefniadau ar gyfer hyn yn mynd rhagddynt.

b) Yn gyffredinol, gwelwyd ymateb cadarnhaol i'r ymgynghoriad ac roedd y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer wedi ymgysylltu'n sylweddol â rhanddeiliaid. Byddai hyn yn parhau ar ôl gweithredu.

c) Roedd y prif bryder i randdeiliaid yn ymwneud â phŵer newydd arfaethedig Archwilwyr Achos i roi rhybuddion. Roedd yr NMC yn ymrwymedig i sicrhau y byddai nyrsys neu fydwragedd yn cael eu trin yn deg a'u hannog i fod yn rhan o'r broses ar y cyfle cyntaf.

d) O ystyried y ffaith nad oes proses apelio, hoffai'r Cyngor gael ei sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd cadarn ar waith yn fewnol i sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau. Byddai cysondeb wrth roi'r trothwyon ar waith hefyd yn bwysig, a dylai Archwilwyr Achos gael eu goruchwylio'n rhagweithiol i gefnogi hyn.

e) Nododd y Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer fod y pŵer i adolygu penderfyniadau hefyd yn fesur diogelwch pwysig. Roedd hyfforddiant i Archwilwyr Achos a holl staff Addasrwydd i Ymarfer ac aelodau paneli yn cael ei gyflwyno. Byddai lefel uchel o sicrwydd ansawdd o ran penderfyniadau o'r cychwyn. Cynigiwyd cyflwyno'r adroddiad cyntaf ar ansawdd penderfyniadau a wnaed yn y cyfarwyddiaethau Addasrwydd i Ymarfer a Chofrestru ac Ailddilysu yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mai 2017.

f) Roedd un o bob pum sefydliad a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn anghytuno â'r cynigion i gyhoeddi cynnwys rhybuddion. Cydnabuwyd bod hyn yn dal i achosi pryder, o ystyried y byddai hyn yn gymwys os ceid casgliad 'dim achos i'w ateb'. Roedd angen cydbwysedd rhwng cyhoeddi'r rhybudd a buddiannau'r aelod cofrestredig ei hun. Bwriad rhybudd oedd nodi safbwynt rheoleiddiol yr NMC ar ddifrifoldeb y mater, a chydbwyso hyn â thegwch i'r aelod cofrestredig. Cydnabuwyd y byddai angen meithrin hyder yn y defnydd o'r pwerau wrth i'r rhain gael eu rhoi ar waith.

3. Byddai'r Cyngor yn croesawu adroddiad ym mis Mai ar sut roedd y pwerau'n cael eu gweithredu, gan gynnwys y gwaith paratoi sy'n cael ei wneud a'r hyfforddiant sydd ar gael. Byddai hefyd yn ddefnyddiol cael gwerthusiad o effaith y newidiadau ar ôl 12 mis.

4. Diolchodd y Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer nifer o aelodau o staff a chyrff cynrychioladol am y gwaith a wnaed ar y mater hwn.

5. **Penderfyniadau:**

**i. Cytunodd y Cyngor ar y casgliadau a nodir yn Atodiad 1 i'r**



DRAFT

**papur yn dilyn yr ymgynghoriad Moderneiddio Addasrwydd i Ymarfer.**

ii. **Cytunodd y Cyngor mewn egwyddor ar y newidiadau arfaethedig i Reolau Addasrwydd i Ymarfer 2004, a nodir yn Atodiad 2 i'r papur.**

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | **Adrodd yn ôl i'r Cyngor ym mis Mai 2017 ar baratoi ar gyfer cyflwyno'r pwerau newydd.** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer** |
| **Erbyn:** | **24 Mai 2017** |
| **Cam gweithredu:** | **Monitro effaith: i. defnyddio rhybuddion; a ii. cyhoeddi rhybuddion a darparu gwerthusiad o effaith y newidiadau i'r Cyngor ar ôl 12 mis** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer** |
| **Erbyn:** | **28 Mawrth 2018** |

**NMC/17/24 Nyrsys Cyswllt**

1. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg yr adroddiad, a oedd yn amlinellu hynt y gwaith o baratoi ar gyfer rheoleiddio nyrsys cyswllt yn sgil penderfyniad y Cyngor ym mis Ionawr 2017. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

a) Roedd amser yn brin iawn. Fel arfer, roedd newid deddfwriaethol yn cymryd 18 mis hyd at ddwy flynedd, a byddai angen i waith cynllunio'r NMC ystyried hynny. Yn y cyfamser, byddai'r cyfranogwyr cyntaf yn rhaglenni peilot nyrsys cyswllt, a gychwynnwyd gan Health Education England, yn cwblhau ym mis Ionawr 2019. Roedd gweinidogion am iddynt allu cofrestru fel nyrsys cyswllt ar adeg cwblhau.

b) Dros amser, byddai angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau ar yr holl faterion a amlinellir yn yr adroddiad. Roedd trafodaethau â'r Adran Iechyd yn mynd rhagddynt ar y darpariaethau deddfwriaethol y byddai eu hangen ar yr NMC i fod yn barod i reoleiddio yn 2019.

c) Roedd yn llawer gwell gan yr NMC cael dull ledled y DU o reoleiddio nyrsys cyswllt, gan barchu hawl pob gwlad i benderfynu p'un a oedd angen y rôl yng nghyd-destun ei gweithlu. Byddai gweinyddiaethau datganoledig pob gwlad yn gyfrifol am wneud y darpariaethau angenrheidiol, os oeddent am fabwysiadu'r rôl. Pan fyddai'r unigolyn ar ein cofrestr fel nyrs gyswllt, gallai gael ei gydnabod yn unrhyw le lle mae'r cymhwyster yn cael ei gydnabod.

d) Roedd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r Cyfarwyddwr yn ymgysylltu'n barhaus â'r Prif Swyddogion Nyrsio yn y pedair gwlad er mwyn deall eu safbwyntiau; roedd cysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig yn fater i'r Adran Iechyd.

e) Nid oedd gofyn i'r Cyngor wneud penderfyniadau polisi yn y cyfarfod hwn. Yn hytrach, roedd gofyn iddo gytuno y byddai angen trafod ac ystyried y materion polisi amrywiol a amlinellir yn yr adroddiad ymhellach cyn gwneud penderfyniadau.

f) Wrth ddatblygu'r safonau ar gyfer nyrsys cyswllt, byddai'n bwysig cael adborth da a chael y cydbwysedd yn iawn, yn arbennig wrth wahaniaethu rhwng rôl y nyrs gofrestredig a rôl y nyrsys gyswllt.

g) Er y gwnaeth Health Education England ragweld y rôl fel un gyffredinol yn wreiddiol, nid oedd hwn yn fater y cytunwyd arno, ac nid oedd gofyn i'r Cyngor wneud penderfyniad arno eto.

h) Byddai cyfathrebu ac ymgysylltu'n hanfodol, o ystyried natur sensitif a chymhleth y rhaglen.

i) Roedd yn bwysig ailddatgan mai'r Adran Iechyd fyddai'n gyfrifol am dalu costau rheoleiddio nyrsys cyswllt, yn hytrach na defnyddio ffioedd cofrestru.

j) Byddai'r Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf fel rhan o'i waith o oruchwylio'r rhaglen nyrsys cyswllt ym mhob cyfarfod.

2. **Penderfyniad: Cytunodd y Cyngor y dylai'r meysydd polisi a nodir ym mharagraff 11 gael eu hystyried a'u trafod ymhellach cyn gwneud unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol.**

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | **Ystyried y meysydd polisi ym mharagraff 11 o'r papur gyda'r Cyngor ymhellach cyn gwneud penderfyniadau.** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi** |
| **Erbyn:** | **24 Mai 2017** |

**NMC/17/25 Penodi Cofrestrydd Cynorthwyol**

1. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer yr adroddiad, a oedd yn cynnig penodi Cofrestrydd Cynorthwyol. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

a) Roedd hon yn rôl newydd i oruchwylio pob penderfyniad dirprwyedig. Roedd disgwyl i fwy o waith sy'n gysylltiedig ag adran 60 ddod drwodd yn sgil y newidiadau i Reolau Addasrwydd i Ymarfer 2004.

b) Gallai'r Cyngor gael ei sicrhau bod proses briodol wedi cael ei dilyn i benodi'r unigolyn i'r rôl.

2. **Penderfyniad: Cadarnhaodd y Cyngor benodi'r Cofrestrydd Cynorthwyol a enwir ym mharagraff 3 o'r adroddiad, yn amodol ar gael ei hawdurdodi gan y Cofrestrydd, yn unol â'r Rheol Sefydlog, i**

**weithredu ar ei rhan mewn unrhyw fater.**

**NMC/17/26 Adolygu polisïau aelodau'r Cyngor**

1. Ystyriodd y Cyngor adroddiad sy'n ceisio cymeradwyo Cod Ymarfer diwygiedig aelodau'r Cyngor a'r polisïau sy'n sylfaen iddo ar Reoli Buddiannau a Rhoddion a Lletygarwch. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

a) Roedd y Cod Ymarfer a'r polisi ar Reoli Buddiannau wedi cael eu cymeradwyo yn 2014 a'u hadolygu'n unol â dulliau llywodraethu da.

b) Roedd adroddiad y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, *'Striking the Balance'*, wedi cael ei ddefnyddio fel meincnod ar gyfer yr adolygiad. Cyflwynodd yr adroddiad gyfres o argymhellion arfer gorau i gyrff rheoleiddio, a hynny i gynnal safonau moesegol uchel a rhoi polisïau llywodraethu cyfoes ar waith.

c) Yn unol ag argymhelliad archwilio mewnol, roedd y canllawiau presennol ar fuddiannau wedi cael eu rhannu'n ddau bolisi arbennig: un ar reoli buddiannau a'r llall ar ymdrin â rhoddion a lletygarwch.

d) Roedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth wedi ystyried y Cod Ymarfer a'r ddau bolisi sy'n sylfaen iddo yn fanwl, ac wedi argymell bod y Cyngor yn eu mabwysiadu. Rhoddwyd sylw arbennig i faterion amrywiaeth a chydraddoldeb yn fersiwn ddiwygiedig y Cod Ymarfer.

2. **Penderfyniad: Cytunodd y Cyngor i fabwysiadu'r canlynol:**

**i. Y Cod Ymarfer diwygiedig fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**

**ii. Y Polisi ar Reoli Buddiannau i aelodau'r Cyngor fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad.**

**iii. Y Polisi ar Roddion a Lletygarwch i aelodau'r Cyngor fel y nodir yn Atodiad 3.**

**NMC/17/27 Adolygu lwfansau aelodau Pwyllgor nad ydynt yn rhan o'r Cyngor (aelodau partner)**

1. Ystyriodd y Cyngor adroddiad ar adolygu lwfansau aelodau Pwyllgor nad ydynt yn rhan o'r Cyngor. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

a) O dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, rhaid i'r Cyngor bennu'r lwfansau i'w talu i aelodau'r Cyngor ac aelodau Pwyllgor nad ydynt yn rhan o'r Cyngor, er enghraifft aelodau o'r Bwrdd Penodi ac aelodau annibynnol Paneli Dethol. Nid oedd cyfradd y lwfansau hyn wedi cael ei hadolygu ers 2009.

b) Cynhaliwyd ymarfer meincnodi â rheoleiddwyr eraill. Ar ôl ystyried argymhellion y panel annibynnol i uwchraddio lwfansau aelodau'r

Cyngor ym mis Tachwedd 2016, argymhellodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gynnydd tebyg a rhesymol o 10 y cant.

2. Cytunodd y Cyngor y dylai adolygiad gael ei gynnal bob dwy i dair blynedd fel arfer da.

3. **Penderfyniad: Cytunodd y Cyngor i gymeradwyo cyfradd ddyddiol uwch o £286 sy'n daladwy i aelodau Pwyllgor nad ydynt yn rhan o'r Cyngor ac eraill, fel y nodir ym mharagraff 6 o'r adroddiad, ac sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2017.**

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | **Sicrhau bod adolygiad o gyfraddau sy'n daladwy i aelodau Pwyllgor nad ydynt yn rhan o'r Cyngor ac eraill sydd ynghlwm wrth weithgareddau ar ran y Cyngor yn cael ei gynnal bob dwy i dair blynedd** |
| **I:** | **Ysgrifennydd** |
| **Erbyn:** | **24 Mai 2017** |

**NMC/17/28 Adroddiad y Pwyllgor Bydwreigiaeth**

1. Cyflwynodd Lorna Tinsley adroddiad terfynol y Pwyllgor Bydwreigiaeth. Diolchwyd i Anne Wright, yn ei habsenoldeb, am gadeirio ac arwain y Pwyllgor drwy benderfyniadau ac adroddiadau heriol. Roedd cyfraniadau aelodau a sylwedyddion hefyd wedi bod yn werthfawr. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

a) Roedd pob aelod o'r Pwyllgor wedi gweithio'n agos gyda'r ysgrifenyddiaeth i sicrhau bod adroddiad llawn a therfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor. Roedd crynodeb o'r camau gweithredu a gododd yng ngwaith y Pwyllgor Bydwreigiaeth yn ystod y flwyddyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad ac yn dangos bod pob un ohonynt wedi cael eu cwblhau.

b) Roedd y Pwyllgor wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau i oruchwylio yn y pedair gwlad.

c) Roedd y Pwyllgor yn hyderus bod cyfrifoldeb moesol y Cyngor i gefnogi proses bontio esmwyth i'r trefniadau newydd wedi cael ei fodloni, a bod yr NMC yn weithredol barod i roi'r newid ar waith.

d) Roedd y Pwyllgor yn falch y byddai agendâu'r Cyngor yn y dyfodol yn cynnwys eitem sefydlog ar faterion bydwreigiaeth a mamolaeth. Yn ogystal, nodwyd y byddai'r Cyngor am fod yn ymwybodol o'r datblygiadau a'r materion mwyaf sylweddol ar y gorwel.

e) Byddai angen i'r Panel Bydwreigiaeth, a gadeirir gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, ac sy'n cynnwys Lorna Tinsley ac Anne Wright fel aelodau, lunio fframwaith i sicrhau bod materion bydwreigiaeth sydd o ddiddordeb i'r Cyngor yn cael eu dwyn i'w

DRAFT

sylw.

f) Roedd Cadeirydd y Cyngor yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, ac roedd y brwdfrydedd sylweddol dros y dulliau arloesol o gyflwyno modelau goruchwylio ledled y pedair gwlad wedi gwneud argraff arni. Er enghraifft, yng Ngogledd Iwerddon, roedd cynlluniau'n cael eu datblygu o ran fframweithiau goruchwylio ar gyfer nyrsys. Byddai'r model goruchwylio clinigol newydd yng Nghymru, sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr, yn adeiladu ar y model Diogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol a gyflwynwyd yn 2014, ac yn cynnal rôl benodedig y Goruchwyliwr Bydwragedd, gyda strwythurau llywodraethu clir ar gyfer cyfrifoldeb ac atebolrwydd.

g) Roedd yn galonogol gweld bod bydwragedd wedi bod yn ysgogi'r modelau newydd. Byddai'n ddiddorol clywed am yr hyn a ddysgwyd o'r modelau newydd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, a gallai fod manteision i alwedigaethau eraill. Yn hanesyddol, roedd bydwreigiaeth wedi arwain y ffordd o ran goruchwylio, ac roedd yn dal i wneud hynny.

h) Tynnwyd sylw at yr angen i ystyried sut y gallai'r Cyngor fod yr un mor wybodus am alwedigaethau eraill, megis rôl yr Ymwelwyr Iechyd.

2. Cafodd Lorna Tinsley ac Anne Wright eu diolch a'u gwerthfawrogi'n sylweddol gan y Cyngor am eu gwaith rhagorol ar y Pwyllgor Bydwreigiaeth dros y pedair blynedd diwethaf ac am sicrhau bod y Cyngor yn cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Anne Wright ar ran y Cyngor.

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | **Ysgrifennu at Anne Wright i gyfleu diolch a gwerthfawrogiad y Cyngor.** |
| **I:** | **Cadeirydd** |
| **Erbyn:** | **31 Mai 2017** |

**NMC/17/29 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio**

1. Cyflwynodd y Cadeirydd Annibynnol Adroddiad y Pwyllgor Archwilio. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

a) Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod yr holl adolygiadau a gynlluniwyd yn wreiddiol o dan raglen waith y gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer 2016-17 wedi cael eu cwblhau.

b) Roedd adroddiadau archwilio mewnol yn dangos gwelliannau mewn nifer o feysydd ac yn adlewyrchu cynnydd cadarnhaol gan y sefydliad. Roedd hyn yn dyst i waith y Tîm Gweithredol.

c) O ystyried y cynnydd sylweddol o ran clirio hen argymhellion

archwilio mewnol, roedd y Pwyllgor wedi cytuno y dylai'r Tîm Gweithredol bellach gymryd cyfrifoldeb yn ôl am gadarnhau bod argymhellion archwilio mewnol wedi'u cwblhau.

d) Roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo rhaglen waith ddrafft y gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer 2017-2018. Roedd cymeradwyo'r rhaglen yn gynnar wedi rhoi'r NMC mewn sefyllfa dda ar gyfer y flwyddyn o'i flaen.

e) Cyn i'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon gael eu paratoi, roedd y Pwyllgor wedi adolygu'r polisïau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn adrodd ariannol ac wedi ystyried bod y rhain yn dal i fod yn briodol ar gyfer 2016-2017. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi cymeradwyo cynlluniau'r gwasanaeth archwilio allanol ac ardystiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o gyfrifon blynyddol yr NMC ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017.

**NMC/17/30 Adroddiad Perfformiad a Risg**

1. Ystyriodd y Cyngor adroddiad ar sut mae'r sefydliad wedi bod yn rheoli perfformiad a risg ers cyfarfod diwethaf y Cyngor ym mis Ionawr 2017. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

2. ***Perfformiad cofrestru ac ailddilysu, DPAau a dangosfwrdd***

a) Roedd perfformiad y gyfarwyddiaeth wedi parhau i fod yn gryf yn erbyn y DPAau ac yn y ganolfan alwadau yn ystod mis Chwefror 2017. Roedd mis Mawrth/Ebrill yn gyfnod prysur dros ben a byddai perfformiad yn cael ei fonitro'n agos.

b) Yn unol â chais y Cyngor, roedd gwybodaeth ychwanegol am gwestiynau boddhad cwsmeriaid wedi cael eu cynnwys. Ar hyn o bryd, gofynnir i bawb sy'n cysylltu â'r gyfarwyddiaeth Cofrestru ac Ailddilysu gwblhau arolwg. Roedd yr arolwg hefyd yn cael ei gyflwyno yn y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer. Wrth fynd ymlaen, y nod oedd cynnig adroddiadau cyfoethocach drwy ddadansoddi gwybodaeth am brofiadau cwsmeriaid yn well.

c) Efallai y bydd yn werth ychwanegu cwestiwn sy'n gofyn p'un a fyddai pobl yn fodlon i'r NMC gysylltu â nhw eto, os bydd unrhyw gwestiynau pellach. Gall barnau gwahanol y cyhoedd a chyflogwyr fod yn faes arall i ymchwilio iddo ymhellach.

d) Byddai'r dangosfwrdd cyntaf ar Ailddilysu yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mai 2017.

3. ***Perfformiad Addasrwydd i Ymarfer, DPAau a dangosfwrdd***

a) Roedd y llwyth achos cyffredinol wedi lleihau drwy gau mwy o



DRAFT

achosion, a gwnaed cynnydd sylweddol ar y llif gwaith cyffredinol. Disgwyliodd y gyfarwyddiaeth fod ar y trywydd iawn ar ddiwedd y flwyddyn o ran nifer y penderfyniadau sylweddol a wnaed.

b) Byddai adroddiad manwl sy'n rhagweld y trywydd o ran cyflawni nodau amseroldeb yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mai 2017.

c) Roedd oedran canolrifol achosion adeg eu sgrinio yn gostwng, gan ddangos bod y duedd ar y trywydd iawn. O ystyried y defnydd o ganolrifau, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Cyngor gael gwybodaeth am yr ystod a'r nifer o achosion hŷn er mwyn iddo benderfynu a oedd angen pryderu amdanynt.

d) Roedd effaith y newidiadau o ganlyniad i Orchymyn adran 60 yn dibynnu ar ymgysylltu ag aelodau cofrestredig yn dda, a dylai'r effaith ddod yn amlwg yn ystod 2018-19. Byddai'r rheolau newydd yn gymwys i bob achos, a gall fod cyfle i ailystyried achosion sydd wedi mynd heibio'r cam archwilydd achos. Fodd bynnag, ni allai'r rhai a gyfeiriwyd eisoes am ddyfarniad gael eu hystyried yn ôl-weithredol. Byddai'n ddefnyddiol dangos perfformiad o ran nifer yr achosion yr ymdriniwyd â hwy o dan y darpariaethau presennol a newydd ar wahân.

e) Argymhellwyd gwerthuso sut y cafodd y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr ei weithredu yn ei flwyddyn gyntaf, a hynny yn ystod yr haf, a chyflwyno adroddiad yng nghyfarfod y cyngor ym mis Medi.

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | **Darparu gwybodaeth am yr ystod ac achosion hŷn, yn ogystal â'r canolrif mewn adroddiadau yn y dyfodol** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer** |
| **Erbyn:** | **24 Mai 2017** |
| **Cam gweithredu:** | **Darparu gwybodaeth ar wahân am achosion yr ymdriniwyd â hwy o dan reolau presennol a newydd mewn adroddiadau yn y dyfodol** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer** |
| **Erbyn:** | **27 Medi 2017** |

4. ***Addysg, safonau a pherfformiad polisi***

O ran yr adroddiad addysg, nodwyd nad oedd y swyddi gwag yn y gyfarwyddiaeth wedi effeithio ar berfformiad a bod y gyfarwyddiaeth wedi mynd i'r afael â'r mater mewn sawl ffordd, gan gynnwys defnyddio adnoddau allanol. O gofio faint o waith sydd i'w wneud yn y maes hwn, byddai'n bwysig sicrhau bod digon o wytnwch, yn arbennig o ystyried y rhaglen drawsnewid.

5. ***Crynodeb risg gorfforaethol***

DRAFT

Trafododd y Cyngor y crynodeb o risgiau corfforaethol. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

a) CR30a–Trawsnewid: cymeradwyodd y Cyngor leihau'r sgôr risg.

b) CR25–Trosi bydwreigiaeth. Cymeradwyodd y Cyngor leihau'r sgôr risg a nododd y gallai hon gael ei dileu gan nad oedd yn berthnasol ar ôl 31 Mawrth 2017.

c) CR29–Cipolwg a Gwybodaeth: parhaodd hon yn risg goch. Roedd ychydig o waith yn mynd rhagddo a byddai'r Cyngor yn cael gwybod amdano ym mis Gorffennaf. Dylai hyn ystyried beth ddylai disgwyliad y Cyngor o'r risg hon fod yn gysylltiedig â thrawsnewid.

d) CR32–Adnoddau ariannol: dylid ystyried p'un a ddylid cynyddu'r sgôr risg o ganlyniad i orwario'r gyllideb yn 2016/17. Dylai'r esboniad o'r risg hon gynnwys gwybodaeth am y mesurau lliniaru presennol sydd ar waith.

e) Byddai'r Cyngor yn trafod awydd am risg ac adrodd ar risgiau yn ystod y sesiwn seminar ym mis Ebrill 2017. Byddai hyn yn cynnig cyfle i sicrhau bod y gofrestr risg gorfforaethol yn adlewyrchu'r risgiau a oedd yn wirioneddol strategol. Cymerwyd cam cyntaf drwy gynnwys risgiau corfforaethol yn unig ar y map gwres.

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | **i. Dileu CR25–Trosi bydwreigiaeth; ii Ystyried yr angen i gynyddu CR32–Risg adnoddau ariannol** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Adnoddau** |
| **Erbyn:** | **24 Mai 2017** |
| **Cam gweithredu:** | **Rhoi diweddariad ar CR 29–risg Cipolwg a Gwybodaeth sy'n cwmpasu'r disgwyliadau a ddylai fod yn gysylltiedig â thrawsnewid** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Trawsnewid** |
| **Erbyn:** | **5 Gorffennaf 2017** |

**NMC/17/31 Adroddiad monitro ariannol**

1. Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad ar berfformiad ariannol hyd at 28 Chwefror 2017 a'r rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

a) Roedd incwm yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn y gyllideb wreiddiol yn y flwyddyn hyd yn hyn a rhagolwg diwedd y flwyddyn. Roedd gwariant refeniw a chyfalaf yn uwch na'r gyllideb yn y flwyddyn hyd yn hyn a rhagolwg diwedd y flwyddyn. Roedd hyn yn bennaf oherwydd gorwario yn y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer; y gyfarwyddiaeth Arloesi Technoleg a Busnes a gwariant corfforaethol.

b) O ran gwariant refeniw cyffredinol, rhagwelir y bydd tua £1.5 miliwn yn fwy na'r gyllideb yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd

y gyfarwyddiaeth Arloesi Technoleg a Busnes wedi gorwario oherwydd nifer o faterion annisgwyl, gan gynnwys yr angen i recriwtio mwy o staff dros dro na'r hyn a gynlluniwyd. Roedd gorwariant corfforaethol i'w briodoli i'r ffaith na ddarparwyd yn briodol ar gyfer dibrisiant yn y gyllideb wreiddiol.

c) Roedd gorwariant y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer yn ymwneud â'r pedwar prif ffactor a amlinellwyd ym mharagraff 6.3 o'r adroddiad, gan gynnwys hepgoriadau a rhagamcanion gwael pan gafodd cyllideb 2016-2017 ei phennu. Roedd y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer wedi dod yn ymwybodol o'r gorwariant yn ystod yr adolygiad canol blwyddyn, a dechreuodd ymchwiliadau bryd hynny i ddarganfod pam, ond cymerodd ychydig o amser i ddod o hyd i'r ateb. Roedd cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i sicrhau y byddai'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn rhagolwg mwy cywir.

d) Roedd y rheswm dros gostau teithio a llety uwch na'r disgwyl ar gyfer aelodau paneli yn cael ei archwilio ymhellach. Roedd darparwr teithio newydd wedi cael ei gyflwyno yn ystod y flwyddyn a gellid gweld data gwell o ganlyniad i hynny.

e) O ran arbedion effeithlonrwydd, roedd y Cyngor wedi cael ei hysbysu ym mis Medi na fyddai'r targed ymestynnol o bump y cant yn cael ei gyrraedd. O ran dilyn hynt yr arbedion effeithlonrwydd sefydledig, gellid dweud bod y rhain wedi cael eu cyflawni i'r graddau bod y sefydliad wedi sicrhau'r perfformiad y cytunwyd arno yn unol â'r gyllideb.

f) Roedd ffordd ddiwygiedig o sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn cael ei chynnig ar gyfer 2017-2018, ar sail dangosyddion perfformiad y gyfarwyddiaeth. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Cyngor weld dadansoddiad misol o'r hyn y dylid ei gyflawni a'r hyn a gyflawnwyd, er mwyn i'r pethau nad ydynt ar y trywydd iawn gael eu nodi'n gynnar.

g) Er mwyn dilyn hynt arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol, byddai'n ddefnyddiol darparu dadansoddiad o gostau cyflogau a chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau.

h) Roedd amrywiaeth o fesurau wedi cael eu rhoi ar waith a'u goruchwylio gan dîm newydd. Dylai'r rhain sicrhau bod rhagolygon yn fwy cywir yn y gyllideb ar gyfer 2017-2018, ac y dylai'r alldro fod yn agosach at y rhagolwg. Dylai'r Rheoliadau Ariannol newydd a'r canllawiau gweithredol sy'n sylfaen iddynt a oedd yn cael eu cyflwyno yn y sefydliad; y ffaith bod pob cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am ei chyllideb ei hun; ac adroddiad diweddar y gwasanaeth archwilio mewnol a awgrymodd welliannau i'r fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli ariannol helpu i gynnig sicrwydd y byddai mwy o

DRAFT

ddisgyblaeth ariannol yn y flwyddyn sydd i ddod.

i) Dylid tynnu sylw'r Cyngor at unrhyw orwariant a ragwelir yn glir, er tryloywder ac fel y gallai sicrhau bod y gyllideb yn cael ei goruchwylio'n fanwl.

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | **Darparu dadansoddiad o gostau cyflogau a chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau mewn adroddiadau yn y dyfodol, ynghyd â dadansoddiad misol o arbedion effeithlonrwydd** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Adnoddau** |
| **Erbyn:** | **25 Ebrill 2017** |

**NMC/17/32 Cwestiynau gan sylwedyddion**

1. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan sylwedyddion. Gwnaed y sylwadau canlynol:

a) Roedd Unsain a Choleg Brenhinol y Bydwragedd yn dal i bryderu am y dull arfaethedig o gyflwyno rhybuddion Addasrwydd i Ymarfer. Roedd rhybudd yn fater difrifol, oherwydd byddai angen ei ddatgan i gyflogwr neu asiantaeth yn y dyfodol a gallai niweidio enwau da. Byddai'n anodd cyfleu'r materion yn deg mewn paragraff byr cyhoeddedig ac roedd angen sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng enw da'r aelod cofrestredig a diogelwch y cyhoedd: ni ddylid cosbi aelodau cofrestredig ddwywaith. Byddai hysbysu'r aelodau cofrestredig ymlaen llaw o'r bwriad i roi rhybudd yn eu galluogi i fyfyrio, a byddai hynny'n gyson ag ailddilysu. Roedd cynnal proses gydsyniol sy'n ymgysylltu ag aelodau cofrestredig yn hytrach na chyflymu materion yn bwysig. Byddai monitro a chysondeb o ran dull yn allweddol. Cafodd Unsain a Choleg Brenhinol y Bydwragedd eu diolch gan y Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer am eu hymgysylltiad hyd yn hyn, a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai'r NMC yn parhau i weithio gyda'r cyrff cynrychioladol ar y materion hyn.

b) Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch pryd y byddai mabwysiadwyr cynnar y safonau addysg nyrsio newydd yn hysbys, roedd y Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi yn rhagweld y byddai sefydliadau'n gwirfoddoli. Nid oedd yr amserlen ar gyfer gwahodd gwirfoddolwyr yn glir eto, gan ei bod yn dibynnu ar roi ffactorau eraill o fewn y rhaglen ar waith yn gyntaf. Roedd llenwi swyddi yn y gyfarwyddiaeth Addysg wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl oherwydd yr angen i recriwtio'r bobl gywir.

c) Roedd Llywodraeth yr Alban yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a gwledydd eraill ar y darpariaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud â nyrsys cyswllt. Nodwyd hefyd fod gan yr Alban fwrsarïau ar gyfer myfyrwyr o hyd.

d) Roedd yn bwysig bod y Panel Bydwreigiaeth yn monitro effeithiau'r newidiadau ar sut y caiff y maes bydwreigiaeth ei reoleiddio a'i oruchwylio, gan gynnwys ar atgyfeiriadau at y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer.

**NMC/17/33 Camau a gymerwyd gan y Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf**

1. Nododd y Cyngor y camau a gymerwyd gan y Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf.

**NMC/17/34 Trawsnewid**

1. Ystyriodd y Cyngor bapur a chyflwyniad gan y Tîm Gweithredol ar y cyd-destun, y materion, y costau, yr amserlen, y manteision a'r risgiau i'w hystyried wrth wneud penderfyniad mewn egwyddor ar yr Achos Busnes Trawsnewid Amlinellol. Byddai achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2017.

2. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd am Strategaeth yr NMC ar gyfer 2015-2020, a gymeradwywyd gan y Cyngor yn 2015. Roedd y Strategaeth yn nodi uchelgais y Cyngor i fod yn rheoleiddiwr dynamig a blaengar; yn pwysleisio'r angen i gydbwyso adnoddau'n well rhwng swyddogaethau craidd; a'r angen i reoli cryn dipyn o newid heb aberthu perfformiad. Roedd angen trawsnewid i gyflawni uchelgais y Cyngor, gan fod y sefydliad bellach wedi cyrraedd terfyn yr hyn y gellid ei gyflawni o ran gwella gweithrediadau presennol. Roedd yr achos busnes amlinellol yn cwmpasu'r broses o drawsnewid y busnes a lleoliad y busnes, ac yn cynnwys cynlluniau i gael canolfan gyswllt ym Manceinion o fis Mawrth 2018. Byddai trawsnewid yn effeithio ar bob agwedd ar y sefydliad.

3. Nodwyd bod y Cyngor wedi cael cyfle, mewn sesiwn gyfrinachol, i ystyried materion i'w cadw'n gyfrinachol ar y cam hwn, gan gynnwys materion cyflogaeth. Fodd bynnag, hon oedd y drafodaeth gyntaf ar yr achos busnes trawsnewid yn y cylch.

4. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

a) Byddai cydweithredu strategol yn ganolog i drawsnewid. Roedd yr NMC a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn fodlon cydweithio pan fyddai hyn yn fuddiol i'r ddwy ochr.

b) Nid oedd y model gweithredol presennol yn gynaliadwy. Roedd y model ariannol yn yr achos busnes amlinellol yn gwneud synnwyr; roedd y prif risgiau wedi cael eu nodi ac roedd cynlluniau lliniaru ar waith; ac roedd Adolygiad Gateway wedi cynnig sicrwydd yn allanol ei bod yn synhwyrol i fwrw ati.

c) Roedd angen eglurder mewn sawl maes o hyd, a dylid ei roi fel rhan o'r achos busnes llawn ym mis Gorffennaf. Roedd hyn yn cynnwys

DRAFT

cynllun gweithredu llawn sy'n nodi beth fyddai'r sefydliad yn ei wneud i gyrraedd model y dyfodol; sut y byddai model gweithredu'r dyfodol yn sicrhau'r 'dynamiaeth' a oedd yn allweddol i strategaeth y Cyngor a'r meini prawf a fyddai'n cael eu defnyddio i farnu llwyddiant. Ym mis Gorffennaf, byddai hefyd yn ddefnyddiol cael mwy o eglurder o ran pa fodel o welliant parhaus roedd y sefydliad yn bwriadu ei ymgorffori ym model gweithredu'r dyfodol.

d) Byddai'n ddefnyddiol cael 'vignettes' o'r hyn fyddai'n wahanol i staff o fewn y sefydliad e.e. i'r Tîm Gweithredol, uwch reolwyr, staff rheng flaen ac i aelodau cofrestredig, cyflogwyr, addysgwyr. Byddai'r gwaith i ddatblygu teithiau cwsmeriaid yn mynd i'r afael â hyn yn rhannol.

e) Byddai angen i'r achos busnes llawn gyfleu'n fanylach sut y byddai trawsnewid yn gwella mesurau i amddiffyn y cyhoedd.

f) Roedd y model newydd arfaethedig yn seiliedig ar dechnoleg well a llai o bobl; er bod hyn yn debygol o wella budd trawsnewid, roedd hefyd yn cynyddu'r risgiau. Roedd angen gwytnwch ar y daith a phan fyddai'r daith wedi dod i ben.

g) Roedd yn angenrheidiol defnyddio contractwyr allanol â sgiliau arbenigol penodol er mwyn sicrhau'r cyflymdra angenrheidiol ac oherwydd nad oedd y rhain yn sgiliau y byddai eu hangen ar y sefydliad yn yr hirdymor. Fodd bynnag, dylai'r cydbwysedd rhwng staff mewnol a chontractwyr newid dros amser. Byddai cofrestr trosglwyddo sgiliau yn ddefnyddiol. Byddai'n angenrheidiol meincnodi sgiliau i nodi pa rai oedd gan y sefydliad yn barod a pha rai roedd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

h) Un o brif bryderon y Cyngor oedd yr effaith ar staff. Roedd y Cyngor yn awyddus i sicrhau bod y gwaith o drawsnewid yn cael ei wneud mewn partneriaeth â staff. Byddai hefyd am gynnal dealltwriaeth dda o safbwyntiau ac ymatebion staff drwy gydol y rhaglen. Byddai angen i ddulliau da o geisio safbwyntiau staff fod ar waith.

i) Roedd yn bwysig cydnabod nad yw'r un rhaglen fawr yn rhedeg yn ôl y bwriad. Beth oedd yn bwysig oedd gwneud y Cyngor yn ymwybodol, er mwyn iddo gymryd camau yn ôl yr angen a sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli. Byddai angen pennu pwyntiau clir er mwyn i'r Cyngor gael y cyfle i oedi am funud a gwneud penderfyniadau anodd pan fo angen, os na fydd y rhaglen ar y trywydd iawn. Dylid darparu Cynllun B sy'n nodi pwyntiau gwan yn y rhaglen Trawsnewid fel rhan o'r achos busnes llawn ym mis Gorffennaf.

j) Roedd adolygiad Gateway wedi asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â bwrw ati ar raddfa melyn. Roedd yn galonogol bod ymateb y rheolwyr yn derbyn yr holl argymhellion. Byddai disgwyl i'r sgôr risg

gael ei gwella ymhellach erbyn mis Gorffennaf. Bryd hynny, gall fod angen i'r Cyngor ystyried p'un a oedd digon o waith wedi cael ei wneud cyn gwneud y penderfyniad nesaf.

k) Ni fyddai'r model trawsnewid na'r ddarpariaeth TG newydd yn dibynnu ar leoliad fel rhan o'r cyfeiriad cyffredinol. Nodwyd Manceinion fel y lleoliad a ffafriwyd ar gyfer y ganolfan gyswllt, yn seiliedig ar gyfleoedd i gydweithredu'n strategol a'r gallu i arbed arian.

l) Roedd y model yn un gofalus o ran asesu costau a thanamcangyfrif manteision. Byddai'r darlun yn gliriach ym mis Gorffennaf pan fyddai'r costau gwirioneddol ar gael. Cydnabuwyd pwysigrwydd peidio â thorri'r lefel ofynnol ar gyfer cronfeydd wrth gefn am ddim sydd ar gael; byddai'r Cyngor yn disgwyl i gost yr achos busnes llawn fod yn llai nag £11.2m ar gyfer 2017-2018. Roedd y rhaglen yn gofyn am fuddsoddi'n sylweddol a byddai angen disgyblaeth lem i sicrhau bod costau'n cael eu rheoli a bod manteision yn deillio ohoni.

m) Deilliodd y penderfyniad o drafodaethau cronnus a gafwyd gan y Cyngor ers mis Rhagfyr 2015, gan gynnwys trafodaethau yn ystod cyfarfod cyfrinachol y Cyngor ar 28 Mawrth 2017. Roedd hyn, ynghyd ag adroddiad adolygiad Gateway a chyngor cynghorwyr Ariannol a TGCh annibynnol y Cyngor, yn gysur mawr ac yn golygu y gallai'r Cyngor gytuno i fwrw ati mewn egwyddor, er gwaethaf yr angen i ddatrys rhai materion o hyd.

5.

**Penderfyniad: Gwnaeth y Cyngor y canlynol:**

i. **Penderfynu, mewn egwyddor, fod yr Opsiwn Trawsnewid a amlinellwyd yn y papur, gan gynnwys ychydig o adleoli, yn briodol ar gyfer dyfodol yr NMC.**
ii. **Cytuno y dylai cynllun gweithredu gael ei lunio ar y sail hon.**
iii. **Cytuno y dylai achos busnes llawn yn seiliedig ar weithredu'r cynllun gael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf, fel sail i gytuno i gyllid a'i ryddhau.**
iv. **Cytuno y gellir gwario hyd at £2.5 miliwn rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2017 i ddwyn yr achos busnes yn ei flaen. Bydd y swm hwn yn cael ei osod yn erbyn cwmpas cyfanswm y gwariant ar gyfer blwyddyn gyntaf y rhaglen.**

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | **Datblygu cynllun gweithredu sy'n seiliedig ar yr amlinelliad Opsiwn Trawsnewid cytûn yn y papur** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Trawsnewid** |
| **Erbyn:** | **25 Gorffennaf 2017** |
| **Cam gweithredu:** | **Sicrhau bod yr achos busnes llawn i'w gyflwyno ym mis Gorffennaf yn mynd i'r afael â'r pwyntiau y gofynnodd y Cyngor amdanynt.** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Trawsnewid** |
| **Erbyn:** | **25 Gorffennaf 2017** |

DRAFT

**NMC/17/35 Cynllun Corfforaethol Drafft 2017-2018 a Chyllideb 2017-2020**

***19a Cynllun Corfforaethol Drafft 2017-2018***

1. Cyflwynodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd y Cynllun Corfforaethol drafft a'r DPAau arfaethedig ar gyfer 2017-2018. Eleni, roedd ymrwymiadau'n seiliedig ar asesiad gonest a realistig o'r hyn y gellid ei gyflawni. Roedd y darlun strategol ehangach y tynnwyd sylw ato yn y cynllun drafft yn cynnwys datblygiadau allanol posibl a all effeithio ar y gwaith.

2. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

a) Er bod y cynllun yn cyfeirio at bwysigrwydd parhau â gwaith ar wella data a gwybodaeth, ni chafodd cyflawniad penodol ei gynnwys. Byddai gwelliannau byrdymor i ddata presennol, gan gynnwys gwaith parhaus ar ddadgyfuno data ar gyfer bydwragedd a nyrsys. Ond ni allai'r darn strategol mwy gael ei gyflawni yn y flwyddyn sydd i ddod. Byddai'n anodd gwneud gwelliannau sylweddol i ddata cyn i systemau newydd gael eu rhoi ar waith.

b) Yn yr un modd, er y byddai'r sefydliad yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar safbwyntiau cleifion a'r cyhoedd, nid oedd yn realistig gwneud ymrwymiad ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

c) Roedd y cynllun yn ymrwymo i gynnal perfformiad busnes fel arfer ochr yn ochr â thrawsnewid.

d) Cafodd targed mwy heriol o 60 diwrnod (yn hytrach na 68 diwrnod) ei gynnig ar gyfer y DPA sy'n ymwneud ag asesu ceisiadau cofrestru'r UE/Tramor. Er bod ceisiadau'n cael eu prosesu cyn pen 30 diwrnod ar hyn o bryd, roedd hyn i'w briodoli i ymdrech ryfeddol y tîm i wneud hynny. Roedd y cyfraniad y byddai angen i'r gyfarwyddiaeth Cofrestru ei wneud i drawsnewid yn golygu bod 60 diwrnod yn darged realistig, o ystyried cymhlethdod asesiadau o'r fath.

e) Dylid ystyried datblygu DPA sy'n ymwneud â chwsmeriaid ac Ailddilysu, gan y gallai hwn ysgogi gwaith i wella ansawdd y data. Fel y nodwyd yn flaenorol, byddai'r Cyngor yn cael y dangosfwrdd ailddilysu cyntaf ym mis Mai.

f) Fel rhan o'r strategaeth AD, byddai gwybodaeth am y rhai sy'n dechrau ac yn gadael yn ôl cyfarwyddiaethau'r sefydliad yn ddefnyddiol i'w hystyried wrth symud ymlaen â'r trawsnewid. Roedd gwaith i wella data AD yn mynd rhagddo a byddai gwybodaeth monitro reolaidd yn cael ei rhoi i'r Cyngor.

g) Ni fyddai cronfeydd wrth gefn am ddim sydd ar gael yn DPA, ond byddent yn cael eu cofnodi drwy'r adroddiad monitro ariannol

DRAFT

3. rheolaidd.

**Penderfyniad: Gwnaeth y Cyngor y canlynol:**

**i. Cymeradwyo'r cynllun corfforaethol ar gyfer 2017-2018.**

**ii. Cymeradwyo'r DPAau a thargedau corfforaethol ar gyfer 2017-2018.**

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | **Ystyried datblygu er dyfodol DPAau gwasanaethau cwsmeriaid ac ailddilysu** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu** |
| **Erbyn:** | **5 Gorffennaf 2017** |

***19b Cyllideb Ddrafft 2017-2020***

1. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2017-2020. Roedd hon yn darparu ar gyfer gwariant busnes fel arfer a chostau'r rhaglen trawsnewid ar wahân. Gan nad oedd manylion yr olaf ar gael eto, cafodd y fersiwn o gyllideb 2017-2018, i'w chymeradwyo yn y cyfarfod hwn, ei chyflwyno heb gostau'r rhaglen drawsnewid. Byddai fersiwn derfynol, sy'n cynnwys costau trawsnewid yn seiliedig ar yr achos busnes llawn, yn cael ei chyflwyno ym mis Gorffennaf.

2. Roedd y gyllideb yn seiliedig ar gynnal ffioedd ar y lefel bresennol a gwneud dim newidiadau i'r lefel ofynnol ar gyfer cronfeydd wrth gefn am ddim. Roedd y gyllideb hefyd am ddangos gwariant ar raglenni mawr heblaw'r rhaglen drawsnewid ar wahân, megis y rhaglen addysg.

3. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

a) Yn y gyllideb, ni ddarparwyd ar gyfer cyflwyno mesurau i reoleiddio nyrsys cyswllt, gan y byddai angen i'r Adran Iechyd ariannu hyn yn llawn.

b) Roedd swm wrth gefn ar gyfer gwytnwch o £0.5 miliwn wedi cael ei gynnwys i dalu am unrhyw wariant neu ofynion ychwanegol annisgwyl.

c) Roedd cyllideb y gyfarwyddiaeth Adnoddau wedi cynyddu'n fawr gan fod angen mwy o arian i gryfhau'r tîm AD a Datblygu Sefydliadol.

d) Byddai'r cwmpas codi cyflogau, sef £0.8 miliwn ar gyfer 2017-2018, yn cynnwys dyfarniad cyflog o 2% i bob aelod o staff a chodiad ychwanegol i staff ar y ddwy raddfa gyflog isaf. Y nod oedd cael cydbwysedd rhwng denu a chadw staff mewn marchnad lafur gystadleuol.

e) Er nad oedd cyllideb fantoledig yn ddelfrydol, roedd trafodaethau cynharach y Cyngor wedi cynnig sicrwydd bod digon o ddisgyblaeth ariannol i aros o fewn y gyllideb.

4. **Penderfyniad: Gwnaeth y Cyngor y canlynol:**

**i. Cytuno y dylai'r ffi cofrestru a chadw flynyddol barhau ar y lefel bresennol o £120.**
**ii. Cytuno y dylai'r Cronfeydd wrth Gefn am Ddim sydd ar Gael barhau o fewn yr ystod o £10 miliwn i £25 miliwn.**
**iii. Cymeradwyo'r gyllideb busnes fel arfer, prosiectau a chyfalaf ar gyfer 2017-2018, fel y nodir yn y papur.**
**iv. Cymeradwyo'r cwmpas codi cyflogau o £0.8 miliwn ar gyfer 2017-2018.**
**v. Nodi'r ddarpariaeth a gynhwyswyd yn y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017-2018 at ddibenion Trawsnewid, i'w chymeradwyo gan y Cyngor ar wahân.**

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | **Cyflwyno fersiwn derfynol o'r gyllideb, gan gynnwys costau trawsnewid terfynol yn seiliedig ar yr achos busnes llawn** |
| **I:** | **Cyfarwyddwr Adnoddau** |
| **Erbyn:** | **25 Gorffennaf 2017** |

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal ddydd Mercher, 24 Mai 2017 yn stadiwm SWALEC yng Nghaerdydd.

**Fe'i cadarnhawyd gan y Cyngor fel cofnod cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd:**

**LLOFNOD:** .............................................................

**DYDDIAD:** .............................................................

DRAFT

Eitem 5
NMC/17/40
24 Mai 2017

# Y Cyngor

## Crynodeb o'r camau gweithredu

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | Er gwybodaeth. |
| **Mater:** | Crynodeb o hynt camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol y Cyngor. |
| **Swyddogaeth reoleiddio graidd:** | Swyddogaethau cefnogol. |
| **Blaenoriaeth strategol:** | Blaenoriaeth strategol 4: Sefydliad effeithiol. |
| **Angen penderfyniad:** | Na. |
| **Atodiadau:** | Dim. |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Os hoffech gael eglurhad ynghylch unrhyw beth yn y papur neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r awdur a enwir isod. |

Ysgrifennydd: Fionnuala Gill
Ffôn: 020 7681 5842
Fionnuala.gill@nmc-uk.org

# Crynodeb o'r camau sy'n weddill yn deillio o gyfarfod y Cyngor ar 29 Mawrth 2017

| Cofnod | Cam gweithredu | Perchennog y cam gweithredu | Yn atebol i: Dyddiad: | Cynnydd hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|
| **NMC/17/21** | **Crynodeb o'r camau gweithredu**<br><br>Paratoi briffiad ar drefniadau prentisiaethau yn y pedair gwlad | Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi | 24 Mai 2017 | Caiff briffiad ar drefniadau prentisiaethau yn y pedair gwlad ei gynnwys fel atodiad i'r camau gweithredu hyn. |
| **NMC/17/23** | **Adran 60: Canlyniadau'r ymgynghoriad addasrwydd i ymarfer a Rheolau arfaethedig**<br><br>Adrodd yn ôl i'r Cyngor ym mis Mai 2017 ar baratoi ar gyfer cyflwyno'r pwerau newydd | Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer | 24 Mai 2017 | Cwblhawyd. Wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad ar Berfformiad ar yr agenda. |
| **NMC/17/23** | **Adran 60: Canlyniadau'r ymgynghoriad addasrwydd i ymarfer a Rheolau arfaethedig**<br><br>Monitro effaith:<br>i. defnyddio rhybuddion;<br>ii. cyhoeddi rhybuddion a darparu gwerthusiad o effaith y newidiadau i'r Cyngor ar ôl 12 mis | Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer | 28 Mawrth 2018 | Nid yw'n ddisgwyliedig eto. |
| **NMC/17/24** | **Nyrsys Cyswllt**<br><br>Ystyried y meysydd polisi ym | Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi | 24 Mai 2017 | Ar y cyfan, roedd eitemau ym mharagraff 11 o bapur nyrsys cyswllt Mawrth 2017 yn benderfyniadau ynghylch ffurf gorchymyn |

| Cofnod | Cam gweithredu | Perchennog y cam gweithredu | Yn atebol i: Dyddiad: | Cynnydd hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|
| | mharagraff 11 o'r papur gyda'r Cyngor ymhellach cyn gwneud penderfyniadau | | | Adran 60 oedd ar ddod a wneir gan yr Adran Iechyd. Caiff dwy o'r eitemau, a oedd yn ymwneud â safonau hyfedredd, eu trafod ag Aelodau'r Cyngor drwy gyfweliadau a gynlluniwyd a chafodd aelodau'r Cyngor sicrwydd yn seminar mis Ebrill 2017 fod cyfleoedd a amserlennwyd i drafod safonau hyfedredd drafft cyn unrhyw benderfyniadau cysylltiedig. |
| **NMC/17/27** | **Adolygu lwfansau aelodau Pwyllgor nad ydynt yn rhan o'r Cyngor (aelodau partner)**<br><br>Sicrhau bod adolygiad o gyfraddau sy'n daladwy i aelodau Pwyllgor nad ydynt yn rhan o'r Cyngor ac eraill sydd ynghlwm wrth weithgareddau ar ran y Cyngor yn cael ei gynnal bob dwy i dair blynedd | Ysgrifennydd | 24 Mai 2017 | Bwriedir cynnal adolygiad yn 2019–2020. |
| **NMC/17/28** | **Adroddiad y Pwyllgor Bydwreigiaeth**<br><br>Ysgrifennu at Anne Wright i gyfleu diolch a gwerthfawrogiad y Cyngor. | Cadeirydd | 31 Mai 2017 | Cwblhawyd. Llythyr wedi'i anfon 4 Ebrill 2017 ac ymateb wedi'i gael. |
| **NMC/17/30** | **Perfformiad Addasrwydd i** | Cyfarwyddwr Addasrwydd | 24 Mai 2017 | Cwblhawyd. Caiff gwybodaeth am |

| Cofnod | Cam gweithredu | Perchennog y cam gweithredu | Yn atebol i: Dyddiad: | Cynnydd hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|
| | **Ymarfer, DPAau a dangosfwrdd**<br><br>Darparu gwybodaeth am yr ystod ac achosion hŷn, yn ogystal â'r canolrif mewn adroddiadau yn y dyfodol | i Ymarfer | | achosion hŷn a'r ystod a'r canolrif ei chynnwys yn y dangosfwrdd erbyn hyn. |
| **NMC/17/30** | **Perfformiad Addasrwydd i Ymarfer, DPAau a dangosfwrdd**<br><br>Darparu gwybodaeth ar wahân am achosion yr ymdriniwyd â hwy o dan reolau presennol a newydd mewn adroddiadau yn y dyfodol | Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer | 27 Medi 2017 | Nid yw'n ddisgwyliedig eto. |
| **NMC/17/30** | **Crynodeb risg gorfforaethol**<br><br>i. Dileu CR25–Trosi bydwreigiaeth;<br>ii. Ystyried yr angen i gynyddu CR32–Risg adnoddau ariannol | Cyfarwyddwr Adnoddau | 24 Mai 2017 | Cwblhawyd. |
| **NMC/17/30** | **Crynodeb risg gorfforaethol**<br><br>Rhoi diweddariad ar CR 29–risg Cipolwg a Gwybodaeth sy'n | Cyfarwyddwr Trawsnewid | 5 Gorffennaf 2017 | Rydym wedi cyflogi Cronfa'r Brenin i wneud peth gwaith cychwynnol ar gydweithredu, data a gwybodaeth. Bydd hyn yn arwain at weithdy gyda'r Cyngor |

| Cofnod | Cam gweithredu | Perchennog y cam gweithredu | Yn atebol i: Dyddiad: | Cynnydd hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|
| | cwmpasu'r disgwyliadau a ddylai fod yn gysylltiedig â thrawsnewid | | | ym mis Medi. Rydym hefyd wedi sefydlu'r ffrwd waith Gwybodaeth a Chipolwg o fewn trawsnewid sy'n datblygu ein fframwaith data, perchenogaeth data a dull llywodraethu er mwyn sicrhau y gallwn ymholi a dadansoddi'n effeithiol yn y dyfodol. |
| **NMC/17/31** | **Adroddiad monitro ariannol**<br><br>Darparu dadansoddiad o gostau cyflogau a chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau mewn adroddiadau yn y dyfodol, ynghyd â dadansoddiad misol o arbedion effeithlonrwydd | Cyfarwyddwr Adnoddau | 25 Ebrill 2017 | Dadansoddiad o gyflogau wedi'i gynnwys yn yr adroddiad monitro ariannol. Byddwn yn darparu gwybodaeth am fesurau effeithlonrwydd mewn adroddiadau yn y dyfodol. |
| **NMC/17/34** | **Trawsnewid**<br><br>Datblygu cynllun gweithredu sy'n seiliedig ar yr amlinelliad Opsiwn Trawsnewid cytûn yn y papur | Cyfarwyddwr Trawsnewid | 25 Gorffennaf 2017 | Rydym wrthi'n gweithio ar y cynllun gweithredu ac yn cynnwys gofynion y Cyngor yn yr achos busnes cyffredinol ar gyfer y cyfarfod ar 25 Gorffennaf. |
| **NMC/17/34** | **Trawsnewid**<br><br>Sicrhau bod yr achos busnes llawn i'w gyflwyno ym mis Gorffennaf yn mynd i'r afael â'r pwyntiau y gofynnodd y Cyngor amdanynt | Cyfarwyddwr Trawsnewid | 25 Gorffennaf 2017 | Rydym wrthi'n gweithio ar y cynllun gweithredu ac yn cynnwys gofynion y Cyngor yn yr achos busnes cyffredinol ar gyfer y cyfarfod ar 25 Gorffennaf. |

| Cofnod | Cam gweithredu | Perchennog y cam gweithredu | Yn atebol i: Dyddiad: | Cynnydd hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|
| **NMC/17/35** | **Cynllun Corfforaethol Drafft 2017–2018 a DPAau**<br><br>Ystyried datblygu er dyfodol DPAau gwasanaethau cwsmeriaid ac ailddilysu | Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu | 5 Gorffennaf 2017 | Nid ydym yn awgrymu DPAau ailddilysu fel y trafodwyd yn flaenorol gyda'r Cyngor gan fod y wybodaeth yn cael ei chwmpasu mewn adroddiadau DPA presennol. Caiff dangosfwrdd ailddilysu ei ddatblygu mewn ymateb i adborth y Cyngor.<br><br>Caiff DPA gwasanaethau cwsmeriaid drafft ei ddatblygu a byddwn yn ei gyflwyno i'r Cyngor ar 5 Gorffennaf 2017. |
| **NMC/17/35** | **Cyllideb Ddrafft 2017–2020**<br><br>Cyflwyno fersiwn derfynol o'r gyllideb, gan gynnwys costau trawsnewid terfynol yn seiliedig ar yr achos busnes llawn | Cyfarwyddwr Adnoddau | 25 Gorffennaf 2017 | Nid yw'n ddisgwyliedig eto. |

## Crynodeb o'r camau sy'n weddill yn deillio o gyfarfod y Cyngor ar 25 Ionawr 2017

| **Cofnod** | Cam gweithredu | **Perchennog y cam gweithredu** | **Yn atebol i: Dyddiad:** | **Cynnydd hyd yn hyn** |
|---|---|---|---|---|
| **NMC/17/12** | **Adolygiad Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol 2015-2016**<br><br>Darparu adroddiad manylach ar y cynllun gwella gyda llwybrau clir ac amserlenni ar gyfer canlyniadau. | Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu | 24 Mai 2017 | Ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn. |
| **NMC/17/13** | **Gwasanaeth cyswllt cyflogwyr**<br><br>Darparu adroddiad ar effaith blwyddyn gyntaf y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr pan fo'n briodol. | Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer | 27 Medi 2017 | Nid yw'n ddisgwyliedig eto. |

## Crynodeb o'r camau sy'n weddill yn deillio o gyfarfod y Cyngor ar 28 Medi 2016

| **Cofnod** | Cam gweithredu | **Perchennog y cam gweithredu** | **Yn atebol i: Dyddiad:** | **Cynnydd hyd yn hyn** |
|---|---|---|---|---|
| **NMC/16/74** | **Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2015-2016**<br><br>Darparu cynllun manwl sy'n nodi'r | Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi | 25 Ionawr 2017 | Bydd y cynllun gweithredu yn barod i'w gyflwyno i'r Cyngor ar 5 Gorffennaf 2017. |

| **Cofnod** | Cam gweithredu | **Perchennog y cam gweithredu** | **Yn atebol i: Dyddiad:** | **Cynnydd hyd yn hyn** |
|---|---|---|---|---|
| | camau gweithredu a'r targedau penodol i ddatblygu'r blaenoriaethau a nodir yn yr adroddiad (paragraff 37). | | | |

Eitem 5: **Atodiad 1**
NMC/17/40
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Briffiad: Trefniadau prentisiaeth yn y pedair gwlad

## Diben y briffiad

1 Mae prentisiaethau yn dod yn fwyfwy cyffredin fel dewis amgen i lwybrau gradd mwy traddodiadol tuag at gymwysterau. Mae'r briffiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ar y dulliau o ymdrin â phrentisiaethau a'r blaenoriaethau cysylltiedig yn y pedair gwlad, gan gynnwys barn pob gweinyddiaeth ar ddyfodol prentisiaethau. Mae'n canolbwyntio ar brentisiaethau lefel gradd a lefel uwch gan mai'r rhain yw'r mwyaf perthnasol i'r sawl sy'n cofrestru â ni. Mae'n werth nodi bod llwybrau hyfforddi seiliedig ar waith eraill nas ystyrir yn brentisiaethau.

## Lefi prentisiaeth ledled y DU

2 Ar 6 Ebrill 2017 cyflwynwyd lefi prentisiaeth ledled y DU, oedd â'r nod o godi arian ar gyfer hyfforddi prentisiaid. Mae cyflogwyr (o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector) sydd â bil cyflog o fwy na £3 miliwn yn talu lefi o 0.5% drwy broses TWE i adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl codi bron £3 biliwn y flwyddyn drwy'r lefi hon.

3 Bydd llywodraeth y DU yn rhoi cyfran o'r boblogaeth o ragamcan lefi prentisiaeth ddiweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i'r gweinyddiaethau datganoledig (Mawrth 2016[1]):

| **Swm cyllid lefi (£m)** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth yr Alban | 221 | 230 | 239 |
| Llywodraeth Cymru | 128 | 133 | 138 |
| Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon | 76 | 79 | 82 |

4 Mae pob Llywodraeth ddatganoledig yn rheoli ei rhaglen brentisiaeth ei hun a gall benderfynu sut i wario'r arian hwn.

## Lloegr

5 Yn Lloegr, yr Adran Addysg sy'n bennaf cyfrifol am bolisi prentisiaeth. Mae'n ehangu'r rhaglen prentisiaethau, gyda'r nod o weld 3 miliwn o brentisiaid newydd rhwng 2015 a 2020, tra'n ei gwneud yn rhaglen a arweinir ac a ariennir gan gyflogwyr fwyfwy.

[1] https://www.gov.uk/government/news/uk-government-agrees-apprenticeship-levy-funding-deal-with-devolved-administrations

6 Caiff arian a godir drwy'r lefi yn Lloegr ei neilltuo ar gyfer hyfforddi prentisiaid:

6.1 Bydd gwasanaeth prentisiaethau ar-lein yn galluogi cyflogwyr i dderbyn cyllid lefi i'w wario ar brentisiaethau, rheoli eu prentisiaid, talu'r darparwr hyfforddiant ac atal neu ohirio taliadau i'r darparwr hyfforddiant.

6.2 Bydd cyflogwyr nad ydynt yn talu lefi yn rhannu cost hyfforddi ac asesu eu prentisiaid â'r llywodraeth ('cydfuddsoddi'). O fis Mai 2017, byddant yn talu 10% tuag at gost hyfforddi prentisiaid, gyda'r llywodraeth yn talu'r gweddill hyd at uchafswm y band cyllido.

7 Hyd yn hyn, Lloegr yw'r unig wlad sydd wedi mabwysiadu model cyflwyno prentisiaethau i gymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo gan yr NMC. Mae hefyd yn werth nodi mai Lloegr yw'r unig wlad sydd wedi dileu bwrsarïau'r GIG ar gyfer myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth newydd o 1 Awst 2017. Hefyd, Lloegr yw'r unig wlad sydd ar hyn o bryd yn bwriadu defnyddio nyrsys cyswllt y mae prentisiaeth yn cael ei datblygu ar gyfer y rôl honno.

8 Mae'r rhestr o brentisiaethau iechyd a gwyddoniaeth[2] yn cynnwys y canlynol:

8.1 Nyrs (gradd nyrs gofrestredig) – Lefel 6, safon wedi'i chyhoeddi

8.2 Nyrs gyswllt – safon yn cael ei datblygu

8.3 Ymarferydd cynorthwyol gofal iechyd – Lefel 5, cymeradwywyd i'w chyflwyno

8.4 Uwch weithiwr cymorth gofal iechyd – Lefel 3, cymeradwywyd i'w chyflwyno

8.5 Gweithiwr cymorth gofal iechyd – Lefel 2, cymeradwywyd i'w chyflwyno

9 Y bwriad yw y bydd prentisiaeth ar gyfer nyrsys cofrestredig ar gael o fis Medi 2017. Rydym wedi cael ceisiadau gan nifer fach o ddarparwyr gradd nyrsio cyn cofrestru a gymeradwywyd gan yr NMC sydd am gynnig prentisiaethau gradd nyrsio wrth fynd ymlaen.

## Yr Alban

10 Yn 2017, bydd 19 o gyrsiau prentisiaeth i raddedigion ar gael, ond byddant yn canolbwyntio ar TGCh/Digidol, Peirianneg Sifil a Pheirianneg i ddechrau. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i ehangu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith a chynyddu nifer y Prentisiaid Modern, gan gynnwys Prentisiaid Lefel Graddedig, i 30,000 erbyn 2020.

11 Ni fydd Llywodraeth yr Alban yn neilltuo ei chyfran o arian lefi i gyflogwyr ei defnyddio i hyfforddi prentisiaid. Yn hytrach, bydd yn rhan o gyllideb gyffredinol yr Alban, ond caiff ei defnyddio i gefnogi materion cyflogaeth.

[2] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/607590/Apprenticeship_standards_April_2017.pdf

12 Mae wedi nodi, er bod y lefi yn arwain at gynnydd bach mewn cyllid gan Lywodraeth y DU o ran gweithgarwch prentisiaethau, mae'r ffaith y bydd angen i'r sector cyhoeddus dalu'r lefi yn lleihau grym gwario £30 miliwn yn 2017-18.

13 Mae Skills Development Scotland wedi datblygu prentisiaeth ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd[3] (staff GIG yr Alban nad ydynt mewn rolau gofal iechyd cofrestredig). Mae'r brentisiaeth hon ar ddwy lefel – SCQF Lefel 6 a SCQF Lefel 7 – sef addysg uwch ond islaw gradd sylfaen.

## Cymru

14 Llywodraeth Cymru sy'n goruchwylio'r gwaith o gyflwyno prentisiaethau yng Nghymru. Bydd yn cynyddu ei buddsoddiad mewn prentisiaethau o £96 miliwn i £111.5 miliwn ar gyfer 2017-18, ac mae wedi addo creu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel i bob oedran dros y pum mlynedd nesaf.

15 Bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei harian lefi fel rhan o'r setliad datganoli ac ni chaiff ei neilltuo. Mae Gweinidogion Cymru wedi dadlau yn erbyn ffigurau Llywodraeth y DU gan amlinellu cyfran yr arian lefi a gaiff Cymru. Mae Gweinidog Sgiliau Cymru hefyd wedi dweud y byddai elw o'r lefi yn cael ei wrthbwyso gan doriadau mewn mannau eraill a cholli £30 miliwn gan gyflogwyr sector cyhoeddus yng Nghymru mewn taliadau lefi.

16 Ym mis Chwefror cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y symudir tuag at brentisiaethau uwch ond er ei bod yn ymrwymedig i brentisiaethau gradd y bydd y rhain yn cymryd amser i'w datblygu. Mae wedi blaenoriaethu sectorau fel TGCh, peirianneg ac adeiladu, ond mae'n gwybod y bydd blaenoriaethau newidiol yn golygu y bydd yn rhaid iddi edrych ar feysydd sector cyhoeddus proffesiynol fel nyrsio.

17 Yn 2014-15, cafodd y rhan fwyaf o brentisiaethau yng Nghymru eu cyflwyno yn y sector iechyd a gofal cyhoeddus, ond ar lefelau addysg uwchradd. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus ar gynllunio'r gweithlu er mwyn annog cynnydd mewn prentisiaid, gan gynnwys o fewn y GIG[4].

## Gogledd Iwerddon

18 Mae Gweinidog Cyllid Gogledd Iwerddon wedi datgan nad yw'r lefi yn cynnig unrhyw fudd ariannol cyffredinol i Ogledd Iwerddon oherwydd newidiadau ariannol eraill. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r sector cyhoeddus dalu £29 miliwn mewn ffioedd lefi gan olygu na fyddai unrhyw gynnydd cyffredinol yng nghyllideb y Weithrediaeth[5]. Mae'r ystyriaethau ariannol hyn, ynghyd â'r ansicrwydd gwleidyddol presennol, yn golygu bod y Weithrediaeth wedi rhoi'r gorau i waith ar brentisiaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

[3] http://www.skillsdevelopmentscotland.co.uk/what-we-do/our-products/modern-apprenticeships/modern-apprenticeship-frameworks/skills-for-health/healthcare-support/
[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/170206-app-policy-plan-cy-v2.pdf
[5] https://www.northernireland.gov.uk/news/apprenticeship-levy-no-benefit-executive

19 Ymgynghorodd Adran yr Economi ar y lefi Prentisiaeth ym mis Tachwedd 2016[6]. Nid yw'r Weithrediaeth wedi ymateb i'r ymgynghoriad eto.

20 Ar hyn o bryd mae Gogledd Iwerddon yn cynnig nifer o lwybrau cymhwyso seiliedig ar ymarfer (sy'n debyg i brentisiaethau) mewn iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Brifysgol Agored[7], gan gynnwys mewn Nyrsio Oedolion a Nyrsio Iechyd Meddwl. Ym marn yr Adran Iechyd mae'r rhaglenni hyn yn llwyddiannus ac mae'n bwriadu comisiynu mwy o leoedd.

[6] https://www.economy-ni.gov.uk/consultations/apprenticeship-levy
[7] https://www.nidirect.gov.uk/articles/higher-level-apprenticeships

Eitem 6
NMC/17/41
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Y Cyngor

## Adroddiad y Prif Weithredwr

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | Er gwybodaeth. |
| **Mater:** | Diweddariad gan y Prif Weithredwr ar (a) datblygiadau allweddol yn yr amgylchedd allanol a (b) gweithgarwch strategol allweddol. |
| **Swyddogaeth reoleiddio graidd:** | Pob swyddogaeth reoleiddio. |
| **Blaenoriaeth strategol:** | Blaenoriaeth strategol 3: Cydweithredu a chyfathrebu. |
| **Angen penderfyniad:** | Na. |
| **Atodiadau:** | Dim. |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Os hoffech gael eglurhad ynghylch unrhyw beth yn y papur neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r awdur neu'r cyfarwyddwr a enwir isod. |


Awdur: Peter Pinto de Sa
Ffôn: 020 7681 5426
peter.pinto@nmc-uk.org

Cyfarwyddwr: Jackie Smith
Ffôn: 020 7681 5871
jackie.smith@nmc-uk.org

**Cyd-destun:** 1 Mae hon yn eitem sefydlog ar agenda'r Cyngor ac mae'n sôn am (a) datblygiadau allweddol yn yr amgylchedd allanol; a (b) gweithgarwch ymgysylltu strategol allweddol.

**Ffactorau pedair gwlad:** 2 Mae'r papur yn adlewyrchu gweithgarwch ledled y DU.

**Trafodaeth**

## Atebolrwydd a goruchwylio

### Cynghorydd iechyd y Prif Weinidog

3 Ar 19 Ebrill 2017, cyfarfu'r Prif Weithredwr, ynghyd â Chyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu, â Dr James Kent, sef Cynghorydd Iechyd y Prif Weinidog am drafodaeth gychwynnol. Bu Dr Kent yn y swydd ers mis Ionawr 2017 ac rydym ymhlith y rheoleiddwyr proffesiynol cyntaf i gyfarfod ag ef. Roedd materion o ran y gweithlu, gan gynnwys Brexit, yn rhan bwysig o'r drafodaeth, ynghyd â rheoleiddio nyrsys cyswllt.

### Gweinidog Iechyd Cysgodol

4 Ym mis Mawrth 2017, cyfarfu'r Prif Weithredwr â Justin Madders AS, sef y Gweinidog Iechyd Cysgodol. Canolbwyntiodd y cyfarfod ar effaith bosibl Brexit, rheoleiddio nyrsys cyswllt ac effaith newidiadau Adran 60 yr NMC. Roedd gan Mr Madders ddiddordeb mewn clywed sut y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn ein galluogi i gyflawni ein gwaith addasrwydd i ymarfer mewn ffordd fwy cymesur a chosteffeithiol.

### Yr Adran Iechyd

5 Treuliodd Dirprwy Gyfarwyddwr y Gangen Rheoleiddio Proffesiynol a Chyfarwyddiaeth Gofal Acíwt a'r Gweithlu yr Adran Iechyd ddiwrnod sefydlu yn swyddfeydd yr NMC ym mis Ebrill, lle gwnaeth gyfarfod â'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Cofrestru ac Ailddilysu; Adnoddau ac Addysg, Safonau a Pholisi, ymhlith eraill. Trefnir ymweliad arall i dreulio amser gyda'r gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

6 Mae'r Prif Weithredwr wedi cael trafodaethau dal i fyny rheolaidd gyda chydweithwyr o'r Adran Iechyd. Ymhlith y materion a drafodwyd roedd cynlluniau i gloriannu prawf iaith IELTS presennol nyrsys a bydwragedd a hyfforddwyd dramor sydd am ymuno â chofrestr yr NMC o ystyried bod y rhain wedi bodoli ers 2007. Rhaid mai ein prif ystyriaeth yw amddiffyn cleifion a'r cyhoedd bob amser, a byddwn yn casglu data a thystiolaeth er mwyn ein helpu i ystyried p'un a oes angen amrywio i'r naill gyfeiriad neu'r llall o ran y safonau presennol.

**Etholiad Cyffredinol 2017**

7 Mae i benderfyniad y Prif Weinidog i gyhoeddi Etholiad Cyffredinol ar gyfer 8 Mehefin 2017 oblygiadau o ran amserlenni seneddol a llywodraethol a'n gwaith mewn nifer o feysydd, gan gynnwys gweithgarwch deddfu. Er nad yw'r NMC yn rhan o'r llywodraeth, rydym yn gorff statudol. Mae hyn yn golygu ein bod yn ystyried, fel sy'n briodol, ganllawiau cyfnod cyn etholiad y llywodraeth a all effeithio ar raddau ein gweithgarwch neu sylwadau cyhoeddus yn y cyfnod hwn.

8 Mae'r Etholiad Cyffredinol wedi peri oedi i osod y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer sy'n gweithredu pwerau gwaredu newydd archwilwyr achos. Rydym wedi bod yn trafod hyn gyda swyddogion o'r Adran Iechyd. Gyda chefnogaeth weinidogol brydlon gan y llywodraeth newydd, disgwyliwn barhau ar y trywydd iawn i gyflwyno'r pwerau newydd ar amser.

9 O ran rheoleiddio nyrsys cyswllt, mae'r Adran Iechyd wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu parhau â datblygiad polisi a deddfwriaethol gorchymyn ac ymgynghoriad drafft Adran 60. Yn amodol ar gymeradwyaeth weinidogol, ni ragwelir unrhyw oedi ar hyn o bryd o ran amseru'r gwaith hwn.

**Adroddiad y Pwyllgor Iechyd ar Brexit**

10 Ar 28 Ebrill 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd ei adroddiad ar Brexit. Rhoddodd y Prif Weithredwr dystiolaeth lafar i'r ymchwiliad hwn ym mis Chwefror 2017. Gwnaethom godi nifer o risgiau a chyfleoedd sy'n deillio o Brexit o ran symudedd gweithwyr iechyd proffesiynol unwaith y byddwn wedi gadael yr UE, cymhwysedd cyfarwyddeb MRPQ, a'r hyn mae'r data yn ei ddatgelu am geisiadau gan nyrsys a bydwragedd a addysgwyd yn yr UE.

11 Cydnabu'r adroddiad y pryderon a godwyd gan yr NMC o ran cyfyngiadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol ar y Cyd (MRPQ) a'r angen am newid yn y maes hwn. Awgrymodd y Pwyllgor mai'r cyfrwng ar gyfer unrhyw newid yn y maes hwn ddylai fod deddfwriaeth sylfaenol arfaethedig y llywodraeth i ddiwygio rheoleiddio proffesiynol. Hefyd cydnabu'r Pwyllgor bwysigrwydd dulliau rhybuddio presennol er mwyn nodi ymarferwyr anniogel o bosibl sy'n bodoli fel rhan o gyfraith yr UE.

12 Rydym bellach wedi ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd er mwyn ymgysylltu ar y mater hwn. Rydym yn parhau i ymgysylltu â swyddogion yn yr Adran Iechyd, ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth â rheoleiddwyr proffesiynol eraill sy'n rhannu ein pryderon yn y meysydd hyn.

### Gweithgarwch arall sy'n ymwneud â Brexit

13 Ar 5 Ebrill 2017, cyfarfu'r Prif Weithredwr â Phrif Weithredwyr y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) a Chyflogwyr y GIG i drafod effaith Brexit. Hefyd cyfarfu'r Prif Weithredwr â Phrif Weithredwr y GMC ar wahân am gyfarfod dal i fyny rheolaidd ar 20 Ebrill 2017.

### Adroddiad Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar gynaliadwyedd hirdymor y GIG

14 Cyhoeddodd Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar gynaliadwyedd hirdymor y GIG ei adroddiad ar 5 Ebrill 2017. Roedd y Prif Weithredwr wedi rhoi tystiolaeth i'r ymchwiliad ym mis Rhagfyr 2016.

15 Gwnaeth yr adroddiad sawl argymhelliad oedd o ddiddordeb i'r NMC. Yn nodedig, y dylai Health Education England weithio gyda'r NMC ac eraill i arwain y gwaith o newid y diwylliant ceidwadol ymhlith y rhai sy'n addysgu ac yn hyfforddi'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd, anogodd y Pwyllgor y llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth i foderneiddio'r gwaith o reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol, gan ein dwyn ynghyd mewn un fframwaith cyfreithiol.

16 Gwnaethom groesawu'r adroddiad a'r argymhellion a byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid a hyrwyddo gwelliannau drwy ein rhaglen addysg.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

### Diwrnod Rhyngwladol y Fydwraig a Diwrnod Rhyngwladol y Nyrsys

17 I ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Fydwraig (5 Mai) a Diwrnod Rhyngwladol y Nyrsys (12 Mai) gwnaethom weithio gyda'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio i lansio prosiect newydd a chyhoeddiad o'r enw *Enabling Professionalism*. Mae'r prosiect hollbwysig hwn ar gyfer pob nyrs a bydwraig yn disgrifio ac yn dangos sut beth yw proffesiynoldeb mewn ymarfer bob dydd drwy gymhwyso'r Cod. Arweiniodd yr NMC y gwaith o lansio'r cyhoeddiad newydd ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol lwyddiannus a oedd yn annog pob nyrs a bydwraig i rannu'r hyn mae proffesiynoldeb yn ei olygu iddynt hwy drwy ddefnyddio #professionalism. Gwnaethom hefyd ysgrifennu at bob nyrs a bydwraig ar y cyd â'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio, er mwyn rhannu'r adnoddau newydd, sydd bellach ar gael ar wefan yr NMC.

18 I gyd-daro â Diwrnod Rhyngwladol y Fydwraig ar 5 Mai 2017, trefnodd Cymdeithas y Bydwragedd Radical brotest y tu allan i'r swyddfa yn 23 Portland Place. Cyfarfu'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu â grŵp bach o fydwragedd a

chefnogwyr i drafod eu pryderon.

19 Hefyd bu'r Prif Weithredwr yn bresennol yng Ngwasanaeth Goffa Florence Nightingale yn Abaty Westminster ar 17 Mai 2017.

**Fforwm Cynghori'r Deyrnas Unedig yr NMC**

20 Fel y trafodwyd gyda'r Cyngor, mae'n bleser gennym gyhoeddi, gyda chefnogaeth y pedwar Prif Swyddog Nyrsio, ein bod yn bwrw ati â'n cynlluniau ar gyfer Fforwm Cynghori'r Deyrnas Unedig. Bydd y Fforwm yn cyfarfod ym mhob un o'r pedair gwlad yn ei dro. Bydd yn cynnwys y Prif Swyddogion Nyrsio ac arweinwyr proffesiynol a pholisi o'r Adrannau Iechyd ym mhob gweinyddiaeth, yn ogystal ag arbenigwyr pwnc perthnasol, yn dibynnu ar yr agenda. Bydd Cadeirydd y Cyngor ac aelodau'r Cyngor o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn bresennol mewn rôl arsylwi.

**Prif Swyddogion Nyrsio'r DU ac Iwerddon**

21 Ar 11 Ebrill 2017, cyfarfu'r Prif Weithredwr â'r pedwar prif swyddog nyrsio yn y DU yn Belfast am drafodaeth dal i fyny reolaidd. Tra'r oedd yn Belfast, cyfarfu'r Prif Weithredwr â Phrif Swyddog Nyrsio Gogledd Iwerddon ar wahân.

22 Yn dilyn y cyfarfod ym mis Chwefror, cynhaliodd y Prif Weithredwr gyfarfod arall gyda Phrif Weithredwr Bwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Iwerddon ar 3 Mai 2017. Mae'r Prif Weithredwr yn rhoi cyngor strategol ehangach iddi ar feysydd fel Cofrestru ac Ailddilysu ac mae wedi cytuno i aros mewn cysylltiad agos yn dilyn Brexit.

**Cyrff Proffesiynol**

23 Cyfarfu'r Prif Weithredwr â Phrif Weithredwr y Coleg Nyrsio Brenhinol ar 20 Mawrth 2017 a Phrif Weithredwr Coleg Brenhinol y Bydwragedd ar 21 Mawrth 2017 a 19 Ebrill 2017 am drafodaethau dal i fyny a oedd wedi'u trefnu.

**Trafodaeth Arweinyddiaeth Broffesiynol**

24 Ar 3 Ebrill 2017, aeth y Prif Weithredwr i ginio yn Nhŷ'r Arglwyddi, a gynhaliwyd gan y Farwnes Watkins o Tavistock er mwyn trafod arweinyddiaeth nyrsio broffesiynol. Ymhlith yr unigolion eraill yno roedd Prif Swyddog Nyrsio Lloegr. Trafodwyd ailddilysu, rôl nyrsys cyswllt ac arweinyddiaeth strategol y proffesiwn nyrsio ymhlith pethau eraill. Bwriedir cynnal cinio arall yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Rhaglen addysg**

25 Gwnaethom gynnal ein telegynhadledd reolaidd i ddiweddaru'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio ynghylch hynt ein rhaglen addysg ar 13

Ebrill 2017.

26 Cyfarfu grŵp arwain agweddau safonau nyrsio ar 20 Ebrill 2017. Trafododd y Fonesig Jill Macleod Clark, sy'n arwain y gwaith hwn ar ran yr NMC, ei hynt wrth ddatblygu hyfedredd nyrsys yn y dyfodol.

27 Cyfarfu'r Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi â chydweithwyr o'r Coleg Nyrsio Brenhinol i drafod ein rhaglen addysg a sicrwydd ansawdd addysg.

28 Gwnaethom wneud sawl cyflwyniad ar y rhaglen addysg mewn digwyddiadau allanol, gan gynnwys Nurses Lives; digwyddiad Academyddion Nyrsys Iechyd Meddwl; a seminar gyda Chyngor y Deoniaid.

29 Ym mis Ebrill, cyfarfu ein tîm addysg â grŵp ffocws o fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth i drafod y model dysgu ac asesu newydd. Roedd y grŵp hwn yn adlewyrchu pedair gwlad y DU, gwahanol leoliadau ymarfer, ac yn cynnwys myfyrwyr cyn cofrestru yn ogystal â'r rheini ar gyrsiau ôl-gofrestru. Hefyd, gwnaeth y tîm gyflwyniad i bwyllgor myfyrwyr Coleg Brenhinol y Bydwragedd ar y rhaglen yn gyffredinol a'r model dysgu ac asesu newydd.

**Grŵp Cynghori Strategol Proffesiynol**

30 Ar 26 Ebrill 2017, y brif eitem o fusnes yng nghyfarfod y Grŵp oedd cyflwyniad gan yr Athro Liz West, awdur yr adroddiad BME. Hefyd, nododd y Grŵp, a gadeiriwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi, ddiweddariad ar faterion nyrsio a bydwreigiaeth gan Adran Iechyd Gogledd Iwerddon a thrafododd hynt rheoleiddio rôl nyrsys cyswllt.

**Cynrychiolaeth nyrsys a bydwragedd o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) yn y broses Addasrwydd i Ymarfer**

31 Gwnaethom gyhoeddi'r ymchwil y gwnaethom ei chomisiynu gan Brifysgol Greenwich, a edrychodd ar hynt a chanlyniadau nyrsys a bydwragedd BME drwy ein proses addasrwydd i ymarfer. Cafodd canfyddiadau'r ymchwil sylw yn y wasg fasnach. Gwnaeth yr adroddiad nifer o ganfyddiadau ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod ein proses addasrwydd i ymarfer yn deg i bob nyrs a bydwraig a'i bod yn adlewyrchu amrywiaeth ein cofrestr. Rydym wedi ymrwymo i gynnal yr ymchwil eto gan ein galluogi i archwilio set ddata fwy o faint.

32 Cadeiriodd Dirprwy Gyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer gyfarfod bord gron gyda'n grŵp cynghori i edrych ar yr adroddiad. Yn y cyfarfod hwn, cytunwyd y dylid parhau i ganolbwyntio ar drechu gwahaniaethu yn ein gwaith addasrwydd i ymarfer a'r sector iechyd a gofal ehangach. Bydd y grŵp cynghori yn ailymgynnull ac yn croesawu mwy o aelodau i gynnwys partneriaid perthnasol eraill, fel

CQC.

## Cydweithredu

### Concordat Cymru

33 Ar 11 Ebrill 2017, aeth y Pennaeth Polisi a Deddfwriaeth i gyfarfod chwarterol Concordat Cymru yng Nghaerdydd, sef fforwm ar gyfer rheoleiddwyr, llywodraeth a chyrff y GIG sy'n ymwneud â Chymru i drafod strategaeth a pholisi. Ymhlith y materion allweddol a drafodwyd roedd rôl nyrsys cyswllt a'n safonau addysg. Hefyd cafodd y sawl a oedd yn bresennol ddiweddariadau ar ddatblygiadau yn y sector iechyd yng Nghymru a chyflwyniadau gan sefydliadau newydd Addysg Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru.

### Deddf Eithriad i'r Ymddiheuriadau (Yr Alban) 2017

34 Mae ein gwaith gyda rheoleiddwyr proffesiynol eraill a Llywodraeth yr Alban wedi arwain at ddiwygiad i'n heithrio ni a rheoleiddwyr eraill rhag darpariaethau Deddf Ymddiheuriadau (Yr Alban) 2017. Roeddem wedi pryderu y byddai'r Ddeddf, heb ei diwygio, yn golygu na fyddai ein gwaith rheoleiddio yn yr Alban yn gallu dibynnu ar dystiolaeth benodol.

### Ymgysylltu â chyrff rheoleiddio a phartneriaid

35 Cyfarfu'r Prif Weithredwr â Phrif Weithredwyr y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor Optegol Cyffredinol a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar 30 Mawrth 2017 i drafod amrywiaeth o faterion trawsreoleiddio, gan gynnwys cydweithredu.

36 Ar 3 Ebrill 2017, cyfarfu Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer â'r Ombwdsmon Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus a NHS Improvement i drafod sut mae ein gwaith yn cyfrannu at ddiwylliant dysgu ehangach.

37 Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o'r panel cyfweld ar gyfer Prif Weithredwr newydd y Cyngor Optegol Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2017.

38 Cynhaliodd y Prif Weithredwr gyfarfod Grŵp Deddfwriaeth y Prif Weithredwyr ar 27 Ebrill 2017. Ystyriodd y Grŵp sut i ddilyn y digwyddiad, lle'r oedd cyrff rheoleiddio gofal iechyd proffesiynol eraill yn bresennol, a gynhaliwyd gan yr NMC ar ddiwedd 2016 ar weithgarwch ar y cyd.

### Cyngor i'r sawl sy'n cofrestru

39 Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag undebau a chyrff proffesiynol ar ymgyrch i atal nyrsys a bydwragedd rhag gadael y gofrestr yn anfwriadol am fethu â thalu eu ffi. Mae hyn wedi cynnwys

cynhyrchu amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys gwaith animeiddio, posteri a thaflenni a rannwyd drwy sefydliadau partner.

## Gweithgarwch yn y cyfryngau

40 Cafwyd sylw gan y BBC a chyfryngau cenedlaethol eraill i'r ffaith bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd wedi gofyn i reoleiddwyr y GIG gynnal ymchwiliad i 'glwstwr' o farwolaethau babanod yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai'r Amwythig a Telford. Prin y soniwyd am yr NMC yn y cyfryngau eto.

41 Cafwyd sylw yn y wasg fasnach i benderfyniad Panel yr NMC mewn achos addasrwydd i ymarfer diweddar a oedd yn ymwneud â nyrs a wnaeth gyfaddef methu â dechrau CPR pan ddaeth o hyd i unigolyn anymatebol mewn cartref gofal. Gwnaethom gyhoeddi datganiad byr ar y mater hwn. Trafodwyd y mater hwn gryn dipyn ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd.

42 Bu sylw yn y wasg fasnach i newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth bydwreigiaeth yr NMC, gan gynnwys dyfyniad gan y Prif Weithredwr.

43 Bu sylw yn y wasg fasnach i benderfyniad yr NMC i gynyddu hyblygrwydd proses gwneud cais nyrsys a bydwragedd a hyfforddwyd y tu allan i'r UE/AEE. Mae'r newidiadau yn cynnig mwy o hyblygrwydd drwy gynyddu sawl gwaith y caiff nyrs neu fydwraig sefyll rhan allweddol o'r prawf y mae angen iddynt ei basio er mwyn ymarfer yn y DU.

44 Rhoddwyd sylw i'r ymgyrch i atal nyrsys a bydwragedd rhag gadael y gofrestr yn anfwriadol am fethu â thalu eu ffi yn y Nursing Times.

45 Cyhoeddodd Leukaemia Care erthygl gan y Prif Weithredwr yn cefnogi blwyddyn gyntaf ailddilysu.

**Goblygiadau amddiffyn y cyhoedd:**

46 Nid oes unrhyw oblygiadau yn deillio'n uniongyrchol o'r papur hwn.

**Goblygiadau o ran adnoddau:**

47 Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran adnoddau.

**Goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth:**

48 Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid:**

49 Mae'r papur yn adlewyrchu'r amrywiaeth o waith ymgysylltu â

rhanddeiliaid a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth a mis Mai 2017.

| | | |
|---|---|---|
| **Goblygiadau o ran risg:** | 50 | Na. |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | 51 | Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol. |

Eitem 8
NMC/17/43
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Y Cyngor

## Diweddariad nyrsys cyswllt

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | I'w drafod. |
| **Mater:** | Rhoi crynodeb o hynt rheoleiddio nyrsys cyswllt. |
| **Swyddogaeth reoleiddio graidd:** | Pob swyddogaeth reoleiddio. |
| **Blaenoriaeth strategol:** | Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol. |
| **Angen penderfyniad:** | Na. |
| **Atodiadau:** | Dim. |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Os hoffech gael eglurhad ynghylch unrhyw beth yn y papur neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r awdur neu'r cyfarwyddwr a enwir isod. |


Awdur: Emma Westcott
Ffôn: 020 7681 5797
emma.westcott@nmc-uk.org

Cyfarwyddwr: Geraldine Walters
Ffôn: 020 7681 5924
geraldine.walters@nmc-uk.org

**Cyd-destun:**

1 Ym mis Ionawr 2017, cytunodd y Cyngor i gais gan yr Ysgrifennydd Gwladol i reoleiddio rôl newydd nyrsys cyswllt. Mae'r rôl hon yn cael ei threialu yn Lloegr ar hyn o bryd, a disgwylir i 2,000 raddio ym mis Ionawr 2019. Mae'n debygol y bydd rhagor o garfannau yn dilyn yn Lloegr, a ariennir gan y lefi prentisiaethau.

2 Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad ar waith y rhaglen a sefydlwyd i reoleiddio nyrsys cyswllt.

**Ffactorau pedair gwlad:**

3 Mae polisi a gweithlu iechyd yn faterion datganoledig. Nid yw'r NMC yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau gan Gymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon i gyflwyno rôl nyrsys cyswllt yn y dyfodol agos. O safbwynt yr NMC, p'un a gyflwynir y rôl ledled y DU ai peidio, mae gan y pedair gwlad fuddiant o hyd yn null rheoleiddio'r NMC, nid lleiaf oherwydd symudedd o fewn marchnad lafur y DU.

**Cynnwys:**

**Newid deddfwriaethol**

4 Mae'r NMC yn gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd ar y newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen i'n galluogi i reoleiddio nyrsys cyswllt. Bydd hyn ar ffurf Gorchymyn Adran 60 i ddiwygio'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth a arweinir gan yr Adran Iechyd, ac ymgynghoriad ar newidiadau i Reolau'r NMC a arweinir gennym ni. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar yr holl newidiadau, ynghyd â goruchwyliaeth seneddol briodol.

5 Man cychwyn y newid deddfwriaethol yw diben polisi'r Adran Iechyd wrth greu'r rôl. Bydd yr NMC yn datblygu ei ddull rheoleiddio, gan gynnwys pennu safonau hyfedredd priodol ar gyfer nyrsys cyswllt, yn unol â diben polisi'r llywodraeth.

6 Mae amserlen cwblhau Adran 60 yn ei gwneud yn debygol y gall yr NMC gyflawni rhai tasgau rheoleiddio cyn iddi agor rhan nyrsys cyswllt y gofrestr. Nid ystyrir y caiff yr etholiad cyffredinol effaith andwyol ar yr amserlen gyffredinol.

**Datblygu polisi**

7 Mae polisi rheoleiddio'r NMC yn cael ei ddiffinio'n rhannol gan natur y ddeddfwriaeth a ddatblygir. Unwaith y cadarnheir cwmpas Gorchymyn Adran 60, byddwn yn gwybod ym mha gyd-destun rydym yn datblygu'r polisi ac wedyn, y prosesau a ddefnyddiwn i reoleiddio nyrsys cyswllt.

8 Ein tybiaeth gychwynnol yw y bydd ein model rheoleiddio ar gyfer nyrsys cyswllt yn debyg, yn fras, i'n model rheoleiddio ar gyfer nyrsys a bydwragedd. Bydd yn cynnwys cymeradwyaethau addysg a sicrhau ansawdd, safonau hyfedredd a safonau i'w cynnal gan y rheini ar y gofrestr, gofynion o ran cynnal statws cofrestru a

phrosesau addasrwydd i ymarfer er mwyn ymdrin â phryderon.

9 Y sail i'r dybiaeth hon yw bod Gorchymyn Adran 60 yn gyfrwng i addasu fframwaith deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes, nid modd i gyflawni newid yn gyfan gwbl.

10 Mae rôl nyrsys cyswllt yn un newydd a, hyd yn hyn, nid oes unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau eu rheoleiddio'n wahanol i nyrsys a bydwragedd. Dros amser, os bydd y sail dystiolaeth sy'n gysylltiedig â nyrsys cyswllt yn dangos bod mwy neu lai o risg o ran amddiffyn y cyhoedd, efallai y bydd y Cyngor am ystyried a oes angen adolygu'r dull rheoleiddio, er mwyn sicrhau cymesuredd.

**Penderfyniadau i'r Cyngor**

11 Fel y nodwyd yn flaenorol, y Cyngor a fydd yn gwneud penderfyniadau strategol allweddol am reoleiddio nyrsys cyswllt. Mae'r rhain yn cynnwys:

11.1 Materion polisi rheoleiddio (addysg; cofrestru; ailddilysu; ac addasrwydd i ymarfer), yn enwedig lle cynigiwn reoleiddio nyrsys cyswllt mewn ffordd wahanol;

11.2 Safonau hyfedredd ac ymgynghori ar y safonau;

11.3 Polisi ffioedd ac ymgynghoriad ar y ffi;

11.4 Cymhwysedd y Cod a safonau eraill;

11.5 Dull polisi o reoli nyrsys cyswllt sydd eisoes yn cael hyfforddiant cyn eu rheoleiddio.

12 Bydd y Cyngor hefyd yn gofyn am oruchwyliaeth reolaidd o faterion sy'n deillio o ymgysylltu, ein parodrwydd gweithredol, ac unrhyw faterion sy'n deillio o'r cynlluniau prawf a phrentisiaethau sydd ar ddod.

**Cyfathrebu ac ymgysylltu**

13 Mae cefnogaeth gref i greu rôl newydd nyrsys cyswllt yn Lloegr, ond hefyd mae amrywiaeth o bryderon a materion sensitif. Bydd cyfathrebu ac ymgysylltu yn ffrwd waith bwysig iawn o fewn rhaglen nyrsys cyswllt. Mae angen i ni arwain gweithgarwch yn ymwneud â rheoleiddio a gweithio'n agos iawn gydag eraill ar faterion cysylltiedig megis diffinio rôl, y cynlluniau prawf, y brentisiaeth arfaethedig, gwaith gwerthuso, a defnydd diogel.

14 Rydym yn cyflawni cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu manwl, ac mae ein gweithgarwch diweddar wedi cynnwys:

14.1 Rhaglen o ymgysylltu ag Aelodau Cyngor unigol, gan ymateb

i faterion allweddol a nodwyd ganddynt.

14.2 Cyfweliadau lled-strwythuredig â nifer o uwch randdeiliaid allanol.

14.3 Sefydlu grŵp rhanddeiliaid allanol yr NMC er mwyn darparu cymorth allanol a herio ein cynlluniau rheoleiddio. Bydd arsylydd o'r Cyngor ar y grŵp hwn.

14.4 Cyfarfodydd rheolaidd â'r Adran Iechyd ac eraill er mwyn cydlynu'r gwaith cyflawni ym maes deddfwriaeth; rheoleiddio; datblygu cynlluniau prawf a phrentisiaethau.

14.5 Cymryd rhan mewn gwaith sy'n ymwneud â'r cynlluniau peilot a Grŵp Arloesi Prentisiaethau Nyrsys Cyswllt.

14.6 Datblygu negeseuon a rennir a ffyrdd o weithio gyda phartneriaid.

14.7 Siarad â chynulleidfaoedd o fyfyrwyr nyrsio cyswllt, darparwyr addysg a chyflogwyr.

15 Mae gennym rai digwyddiadau pwysig eraill yn yr arfaeth, gan gynnwys gweithdy ar dystiolaeth a gwerthuso, a bord gron gyda chyrff perthnasol er mwyn gweld beth a wnaiff eraill i gefnogi a monitro'r rôl newydd o ran diogelwch.

**Goblygiadau amddiffyn y cyhoedd:**

16 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu bod angen rheoleiddio rôl nyrsys cyswllt yn statudol er mwyn amddiffyn y cyhoedd. Bydd amddiffyn y cyhoedd hefyd yn llywio gwaith yr NMC wrth iddo ddatblygu ei ddull o reoleiddio nyrsys cyswllt. Mae rheoleiddio proffesiynol yn rhan bwysig o waith amddiffyn y cyhoedd. Bydd hefyd yn bwysig i gyrff cyffredinol gefnogi darparwyr gofal iechyd i wneud penderfyniadau diogel o ran staffio, ac i reoleiddwyr systemau fonitro'r defnydd diogel o'r rôl.

**Goblygiadau o ran adnoddau:**

17 Wrth gytuno i reoleiddio nyrsys cyswllt, roedd y Cyngor yn glir na ddylai nyrsys a bydwragedd orfod talu'r gost o reoleiddio proffesiwn newydd. Mae'r Adran Iechyd wedi cytuno i dalu costau rhesymol yr NMC ac rydym yn cydweithio i gytuno ar yr adnoddau sydd eu hangen.

**Goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth:**

18 Cynhaliwyd asesiad cychwynnol o'r effaith ar gydraddoldeb a chaiff ei fonitro wrth lywodraethu'r rhaglen. Ymhlith y materion amlycaf fydd mynediad i raglenni addysg a ffioedd.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** 19 Cwmpesir ymgysylltu â rhanddeiliaid yng nghorff y papur.

**Goblygiadau o ran risg:** 20 Ymhlith risgiau allweddol y rhaglen mae'r canlynol:

20.1 *Amddiffyn y cyhoedd:* ymhlith y camau lliniaru mae pennu safonau hyfedredd sy'n cynnig eglurder o ran priod rolau nyrsys a nyrsys cyswllt, gweithio gydag eraill ar ddefnydd diogel a gwerthuso effaith.

20.2 *Adnoddau:* ymhlith y camau lliniaru mae sicrhau adnoddau gan yr Adran Iechyd.

20.3 *Etifeddu carfannau:* ymhlith y camau lliniaru mae datblygu safonau'n gynnar yn y rhaglen, ymgysylltu â myfyrwyr peilot a darparwyr addysg yn gynnar, a chydweithio'n agos â'r rheini sy'n goruchwylio cynlluniau peilot a phrentisiaethau dilynol.

20.4 *Effaith ar flaenoriaethau eraill yr NMC:* ymhlith y camau lliniaru mae defnyddio partner cyflawni a mapio a rheoli rhyngddibyniaethau.

**Goblygiadau cyfreithiol:** 21 Mae angen newid deddfwriaethol er mwyn galluogi'r NMC i reoleiddio nyrsys cyswllt.

Eitem 9
NMC/17/44
24 Mai 2017

# Y Cyngor

## Diweddariad bydwreigiaeth

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | I'w drafod. |
| **Mater:** | Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ym maes bydwreigiaeth. |
| **Swyddogaeth reoleiddio graidd:** | Pob swyddogaeth reoleiddio. |
| **Blaenoriaeth strategol:** | Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol. |
| **Angen penderfyniad:** | Na. |
| **Atodiadau:** | Na. |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Os hoffech gael eglurhad ynghylch unrhyw beth yn y papur neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r cyfarwyddwr a enwir isod. |

Cyfarwyddwr: Geraldine Walters
Ffôn: 020 7681 5924
geraldine.walters@nmc-uk.org

**Cyd-destun:**

1 Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, cytunodd y Cyngor y byddai nifer o fesurau yn cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael cyngor rheolaidd ar reoleiddio bydwreigiaeth, yn sgil dileu'r Pwyllgor Bydwreigiaeth statudol. Ymhlith y mesurau hynny roedd adroddiad ym mhob cyfarfod i ddiweddaru'r Cyngor ar faterion bydwreigiaeth.

2 Mae'r adroddiad cyntaf hwn yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar weithgareddau diweddar ym maes bydwreigiaeth gan gynnwys gwaith y Panel Bydwreigiaeth, datblygu safonau hyfedredd newydd i fydwragedd, ac ymgysylltu diweddar ac arfaethedig.

**Ffactorau pedair gwlad:**

3 Ymdrinnir â materion bydwreigiaeth a gwasanaethau mamolaeth yn wahanol ledled y pedair gwlad. Pan fo dulliau gweithredu gwahanol ar waith, fe'u trafodir yn fanwl yn y papur.

**Trafodaeth:**

**Y Panel Bydwreigiaeth**

4 Mae'r Panel yn dal i gael ei ddiweddaru gan y Prif Swyddogion Nyrsio ynghylch hynt gweithredu'r cynlluniau ar gyfer newid trefniadau goruchwylio statudol yn y priod wledydd.

5 Roedd y gwaith o weithredu'r priod fodelau goruchwylio yn mynd rhagddo heb i unrhyw risgiau na rhwystrau mawr gael eu nodi.

6 Bydd y Panel yn parhau i gael diweddariadau rheolaidd gan y pedair gwlad wrth i'r modelau goruchwylio newydd gael eu hymgorffori, ac wrth i waith gwerthuso arfaethedig gael ei gynnal yn y dyfodol.

**Materion bydwreigiaeth ehangach ledled y DU**

7 Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, trafododd y Panel amrywiaeth o faterion strategol a oedd yn wynebu bydwreigiaeth a gwasanaethau mamolaeth ledled y DU ar hyn o bryd. Arweiniodd Cathy Warwick o Goleg Brenhinol y Bydwragedd y drafodaeth a ganolbwyntiodd ar alwadau presennol ar y gweithlu, heriau cyflenwi'r gweithlu, a syniadau ar gyfer gwella yn y meysydd hyn.

8 Mae'r NMC yn ystyried y rôl y gallai ei chwarae wrth ddylanwadu ar y materion hyn a'u gwella, a bydd yn trafod hyn ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Panel ym mis Gorffennaf.

**Safonau hyfedredd ar gyfer bydwragedd cofrestredig y dyfodol**

9 Penodwyd yr Athro Mary Renfrew yn uwch arweinydd allanol ar gyfer datblygu safonau newydd hyfedredd i fydwragedd y dyfodol. Mae'r gwaith o gynllunio'r ffrwd waith hon bron â gorffen ac mae'r broses ddatblygu wedi dechrau'n ddiweddar. Rydym wrthi'n recriwtio bydwraig i gefnogi ein gwaith ym maes addysg a pholisi

bydwreigiaeth.

10 Hyd yn hyn, mae'r gwaith yn y maes hwn wedi cynnwys datblygu sail dystiolaeth gychwynnol er mwyn datblygu'r safonau newydd, ac ymgysylltu â nifer o randdeiliaid yn gynnar, gan gynnwys Bydwragedd Arweiniol Addysg.

11 Nid ydym yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i ymgynghori yn y maes hwn ar hyn o bryd. Disgwylir ymgynghori ar ein safonau hyfedredd i fydwragedd yn 2018.

12 Byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu yn 2017-2018 er mwyn galluogi rhanddeiliaid i ddylanwadu ar y broses o weithredu'r safonau newydd, ei chefnogi a'i chynorthwyo.

13 Rhennir y gyfres graidd hon o ddigwyddiadau yn dri math: cyfarfodydd y Grŵp Arwain Agweddau ar gyfer bydwreigiaeth; digwyddiadau gwrando; a sioeau teithiol. Bydd sicrhau ein bod yn ymgysylltu â bydwragedd, menywod a theuluoedd sy'n adlewyrchu natur amrywiol y boblogaeth yn allweddol wrth drefnu'r digwyddiadau hyn.

**Ymgysylltu â bydwragedd**

14 Yn ddiweddar, penodwyd partner cyfathrebu i gynllunio a chydlynu digwyddiadau cyfathrebu ac ymgysylltu â bydwragedd yn y dyfodol.

15 Lluniwyd amserlen fanwl o weithgarwch dros y chwe mis nesaf. Ymhlith y gweithgareddau allweddol mae hyrwyddo gwaith y Panel Bydwreigiaeth ac ymweliadau'r Uwch Gynghorydd Bydwreigiaeth ledled y DU. Caiff adran bydwreigiaeth y wefan ei mireinio, a datblygir adnodd sy'n galluogi trafodaethau ar-lein wedi'u cymedroli ar y materion diweddaraf.

16 Elfen allweddol o'n gweithgareddau cyfathrebu newydd yw e-bost rheolaidd a anfonir at bob bydwraig gan Uwch Gynghorydd Bydwreigiaeth yr NMC, Donna Ockenden.

17 Caiff llawer o weithgareddau ymgysylltu eu datblygu gyda mewnbwn gan randdeiliaid bydwreigiaeth allweddol, gan gynnwys Coleg Brenhinol y Bydwragedd ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant.

**Diwrnod Rhyngwladol y Fydwraig 2017**

18 Ddydd Gwener 5 Mai dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol y Fydwraig. Thema eleni oedd "Bydwragedd, Mamau a Theuluoedd: Partneriaid am Oes".

19 I ddathlu'r diwrnod cafwyd diweddariad arbennig gan yr Uwch Gynghorydd Bydwreigiaeth ar ei gweithgareddau dros y mis diwethaf, gan gynnwys ei hymweliad i gysgodi bydwragedd yng

Nghymru.

20 Fel y nodwyd yn adroddiad y Prif Weithredwr, gwnaethom weithio gyda'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio i lansio prosiect newydd a chyhoeddiad o'r enw *Enabling Professionalism*.

| | | |
|---|---|---|
| **Goblygiadau amddiffyn y cyhoedd:** | 21 | Dim yn deillio o'r papur hwn. |
| **Goblygiadau o ran adnoddau:** | 22 | Dim. |
| **Goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth:** | 23 | Dim. |
| **Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** | 24 | Amlinellir gweithgareddau ymgysylltu sydd i ddod yn y papur. |
| **Goblygiadau o ran risg:** | 25 | Dim yn deillio o'r papur hwn. |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | 26 | Dim yn deillio o'r papur hwn. |

Eitem 10
NMC/17/45
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Y Cyngor

## Blwyddyn gyntaf ailddilysu

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | I'w drafod. |
| **Mater:** | Adroddiad ar hynt y flwyddyn gyntaf o ailddilysu. |
| **Swyddogaeth reoleiddio graidd:** | Cofrestru. |
| **Blaenoriaeth strategol:** | Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol. |
| **Angen penderfyniad:** | Dim angen penderfyniad. Gofynnir i'r Cyngor drafod crynodeb o ganfyddiadau o'r flwyddyn gyntaf o ailddilysu. |
| **Atodiadau:** | Dim. |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Os hoffech gael eglurhad ynghylch unrhyw beth yn y papur neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r awdur neu'r cyfarwyddwr a enwir isod. |


Awdur: Sara Kovach Clark
Ffôn: 020 7681 5968
sara.kovach-clark@nmc-uk.org

Cyfarwyddwr: Emma Broadbent
Ffôn: 020 7681 5903
Emma.Broadbent@nmc-uk.org

**Cyd-destun:**

1 Bydd y Cyngor yn gwybod mai cyflwyno ailddilysu ym mis Ebrill 2016 oedd y newid mwyaf sylweddol yn hanes rheoleiddio nyrsys a bydwragedd gan yr NMC.

2 Mae'r broses ailddilysu yn cefnogi amddiffyn y cyhoedd drwy hyrwyddo proffesiynoldeb ac mae'n galluogi nyrsys a bydwragedd i ddangos eu bod yn parhau i ymgysylltu â'r Cod drwy fyfyrio ar eu hymarfer yn rheolaidd. Dechreuwyd gweithredu hyn ym mis Ebrill 2016. Ers hynny rydym wedi cyhoeddi adroddiadau chwarterol a byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol. Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r adroddiad blynyddol yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, cyn ei gyhoeddi.

3 Mae'r ffordd frwdfrydig a chadarnhaol y mae nyrsys a bydwragedd wedi croesawu ailddilysu er clod i'r proffesiynau. Ynghyd â Phrif Swyddogion Nyrsio'r pedair gwlad, mae cyflogwyr a phartneriaid eraill wedi chwarae rhan allweddol wrth ein helpu i ddylunio a chyflwyno model ailddilysu sy'n dryloyw, yn gymesur ac yn amddiffyn y cyhoedd yn well.

**Ffactorau pedair gwlad:**

4 Mae ailddilysu yn gymwys i'r pedair gwlad yn yr un modd. Mae cyfraddau ailddilysu yn y pedair gwlad yn debyg iawn ac yn unol â chyfraddau adnewyddu hanesyddol.

**Trafodaeth**

**Niferoedd sy'n ailddilysu**

5 Bu'r flwyddyn gyntaf yn llwyddiannus iawn gyda mwy na 202,000 o nyrsys a bydwragedd yn ailddilysu rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017.  Mae cyfraddau ailddilysu yn y pedair gwlad yn debyg iawn, gan amrywio o 93 y cant i 94 y cant. Yn yr un modd, mae cyfraddau ailddilysu ar gyfer nyrsys (92 y cant) a bydwragedd (91.2 y cant) yn debyg. Y gyfradd ailddilysu ar gyfer y gofrestr gyfan (gan gynnwys y rheini sy'n gweithio dramor yn gyfan gwbl) oedd 92.4 y cant. Cynyddodd nifer y nyrsys a bydwragedd sy'n adnewyddu eu cofrestriad ychydig 1572.

6 Nodir isod gyfran y nyrsys a'r bydwragedd a ailddilysodd fesul gwlad:

6.1 Lloegr – 93.1 y cant

6.2 Yr Alban – 92.9 y cant

6.3 Cymru – 93.4 y cant

6.4 Gogledd Iwerddon – 94 y cant

6.5 O'r tu allan i'r DU – 59 y cant

7 Yn ystod y flwyddyn rydym wedi monitro cyfraddau ailddilysu

cofrestriadau nyrsys a bydwragedd. O ddata'r flwyddyn gyntaf cawn sicrwydd nad yw ailddilysu wedi cael effaith negyddol ar y gofrestr o ran nyrsio na bydwreigiaeth. Mae'r cyfraddau ailddilysu yn y pedair gwlad ac o fewn nyrsio a bydwreigiaeth yn cymharu'n ffafriol â chyfraddau hanesyddol o dan y system Ôl-gofrestru addysg ac ymarfer flaenorol.

8 Fel y nodwyd uchod nid ydym wedi gweld unrhyw wahaniaeth sylweddol yng nghyfraddau ailddilysu nyrsio (92 y cant) na bydwreigiaeth (91.2 y cant).

9 Gallwn weld patrwm lle mae'r rheini â chofrestriad deuol (hynny yw nyrsio a bydwreigiaeth) yn gwneud newidiadau i'w math o gofrestriad. Gwnaeth y rhan fwyaf o unigolion â chofrestriad deuol a newidiodd eu cofrestriad gael gwared ar nyrsio a chadw bydwreigiaeth.

**Proffil demograffig y sawl sy'n ailddilysu**

10 Rydym hefyd wedi monitro proffil demograffig y sawl sy'n ailddilysu. Mae'r rhan fwyaf o'r rheini a ailddilysodd eleni o dan 55 oed (83 y cant) ac yn disgrifio eu hunain yn Wyn Prydeinig (72.8 y cant) a dim ond 3.5 y cant sy'n nodi bod ganddynt anabledd. Mae rhai arwyddion, fel y bu'r achos yn hanesyddol o ran adnewyddu, fod gan nyrsys a bydwragedd dros 55 oed gyfradd is o ailddilysu. Mae hyn fel y gallem ei ddisgwyl, gan fod llawer o bobl yn y grŵp hwn yn penderfynu ymddeol. Mae heriau cynnal gweithlu sy'n heneiddio eisoes wedi eu cydnabod gan gyflogwyr ac undebau ac rydym am weithio gyda nhw er mwyn sicrhau nad yw ailddilysu yn rhwystr i nyrsys a bydwragedd hŷn gynnal eu cofrestriad.

11 Hefyd mae gan y 3.5 y cant sydd wedi cofrestru ac sydd ag anabledd gyfradd ailddilysu is (84.3 y cant o gymharu â 95 y cant o'r rheini sy'n datgan nad oes ganddynt anabledd). Fel gyda nyrsys a bydwragedd hŷn sydd wedi cofrestru, gall fod llawer o resymau dros hyn. Mae cyfran llawer uwch o'r rheini sydd wedi cofrestru ac sydd ag anabledd yn nodi eu bod yn methu oherwydd 'salwch'. Unwaith eto, gwnawn weithio gyda'n rhanddeiliaid a'r tîm gwerthuso er mwyn deall y rhesymau dros hyn ac unrhyw rwystrau i ailddilysu a brofir gan y grŵp hwn.

12 Dengys adolygiad cychwynnol o'r wybodaeth ddemograffig arall nad oes unrhyw wahaniaethau amlwg o ran ailddilysu rhwng y rheini o ryw neu ethnigrwydd gwahanol. Mae'r rheini sy'n gweithio dramor yn gyfan gwbl bob amser wedi adnewyddu eu cofrestriad ar gyfradd is na'r rheini sy'n gweithio yn y DU ac mae'r gwahaniaeth wedi cynyddu eleni.

**Lleoliadau cyflogaeth, ymarfer a gwaith**

13 Cofnodir amrywiaeth eang o gyflogaeth ac ymarfer, ond mae'r rhan

fwyaf yn nodi eu bod wedi'u cyflogi'n uniongyrchol (93.7 y cant o'r holl fathau o gyflogaeth bresennol a gofnodir). Yr ymarfer mwyaf cyffredin a gofnodwyd oedd nyrsio cyffredinol a gofal clinigol uniongyrchol oedolion (62.8 y cant). Mae lleiafrif bach (56.2 y cant) yn cofnodi ysbyty neu ofal eilaidd arall fel un neu fwy o'u lleoliadau gwaith. Ceir dadansoddiad llawn o leoliadau cyflogaeth, gwaith ac ymarfer yn yr adroddiad blynyddol.

**Nyrsys a bydwragedd sydd angen cymorth ychwanegol**

14 Rydym yn cynnig trefniadau amgen i nyrsys a bydwragedd a all fod angen cymorth ychwanegol i ailddilysu. Nid yw'r niferoedd sy'n gofyn am drefniadau cymorth amgen wedi bod yn uchel ac, ers mis Ebrill 2016, mae cyfran y rheini sydd wedi cofrestru sydd angen cymorth amgen wedi gostwng i 1 y cant o bawb sy'n adnewyddu eu cofrestriad. Disgwyliwn i'r gyfran hon barhau i ostwng.

**Gwerthuso**

15 Ym mis Hydref 2015, gofynnodd y Cyngor am werthusiad llawn o'r broses ailddilysu. Yn 2016 gwnaethom gomisiynu Ipsos Mori (Ipsos) i gynnal hwn a'n helpu i ddeall y canlyniadau ac effaith ailddilysu.

16 Dechreuodd y gwaith gwerthuso ddiwedd yr hydref gydag arolwg o'r rheini a oedd wedi cofrestru ac ailddilysu, ochr yn ochr ag arolwg cymharol o'r rheini nad oeddent wedi ailddilysu eto. Cynhaliwyd cyfweliadau ansoddol â'r rheini a oedd wedi cofrestru, cadarnhawyr a phartneriaid trafod myfyriol, yn ogystal â chyfweliadau ag uwch randdeiliaid.

17 Mae'n rhy gynnar, yn y cylch ailddilysu cyntaf, i sôn yn fanwl am effaith ailddilysu ond mae'r canfyddiadau cychwynnol yn gadarnhaol iawn ac yn gyson â'r adborth rydym wedi ei gael ein hunain. Yn arbennig, maent wedi nodi bod y nyrsys a'r bydwragedd sydd wedi ailddilysu wedi ei ystyried yn brofiad gwerthfawr sydd wedi eu helpu i fyfyrio ar eu hymarfer. Mae ein dull o gyfathrebu ac ymgysylltu, ynghyd â'r arweiniad a'r cymorth rydym wedi eu cynnig, wedi cael eu croesawu'n fawr. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiad blynyddol.

**Dilysu**

18 Mae dilysu yn ein helpu i fod yn hyderus bod nyrsys a bydwragedd yn bodloni'r gofynion ailddilysu. Mae'n fwy cadarn na'r system Ôl-gofrestru addysg ac ymarfer flaenorol a gofynnwn am wybodaeth fanwl am oriau ymarfer a cheisiwn wybodaeth gan gadarnhawyr a phartneriaid trafod myfyriol. Yn ôl canfyddiadau Ipsos ymddengys fod dilysu yn cael yr effaith a ddymunir ar sicrhau cydymffurfiaeth. Mae hyn yn gyson â'n canfyddiadau ni sy'n dangos lefel uchel o gydymffurfiaeth, gydag ond nifer fach iawn o geisiadau yn cael eu gwrthod. Bydd effaith lawn dilysu yn glir ar ddiwedd y cylch tair

| | | |
|---|---|---|
| | | blynedd cyntaf pan fydd gennym ystadegau ystyrlon i'w defnyddio wrth symud ymlaen. |
| **Goblygiadau amddiffyn y cyhoedd:** | 19 | Bwriedir i ailddilysu amddiffyn y cyhoedd, gan sicrhau gwelliannau i ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth ac atgyfnerthu hyder y cyhoedd yn y proffesiynau. Tra bod yr adborth a gafwyd hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol tu hwnt, mae'n rhy gynnar i ddweud pa effaith y mae ailddilysu wedi'i chael nes i ni gwblhau'r cylch llawn cyntaf. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r gwaith gwerthuso ddatblygu dros y ddwy flynedd nesaf. |
| **Goblygiadau o ran adnoddau:** | 20 | Bydd i gyhoeddi'r adroddiadau hyn oblygiadau o ran adnoddau o fewn y Gyfarwyddiaeth Cofrestru ac Ailddilysu, a'r timau Ymchwil a Thystiolaeth a Chyfathrebu, ond cynlluniwyd ar eu cyfer ac maent o fewn cyllidebau presennol. |
| **Goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth:** | 21 | Rydym yn cymharu canfyddiadau â'n dadansoddiad gwreiddiol o gydraddoldeb a bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys dadansoddiad diweddar o gydraddoldeb. |
| **Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** | 22 | Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid gryn dipyn cyn cyflwyno ailddilysu. Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi parhau i ymgysylltu â'n holl randdeiliaid, ac wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan nyrsys, bydwragedd a chyflogwyr. Rydym wedi cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol yn rheolaidd er mwyn trafod canfyddiadau'r adroddiadau chwarterol. Byddwn yn parhau i gyfarfod â rhanddeiliaid er mwyn trafod canfyddiadau gwerthusiad Ipsos Mori a'n data ni'n hunain. |
| **Goblygiadau o ran risg:** | 23 | Mae ailddilysu yn dal i fod yn faes o ddiddordeb allweddol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) a bydd yn adolygu canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r adroddiad gwerthuso blwyddyn gyntaf yn fanwl. Byddwn yn parhau i gyfarfod a thrafod ein canfyddiadau gydag ef. |
| | 24 | Mae adborth gan bob rhanddeiliad wedi dangos y dymunir cael tawelwch meddwl ein bod yn deall y rhesymau dros fethiannau nyrsys a bydwragedd a'n bod yn cymryd camau priodol. Bydd adroddiad Ipsos yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros fethu a byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon â'n rhanddeiliaid. Drwy barhau i gydweithio a gweithio'n dryloyw gallwn barhau i sicrhau cefnogaeth i ailddilysu. |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | 25 | Na. |

Eitem 11
NMC/17/46
24 Mai 2017

# Y Cyngor

## Adroddiad ar berfformiad 2016-2017

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | I'w drafod. |
| **Mater:** | Adroddiadau ar berfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-2017. |
| **Swyddogaeth reoleiddio graidd:** | Pob swyddogaeth. |
| **Blaenoriaeth strategol:** | Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol.<br>Blaenoriaeth strategol 2: Defnyddio gwybodaeth.<br>Blaenoriaeth strategol 3: Cydweithredu a chyfathrebu.<br>Blaenoriaeth strategol 4: Sefydliad effeithiol. |
| **Penderfyniad gofynnol:** | Argymhellir y dylai'r Cyngor:<br>• Drafod yr asesiad diwedd blwyddyn o hynt cynllun corfforaethol 2016–2017 (paragraff 14).<br>• Trafod perfformiad yn erbyn y DPAau ar gyfer 2016–2017 a rhoi sylwadau ar y dangosfwrdd addasrwydd i ymarfer (paragraff 20). |
| **Atodiadau:** | Mae'r atodiadau canlynol ynghlwm wrth y papur hwn:<br>• Atodiad 1: Adroddiad diwedd blwyddyn yn erbyn cynllun corfforaethol 2016–2017<br>• Atodiad 2: Perfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol 2016–2017<br>• Atodiad 3: Diweddariad ar brosiect Adran 60. |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Os hoffech gael eglurhad ynghylch unrhyw beth yn y papur neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r awdur neu'r cyfarwyddwr a enwir isod. |


Awdur: Janice Cheong
Ffôn: 020 7681 5765
Janice.cheong@nmc-uk.org

Cyfarwyddwr: Adam Broome
Ffôn: 020 7681 5964
adam.broome@nmc-uk.org

**Cyd-destun:**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad y sefydliad cyfan ar gyfer blwyddyn ariannol flaenorol 2016–2017. Mae hyn yn cynnwys asesiad o gyflawni yn erbyn ein cynllun corfforaethol 2016–2017.

2 Hefyd, caiff datblygiadau diweddaraf ein gwaith ar adran 60 eu cynnwys.

3 Mae gwelliannau pellach wrth adrodd ar berfformiad a risg yn mynd rhagddynt.

**Ffactorau pedair gwlad:**

4 Mae'r papur hwn yn cwmpasu pob agwedd ar ein gwaith ac ystyrir y pedair gwlad o ran ymrwymiadau'r cynllun corfforaethol, risgiau a thrwy ein perfformiad gweithredol.

**Trafodaeth:**

## Crynodeb gweithredol

5 Yn ystod 2016–2017 gwnaethom gynnal ein perfformiad yn ein meysydd cofrestru a gweithrediadau addasrwydd i ymarfer rheoleiddiol craidd, fel y dangosir gan y ffaith bod bron pob un o'r DPAau corfforaethol ar gyfer y meysydd hyn wedi'u cyflawni, ynghyd ag ymrwymiadau perthnasol o'r cynllun corfforaethol. I'r gwrthwyneb, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran ein rhaglen addysg a chyda'n cynlluniau i wneud newidiadau deddfwriaethol ym meysydd addasrwydd i ymarfer a rheoleiddio bydwreigiaeth o orchymyn adran 60. Caiff ymrwymiadau'r cynllun corfforaethol ar gyfer y meysydd hyn eu graddio'n wyrdd.

6 Gwnaed cynnydd wrth bennu lleoliadau ein swyddfeydd yn y dyfodol, cynllunio ein rhaglen drawsnewid a phennu ein gallu i ddechrau cyflawni hyn. Fodd bynnag, yn 2017–2018 mae angen i ni barhau i gynllunio manylion y rhaglen drawsnewid a'n llety yn y dyfodol a pharhau i reoli ein risgiau trawsnewid. Ym maes addasrwydd i ymarfer, rydym wedi canolbwyntio ar gwblhau achosion sy'n 12 mis ac yn hŷn, sy'n effeithio ar ein perfformiad yn erbyn y DPA 15 mis. Byddwn yn parhau i wneud hyn yn 2017–2018 gyda'r nod o gyrraedd llwythi achosion optimaidd.

7 Nid ydym wedi gwneud cymaint o gynnydd ag y byddem wedi dymuno wrth atgyfnerthu gwasanaethau a swyddogaethau 'galluogi', er enghraifft datblygu Strategaeth Pobl glir neu ein defnydd o ddata a gwybodaeth. Mae'r risgiau corfforaethol sy'n wynebu'r ddau faes hyn wedi aros yr un peth yn y byrdymor ond mae angen cymryd camau dybryd yn 2017-2018 ac rydym bellach yn gweithio ar gyfeiriad angenrheidiol y gwaith hwn er mwyn gwneud cynnydd nodedig.

## Asesiad diwedd blwyddyn yn erbyn cynllun corfforaethol 2016–2017

8 Yn **Atodiad 1** ceir asesiad diwedd blwyddyn, yn seiliedig ar raddfa coch/melyn/gwyrdd, o hynt cynllun corfforaethol 2016–2017. Mae'n adlewyrchu ein sefyllfa ar 31 Mawrth 2017 ac yn ymwneud â'r ymrwymiadau cyflawni penodol hyn. Efallai na fydd y graddfeydd na'r naratif yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd ers hynny.

9 Yn wreiddiol, roedd y cynllun corfforaethol yn cynnwys 15 o ymrwymiadau ar gyfer 2016–2017 ond ym mis Tachwedd 2016 adolygodd y Cyngor hynt yr ymrwymiadau a chytunodd i ddileu un ymrwymiad: cyflawni targed ymestynnol o 5 y cant yn erbyn y gyllideb gymeradwy. Cytunwyd ar hyn ar sail trafodaethau yng nghyfarfodydd y Cyngor ym mis Medi a mis Tachwedd 2016, lle nodwyd yn glir na fyddai'r ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni oherwydd y ffocws a'r adnoddau yr oedd eu hangen i ddatblygu'r rhaglen drawsnewid. Rhoddwyd gwybodaeth am arbedion effeithlonrwydd mewn adroddiadau Monitro Ariannol i'r Cyngor.

10 Felly, rydym yn adrodd ar 14 o ymrwymiadau ar 31 Mawrth 2017. Ein hasesiad yw:

| | | |
|---|---|---|
| Gwnaethom gyflawni **saith** o'n hymrwymiadau (gwyrdd). | Gwnaethom gyflawni peth o'r gweithgarwch arfaethedig ar gyfer **pedwar** o'n hymrwymiadau (melyn). | Ni wnaethom gyflawni agweddau sylweddol ar **dri** o'n hymrwymiadau a rhaid i'r gwaith barhau yn 2017–2018 (coch). |

### Ymrwymiadau coch

11 **Ymrwymiad 1b:** Ein pobl. Datblygu Strategaeth Pobl sy'n nodi'r sgiliau, y galluoedd a'r diwylliant y bydd eu hangen ar y sefydliad nawr ac yn y dyfodol:

11.1 Gwnaed cryn dipyn o waith ar ddatblygu strategaeth eleni ond cafodd diffyg adnoddau yn y maes hwn effaith ar gyflawni a rhaid gwneud rhagor o waith i ddatblygu'r strategaeth gywir.

11.2 Er mwyn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwn, rydym wedi sicrhau y diwellir anghenion adnoddau dynol. Rydym bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu Strategaeth Pobl briodol, i'w chyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2017.

12 **Ymrwymiad 10:** Datblygu ein gallu strategol fel y gallwn gyfleu ein gofynion data a gwybodaeth. Penderfynu ym mha ymchwil y dylem fuddsoddi, a defnyddio'r canlyniadau i lywio ein gwaith:

12.1 Er bod gwaith gweithredol ar lawr gwlad wedi mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn ar ein data a'n systemau, ni fu gennym

yr adnoddau na'r eglurder bwriad i ddatblygu ein gallu strategol yn y maes hwn.

12.2 Er mwyn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwn, mae gwaith yn mynd rhagddo bellach gyda phartner allanol i ddatblygu ein dull strategol yn y maes hwn yn ystod 2017–2018.

13 **Ymrwymiad 12:** Hwyluso'r broses o glywed barn cleifion a'r cyhoedd drwy rwydweithiau newydd i'r cyhoedd a chleifion ledled y DU a defnyddio hyn i lywio ein gwaith:

13.1 Ni chafodd yr ymrwymiad hwn ei gyflawni'n llawn am fod diffyg eglurder o'r cychwyn ynghylch dull y sefydliad o gyflawni hyn. Fodd bynnag, drwy gydol y flwyddyn rydym wedi gweithio gyda grwpiau cleifion a'r cyhoedd ledled y DU wrth gyflawni ein gwaith rheoleiddio.

13.2 Er mwyn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwn, cytunwyd ar gyfeiriad ar gyfer y maes hwn ac, yn 2017–2018, byddwn yn gweithredu dull sefydliadol, fel bod y gwaith o gasglu barn cleifion a'r cyhoedd yn dod yn rhan arferol o'r hyn a wnawn.

**14 Argymhelliad: Gwahoddir y Cyngor i drafod yr asesiad diwedd blwyddyn o hynt cynllun corfforaethol 2016–2017.**

## Dangosyddion perfformiad allweddol (atodiadau 2a i 2e)

15 Mae **Atodiad 2** yn darparu gwybodaeth am berfformiad yn erbyn ein dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau) corfforaethol ar gyfer mis Mawrth 2017 ac yn ystod 2016–2017.

16 Gwnaethom gyflawni ein targedau ar gyfer ein DPAau cofrestru (ceisiadau cofrestru cychwynnol o'r DU, yr UE a Thramor); DPA 3 (gorchmynion interim); a DPA 4 (cronfeydd wrth gefn am ddim).

17 Ni wnaethom gyflawni ein targed ar gyfer DPA 3 (cwblhau 80% o achosion addasrwydd i ymarfer o fewn 15 mis i agor yr achos), gan gyflawni 75% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Bu perfformiad yn gyson ar 78% yn ystod y chwe mis cyntaf cyn gostwng ychydig dros y chwe mis olaf, sy'n arwydd o'n hymgais i ddatblygu achosion hŷn a'u cwblhau.

18 Ni wnaethom bennu targed ar gyfer DPA 5 (trosiant staff). Amrywiodd y gyfradd trosiant staff rhwng 22% a 26% yn ystod y flwyddyn, gyda chynnydd cyffredinol o 1% rhwng pwyntiau mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017. Roedd y trosiant ym mis Mawrth 2017 yn 24.6%.

19 Mae **Atodiad 2c** yn darparu dangosfwrdd addasrwydd i ymarfer diwygiedig, sy'n dangos data dros gyfnod hwy ynghyd â rhagamcanion o ran ein llwyth achos addasrwydd i ymarfer. Nodir targedau amseroldeb ar gyfer 2017–2018 a'u hynt a bwriedir parhau

i adrodd ar hyn i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Efallai yr hoffai'r Cyngor ystyried a yw gwybodaeth y dangosfwrdd yn briodol wrth fonitro perfformiad yn y dyfodol.

**20 Argymhelliad: Gwahoddir y Cyngor i drafod perfformiad yn erbyn y DPAau ar gyfer 2016–2017 a rhoi sylwadau ar y dangosfwrdd addasrwydd i ymarfer.**

## Diweddariad ar hynt adran 60

21 Mae **Atodiad 3** yn rhoi diweddariad ar ein gwaith i weithredu pwerau newydd addasrwydd i ymarfer.

| | | |
|---|---|---|
| **Goblygiadau amddiffyn y cyhoedd:** | 22 | Ystyrir goblygiadau amddiffyn y cyhoedd wrth adolygu perfformiad a'r ffactorau sy'n sail i berfformiad da neu wael. |
| **Goblygiadau o ran adnoddau:** | 23 | Nodir goblygiadau o ran adnoddau yn yr adroddiad monitro ariannol. |
| **Goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth:** | 24 | Ystyrir goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth adolygu ein perfformiad. |
| **Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** | 25 | Gwybodaeth DPA ar gael i'r cyhoedd. |
| **Goblygiadau o ran risg:** | 26 | Caiff effaith risgiau ei hasesu a'i graddio yn ein cofrestr risg gorfforaethol. |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | 27 | Na. |

Eitem 11: **Atodiad 1**
NMC/17/46
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Adroddiad diwedd blwyddyn yn erbyn y cynllun corfforaethol 2016–2017

**Cyfnod yr adroddiad: 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017**

- Roedd ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2016–2017 yn cynnwys ymrwymiadau a osodwyd gennym ar gyfer y flwyddyn ariannol, a oedd yn gydnaws â blaenoriaethau strategol ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2015-2020. Nawr, ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r adroddiad hwn yn nodi p'un a ydym wedi cyflawni'r ymrwymiadau hynny.

- Crynhoir graddfeydd yr ymrwymiadau isod. Mae'r tair raddfa goch yn ymwneud ag ymrwymiadau ar gyfer: pobl; deallusrwydd; a chynnwys cleifion a'r cyhoedd.

| **Crynodeb o'r graddfeydd ar gyfer ymrwymiadau (14 i gyd)*** | **Coch** | **Melyn** | **Gwyrdd** |
|---|---|---|---|
| | **3** | **4** | **7** |

*Ddim yn cynnwys ymrwymiad 2, Gwerth am arian, a gafodd ei ddileu o'r adroddiadau canol blwyddyn.

### Allwedd i benawdau'r tabl

| | | |
|---|---|---|
| **Ymrwymiad ar gyfer 2016–2017** | Gwaith roeddem wedi ymrwymo i'w gynnal yn 2016–2017 fel y nodwyd yn y cynllun corfforaethol. | |
| **Statws cyflawni ar ddiwedd y flwyddyn** | **Graddfa coch/melyn/gwyrdd (RAG)** | |
| | **Coch** | Ymrwymiad yn y cynllun corfforaethol heb ei gyflawni. |
| | **Melyn** | Ni chyflawnwyd rhannau o'r ymrwymiad hwn yn y cynllun corfforaethol, o bosibl oherwydd natur newidiol y gwaith, ailgysoni gweithgareddau gyda newid ffocws neu resymau cymedrol a chytûn eraill. |
| | **Gwyrdd** | Cyflawnwyd yr ymrwymiad yn y cynllun corfforaethol. |
| **Naratif diwedd blwyddyn** | Esbonio cyflawni neu ddiffyg cyflawni. Os yw'r raddfa yn goch neu'n felen, darperir y camau gweithredu nesaf. | |

| | Ymrwymiad cynllun corfforaethol 2016-2017 | Statws cyflawni | Naratif diwedd blwyddyn |
|---|---|---|---|
| **Trawsnewid yr NMC (blaenoriaethau strategol 3 a 4)** | | | |
| 1 | Cynllunio, adnoddu a gweithredu ein rhaglen Drawsnewid. Bydd y rhaglen yn cwmpasu pob agwedd ar ein sefydliad, pobl a lleoliad, yn ogystal â gwella profiad ein cwsmeriaid. | **Melyn** | Ni chyflawnwyd yr ymrwymiad hwn yn llawn ac mae'r melyn yn adlewyrchu'r gwaith pellach y mae angen i ni ei wneud i gynllunio'r rhaglen yn fanylach a darparu adnoddau ar ei chyfer.<br><br>Cafodd achos busnes amlinellol ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mawrth 2017. Mae hyn wedi golygu y bu modd rhyddhau rhagor o arian i ddechrau cyflawni ac yn bwysig i ddatblygu achos busnes llawn â gwybodaeth ariannol fanwl ar gyfer mis Gorffennaf 2017. Mae'r cynlluniau wedi'u datblygu'n dda ac mae gwaith sylfaen yn mynd rhagddo i sicrhau y gellir cyflawni'r strategaeth. |
| 1a | ***Ein sefydliad***<br>Erbyn mis Hydref 2016, byddwn wedi diffinio siâp, maint a phrosesau busnes y sefydliad, a byddwn wedi cyhoeddi ein map trawsnewid. | **Melyn** | Nid yw'r ymrwymiad hwn wedi'i gyflawni'n llawn, yn debyg i'r uchod, er y'i hystyriwyd ac y'i cyflwynwyd fel rhan o'r achos busnes amlinellol i'r Cyngor. Caiff strwythur manwl y sefydliad ei ddatblygu ymhellach yn ystod 2017–2018. Gwnaethom gyhoeddi'r map ffordd lefel uchel cyffredinol sydd bellach yn cael ei ddatblygu ymhellach fel rhan o'r achos busnes llawn. |
| 1b | ***Ein pobl***<br>Datblygu strategaeth Pobl sy'n nodi'r sgiliau, y galluoedd a'r diwylliant y bydd eu hangen ar y sefydliad nawr ac yn y dyfodol. Bydd yn ystyried sut i ddenu, cadw, cefnogi a gwobrwyo pobl i gyflawni ein blaenoriaethau.<br><br>Llunio cynllun manwl er mwyn helpu i gyflawni'r strategaeth Pobl a chyflawni allbynnau yn unol â'r cynllun hwnnw pan fydd yn gytûn.<br><br>Cwblhau rhaglen hyfforddi rheolwyr beilot er mwyn meithrin gallu rheoli ymhlith ein rheolwyr lefel gyntaf. Yna byddwn yn gwerthuso ei heffeithiolrwydd a'r potensial i'w chyflwyno'n llawn. | **Coch** | Ni chyflawnwyd yr ymrwymiad gan nad ydym wedi cwblhau Strategaeth Pobl eto, yn rhannol oherwydd diffyg adnoddau yn y maes. Gwnaed cryn dipyn o waith yn ystod y flwyddyn gyda mewnbwn y Cyngor, ond mae rhagor o waith i'w wneud o hyd i ddatblygu'r strategaeth gywir. Mae'r Strategaeth Pobl yn cael ei chwblhau fel mater o flaenoriaeth a chaiff ei chyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf.<br><br>Dyrannwyd adnoddau ychwanegol i'r tîm adnoddau dynol a datblygu sefydliadol er mwyn helpu i sicrhau y cyflawnir yn y maes hwn.<br><br>Cafodd rhaglen datblygu rheolwyr beilot ei chwblhau'n llwyddiannus. Dangosodd y gwerthusiad dilynol y bu'n effeithiol wrth gyflawni ei hamcanion. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cytuno ar raglen bellach o ddigwyddiadau datblygu rheolwyr ar gyfer y flwyddyn gyfan. |

| | Ymrwymiad cynllun corfforaethol 2016-2017 | Statws cyflawni | Naratif diwedd blwyddyn |
|---|---|---|---|
| 1c | ***Ein lleoliad***<br>Datblygu achos busnes llety llawn, gan nodi opsiynau wedi'u costio fel y gallwn wneud penderfyniadau ar lety a lleoliad yn y dyfodol erbyn mis Mawrth 2017.<br><br>Ar y cyd â hynny, llunio cynllun trawsnewid i weithredu'r opsiwn a argymhellir yn yr achos busnes llety. | **Melyn** | Ni chyflawnwyd yr ymrwymiad hwn yn llawn ac mae ganddo raddfa felen.<br><br>Cafodd papur lleoliad a llety ag opsiynau cost llawn ei gynnwys yn yr achos busnes trawsnewid amlinellol a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2017. Rhoddir rhagor o fanylion i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2017 fel rhan o'r achos busnes trawsnewid llawn. |
| 2 | ***Gwerth am arian***<br>Cyflawni targed ymestynnol o 5 y cant yn erbyn y gyllideb gymeradwy (heb gynnwys arian a neilltuwyd at ddibenion trawsnewid) er mwyn sicrhau gwerth am arian, a gaiff ei fonitro a'i adrodd gennym. | Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2016 cytunodd y Cyngor mai prin oedd y cyfleoedd i gyflawni'r targed ymestynnol o 5 y cant yn sgil gwaith trawsnewid sydd angen ffocws llawn. Yn dilyn hynny cytunodd y Cyngor, yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2016, na fyddai'r ymrwymiad cynllun corfforaethol hwn yn cael ei gynnwys wrth adrodd yn ail hanner y flwyddyn.<br><br>Yn hytrach, rydym wedi parhau i adrodd ar gynnydd yn erbyn yr arbedion effeithlonrwydd sefydledig, fel y nodwyd mewn adroddiadau Monitro Ariannol i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd wedi bod yn datblygu gwell dull o bennu ac olrhain arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y blynyddoedd i ddod. | |

## Rheoleiddio effeithiol (blaenoriaethau strategol 1 a 3)

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | ***Addysg***<br>Drafftio safonau newydd sy'n pennu'r sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen ar nyrs y dyfodol, yn barod ar gyfer ymgynghoriad a ddaw i ben yn 2017-2018.<br><br>Ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy'r gwaith rydym yn ei wneud i ddatblygu safonau newydd. | **Gwyrdd** | Cyflawnwyd yr ymrwymiad hwn. Datblygwyd safonau hyfedredd drafft ar gyfer nyrs y dyfodol ac maent yn destun profion defnyddwyr ar hyn o bryd. Mae'r gwaith hwn ar y trywydd iawn, mae adborth cychwynnol yn gadarnhaol ar y cyfan a disgwylir yr adroddiad llawn gan y cwmni ymchwil annibynnol ar 7 Ebrill 2017.<br><br>Daeth cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled y DU i ben yn llwyddiannus ym mis Mawrth 2017. Mae cynnwys rhanddeiliaid a chael eu barn wedi cael effaith sylweddol ar ystyriaethau'r dyfodol o ran safonau addysg a hyfforddiant a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r meysydd hyfedredd newydd ar y cam cyn ymgynghori. Rhoddir diweddariadau parhaus yn ystod chwarter 1 2017–2018.<br><br>Mae'r gwaith o gynllunio datblygiad meysydd hyfedredd bydwragedd y dyfodol yn mynd rhagddo a phenodwyd yr Athro Mary Renfrew i arwain y gwaith hwn. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn chwarter un cyfnod 2017–2018. |

| | Ymrwymiad cynllun corfforaethol 2016-2017 | Statws cyflawni | Naratif diwedd blwyddyn |
|---|---|---|---|
| 4 | ***Addysg***<br>Comisiynu adolygiad sylfaenol annibynnol o sut y gellid sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth yn y dyfodol, gan arwain at set o opsiynau erbyn mis Mawrth 2017. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y trefniadau newidiol o ran sicrhau ansawdd yn y sector addysg uwch yn fwy cyffredinol. | **Melyn** | Cynhaliwyd adolygiad annibynnol a thrafodwyd canfyddiadau'r adolygiad gyda'r Cyngor. Trafodir rhagor o waith gyda'r Cyngor ym mis Medi 2017. Mae'r Cyngor hefyd wedi cael briffiad byr ar y newidiadau ehangach i'r sector addysg uwch, a'r sector iechyd a gofal, a sut mae'r rhain yn effeithio ar ein rhaglen addysg strategol. |
| 5 | ***Rheoleiddio bydwreigiaeth***<br>Parhau i gefnogi'r gwaith o drawsnewid goruchwyliaeth bydwragedd yn llwyddiannus ledled y DU.<br><br>Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod gan randdeiliaid ddealltwriaeth glir o reoleiddio ar ôl y newid deddfwriaethol. Diweddaru ein polisïau, systemau a phrosesau ein hunain er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer canlyniadau newid deddfwriaeth ym maes rheoleiddio bydwragedd. | **Gwyrdd** | Cyflawnwyd yr ymrwymiad hwn. Mae'r newid deddfwriaethol yn dileu goruchwylio bydwreigiaeth o'n Gorchymyn bellach wedi dod i rym. Mae hyn yn cyflawni ein hamcan rheoleiddiol, sef sicrhau bod gan yr NMC reolaeth uniongyrchol dros bryderon addasrwydd i ymarfer sy'n ymwneud â bydwragedd. Mae ein deunyddiau, prosesau a systemau wedi cael eu diweddaru yn barod am y newid deddfwriaethol.<br><br>Datblygwyd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr a chafodd y cam cyntaf ei gyflawni'n llwyddiannus. Roedd hyn yn cynnwys ymgyrch gyfathrebu uniongyrchol â bydwragedd a rhanddeiliaid er mwyn eu hannog i gymryd rhan yn ymgynghoriad y Llywodraeth ar newidiadau i'r ddeddfwriaeth.<br><br>Mae ail gam y cynllun yn rhychwantu i 2017–18 ac yn canolbwyntio ar helpu bydwragedd, rhanddeiliaid a grwpiau menywod a chleifion i ddeall y newidiadau wrth iddynt ddechrau ymsefydlu. Gwnaethom gyhoeddi set gynhwysfawr o ohebiaeth benodol ar gyfer rhanddeiliaid bydwreigiaeth tua diwedd mis Mawrth 2017, yn eu hysbysu o'r newidiadau i ddod a, lle bo'n berthnasol, yn diolch iddynt am eu gwaith o dan y trefniadau blaenorol.<br><br>Rydym wedi gweithio gyda'r arweinwyr bydwreigiaeth yn y pedair gwlad i gydlynu negeseuon cyfathrebu a lle bo modd gyfeirio bydwragedd at ffynonellau gwybodaeth am y dulliau newydd, nad ydynt yn statudol, o oruchwylio ledled y DU. |
| 6 | ***Addasrwydd i ymarfer***<br>Paratoi cynllun manwl fel ein bod yn barod i gyflwyno'r newidiadau pwysig i'n deddfwriaeth er | **Gwyrdd** | Cyflawnwyd yr ymrwymiad hwn. Datblygwyd cynllun manwl, er mwyn sicrhau bod y swyddogaeth Addasrwydd i Ymarfer yn barod i weithredu'r newidiadau sylweddol i'n deddfwriaeth drwy orchymyn adran 60. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac mae |

| | Ymrwymiad cynllun corfforaethol 2016-2017 | Statws cyflawni | Naratif diwedd blwyddyn |
|---|---|---|---|
| | mwyn sicrhau y gallwn ddatrys achosion addasrwydd i ymarfer yn y ffordd gywir ar yr adeg gywir. Bydd hyn yn cynnwys datblygu polisïau a phrosesau ar gyfer pwerau ychwanegol i Archwilwyr Achos a'r Pwyllgor Ymchwilio, a datblygu systemau a phrosesau i gefnogi'r newidiadau. | | rhannau sylweddol o'r cynllun eisoes wedi'u cyflawni.<br><br>Ceisiwyd ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol a chynhaliwyd sawl digwyddiad ymgysylltu allanol gyda chyrff cynrychioladol ym mis Gorffennaf a mis Awst 2016. Gwnaethom hefyd gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau i Reolau Addasrwydd i Ymarfer. Dadansoddwyd yr ymatebion ym mis Ionawr 2017.<br><br>Cynhaliwyd Cam 1 y newidiadau ar 31 Mawrth a chanolbwyntiodd ar ddileu goruchwyliaeth reoleiddiol a phroses bwriad i ymarfer bydwragedd. Hefyd yn rhan o gam 1 roedd dileu cyfyngiadau ar leoliad gwrandawiadau, dileu'r angen am adolygiad o orchymyn interim bob tri mis ac ehangu'r pŵer i apelio i'r Uchel Lys i amrywio gorchmynion interim. Gwnaed newidiadau angenrheidiol i'r system yn llwyddiannus.<br><br>Mae staff Addasrwydd i Ymarfer wedi cael eu briffio ar newidiadau adran 60 ac mae pecyn e-ddysgu ar gael i holl staff yr NMC. Bwriedir cynnal rhagor o hyfforddiant ar gyfer panelwyr, Archwilwyr Achos a staff arall yn 2017–2018. |
| 7 | ***Cofrestru***<br>Monitro effeithiolrwydd gweithredol ailddilysu yn ei flwyddyn weithredol llawn cyntaf a sicrhau gwelliant parhaus i'r broses a'n systemau. | **Gwyrdd** | Cyflawnwyd yr ymrwymiad hwn. Ar 30 Mawrth 2017, roedd 203,527 o nyrsys a bydwragedd wedi adnewyddu eu cofrestriad drwy ailddilysu. Mae'r cyfraddau adnewyddu yn cymharu'n dda â blynyddoedd blaenorol, gyda chyfraddau adnewyddu rhwng 90 a 95% ledled y DU.<br><br>Bu adborth rhanddeiliaid yn gadarnhaol tu hwnt. |
| 8 | ***Cofrestru***<br>Ei gwneud yn haws i nyrsys a bydwragedd dalu eu ffi gofrestru drwy gyflwyno cyfleuster rhandaliadau chwarterol. | **Gwyrdd** | Cyflawnwyd yr ymrwymiad hwn. Ym mis Mehefin 2016 daeth yn bosibl i nyrsys a bydwragedd wneud taliadau graddol chwarterol. Ers hynny, mae 53,999 o unigolion sydd ar y gofrestr wedi dewis talu mewn rhandaliadau chwarterol (sy'n cyfateb i 7.8% o bawb sydd ar y gofrestr). Cyflwynwyd y cyfleuster taliadau graddol yn llwyddiannus. |
| 9 | ***Addasrwydd i Ymarfer a Chofrestru***<br>Cynnal a pharhau i wella ein perfformiad rheoleiddio (fel y'i mesurir gan DPAau corfforaethol) drwy gydol y broses o drawsnewid. | **Gwyrdd** | Rydym wedi cyflawni'r holl dargedau DPA cofrestru ar gyfer y flwyddyn.<br><br>Mae ein perfformiad ym maes Addasrwydd i Ymarfer yn erbyn DPA Gorchmynion Interim wedi aros uwchlaw 90% drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn rhagori ar ein targed o 80%. Gostyngodd lefelau perfformiad yn erbyn ein DPA 15 mis o'r dechrau i'r diwedd ychydig yn y chwarter diwethaf. Mae hyn yn unol â'n rhagamcan |

| | Ymrwymiad cynllun corfforaethol 2016-2017 | Statws cyflawni | Naratif diwedd blwyddyn |
|---|---|---|---|
| | | | ac yn deillio o'n hymrwymiad i flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu achosion hŷn. |

## Defnyddio gwybodaeth (blaenoriaeth strategol 2)

| | Ymrwymiad cynllun corfforaethol 2016-2017 | Statws cyflawni | Naratif diwedd blwyddyn |
|---|---|---|---|
| 10 | Datblygu ein gallu strategol fel y gallwn gyfleu ein gofynion data a gwybodaeth.<br><br>Penderfynu ym mha ymchwil y dylem fuddsoddi, a defnyddio'r canlyniadau i lywio ein gwaith. | **Coch** | Ni chyflawnwyd yr ymrwymiad hwn. Nid yw gwaith wedi datblygu fel y dymunwyd oherwydd diffyg adnoddau yn y maes a diffyg eglurder o ran y bwriad strategol. Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo gyda phartner allanol i ddatblygu dull strategol yn 2017–2018. |
| 11 | Erbyn mis Mawrth 2017 bod mewn sefyllfa lle gall ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr ddechrau dadansoddi data o atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer a lleoliadau cyflogwyr fel y gellir cyflwyno ymyriadau ehangach sy'n seiliedig ar risg ar gam cynharach er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn well. | **Gwyrdd** | Cyflawnwyd yr ymrwymiad hwn. Yn 2016–2017 gwnaethom gyflawni dau brosiect i wella ansawdd ein data ac rydym bellach mewn sefyllfa i ddadansoddi data o atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer a lleoliadau cyflogwyr.<br><br>Canolbwyntiodd y prosiect cyntaf ar weithredu codau'r Gwasanaeth Data Sefydliadol a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer lleoliadau gofal iechyd sydd wedi eu cymhwyso i'n holl achosion addasrwydd i ymarfer ers mis Ionawr 2017. Mae'r codau hyn yn ein galluogi i ddadansoddi o ble y daw ein hachosion addasrwydd i ymarfer.<br><br>Comisiynodd yr ail brosiect ymchwil i'n honiadau achos addasrwydd i ymarfer. Dadansoddodd yr ymchwilwyr 900 o achosion a gafodd eu cau ar gamau amrywiol yn y broses addasrwydd i ymarfer er mwyn deall honiadau sy'n arwain at nyrs neu fydwraig yn dod gerbron ei rheoleiddiwr. Yn sgil yr ymchwil cafwyd set ddiwygiedig o fwy na 200 o godau honiadau a gymhwysir i bob achos addasrwydd i ymarfer. Bydd y data hyn yn ein galluogi i ddadansoddi materion addasrwydd i ymarfer fesul lleoliad gofal iechyd neu leoliad daearyddol a bydd yn parhau'r flwyddyn nesaf.<br><br>Rydym wrthi'n gweithio ar gyfres o brosiectau i feithrin gwell dealltwriaeth o'n data ac ystyried sut y gellir rhoi hyn ar waith wrth gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio. Bydd hyn yn parhau yn 2017–18. |

## Cydweithredu a chyfathrebu (blaenoriaeth strategol 3)

| | Ymrwymiad cynllun corfforaethol 2016-2017 | Statws cyflawni | Naratif diwedd blwyddyn |
|---|---|---|---|
| 12 | Hwyluso'r broses o glywed barn cleifion a'r cyhoedd drwy rwydweithiau newydd i'r cyhoedd a chleifion ledled y DU a defnyddio hyn i lywio ein gwaith. | **Coch** | Ni chyflawnwyd yr ymrwymiad hwn yn llawn. Nid oeddem yn glir o'r cychwyn sut y byddem yn cyflawni'r ymrwymiad hwn yn benodol ond gwnaed amrywiaeth o waith gyda grwpiau cleifion a'r cyhoedd eleni, gan gynnwys trafodaethau grŵp ffocws gyda grwpiau o gleifion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.<br><br>Cytunwyd ar gyfeiriad ar gyfer y maes pwysig hwn yn 2017–2018 a bydd yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn ymgorffori dull sefydliadol o gasglu barn cleifion a'r cyhoedd er mwyn llywio datblygiad ein gwaith. |

Eitem 11: **Atodiad 2**
NMC/17/46
24 Mai 2017

# Perfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol

## Cynnwys Atodiad 2

2a Adroddiad ar berfformiad Cofrestru ac Ailddilysu

2b Adroddiad ar berfformiad Addasrwydd i Ymarfer

2c Dangosfwrdd Addasrwydd i Ymarfer

2d Adnoddau – DPAau corfforaethol

2e Crynodeb o ffigurau DPA ar gyfer 2016–2017

**Welsh Translation of text in graphs on next two pages (from top to bottom)**

**Cofrestriadau cychwynnol yn y DU – 95% wedi'u prosesu o fewn 10 diwrnod**

Perfformiad Gwirioneddol
Targed
Perfformiad Cronnol

**Cofrestriadau cychwynnol yn y DU – 99% wedi'u prosesu o fewn 30 diwrnod**

Perfformiad Gwirioneddol
Targed
Perfformiad Cronnol

**Canran y ceisiadau cofrestru o'r UE/Tramor (68 diwrnod)**

Perfformiad Gwirioneddol
Targed
Perfformiad Cronnol

**Galwadau a atebwyd**

Perfformiad Gwirioneddol
Perfformiad Cronnol

**"Pa mor fodlon oeddech chi â'r gwasanaeth cwsmeriaid a gawsoch heddiw?"**

Perfformiad Gwirioneddol
Perfformiad Cronnol

**"A yw cysylltu â ni wedi helpu i ddatrys y materion y gwnaethoch gysylltu â ni amdanynt heddiw?"**

Perfformiad Gwirioneddol
Perfformiad Cronnol

# Perfformiad Cofrestru ac Ailddilysu – DPAau allweddol



Cyfnod: Maw 2017 a throsolwg blwyddyn


## DPA1a – Canran y ceisiadau cofrestru cychwynnol yn y DU a gwblhawyd o fewn 10 diwrnod


| Cyfartaledd ar gyfer 2016–17 | Ionawr 2017 | | Chwefror 2017 | | Mawrth 2017 | | Cyfartaledd blwyddyn | Targed cyfartalog diwedd blwyddyn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Fel % | Nifer | Fel % | Nifer | Fel % | | | |
| **96.7%** | 478 | **95.6%** | 943 | **98.3%** | 1489 | **98.9 %** | **98.2% (Gwyrdd)** | **95% o fewn 10 diwrnod** | **Prif darged** |
| **98.7%** | 485 | **97.0%** | 954 | **99.5%** | 1503 | **99.8 %** | **99.2% (Gwyrdd)** | **99% o fewn 30 diwrnod** | **Targed eilaidd** |

**Sylwadau:**
Parhaodd perfformiad i fod yn uchel ac yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi cyflawni ein targedau ar gyfer mis Mawrth a'r flwyddyn.

Gwnaed gwelliannau sylweddol i brosesau o fewn timau Cymorth Apeliadau'r Cofrestrydd a Chofrestru'r DU er mwyn ein helpu i gyflawni DPA y DU. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys rheoli beunyddiol ac adrodd ar y ffrydiau gwaith perthnasol a chwblhau achosion a uwchgyfeiriwyd yn gynt.

Ar 27 Mawrth 2017 cafodd y broses hon ei newid i wasanaeth rhannol awtomataidd, sy'n lleihau'r gwaith mewnbynnu â llaw sydd ei angen ac, o ganlyniad, yn gwella'r amserlen o'r dechrau i'r diwedd hyd yn oed yn fwy.








## DPA1b – Canran y ceisiadau cofrestru o'r UE/tramor a aseswyd o fewn 68 diwrnod

| Ionawr 2017 | | Chwefror 2017 | | Mawrth 2017 | | Cyfartaledd blwyddyn | Targed cyfartalog diwedd blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | Fel % | Nifer | Fel % | Nifer | Fel % | | |
| 783 | **99.1%** | 508 | **99.4%** | 875 | **100%** | **94% (Gwyrdd)** | **90%** |

**Sylwadau:**
Mae perfformiad tîm yn parhau i fod yn uchel ac yn gyson ar gyfer mis Mawrth ac rydym wedi cyflawni'r targed ar gyfer y flwyddyn.

Mae perfformiad y tîm rhyngwladol wedi bod yn gyson uchel dros y 12 mis diwethaf, a chyflawnwyd targed DPA yr UE/Tramor o fis i fis ers mis Mai 2016. Mae ein hamserlenni ar gyfer cwblhau asesiadau wedi gwella ac rydym wedi cyflwyno model perchenogaeth achos o fewn y tîm a dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar gwsmeriaid o ran gwaith tîm.




# Perfformiad Cofrestru ac Ailddilysu – gwybodaeth atodol

Cyfnod: Maw 2017 a throsolwg blwyddyn

**Canran y galwadau a atebwyd**

| Blwyddyn lawn 2016–17 | Ionawr 2017 | Chwefror 2017 | Mawrth 2017 | Cyfartaledd blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| | 95.4% | 94.1% | 94.9% | 93.8% |
| | 25,965 /1,244 wedi'u hateb/gadael | 24,344 /1,535 wedi'u hateb/gadael | 26,367 /1,404 wedi'u hateb/gadael | |





**Sylwadau:**
Gwnaethom berfformio'n gryf yn ystod mis Mawrth ac mae'r ganolfan alwadau wedi cyflawni ei tharged DPA 'galwadau a atebwyd' ei hun o 90% ar gyfer y flwyddyn gyda chyfartaledd cyffredinol o 93.8%. Yr unig fis lle na chyflawnwyd y DPA oedd mis Hydref, lle atebwyd 82.2% o'r galwadau.


Roedd 14% o'r galwadau a atebwyd yn y ganolfan alwadau yn ystod y flwyddyn yn ymwneud ag ailddilysu. Roedd yr ymholiad mwyaf cyffredin yn ymwneud â'r broses ailddilysu (gan gynnwys ceisiadau am ddyddiad ailddilysu'r galwr), wedi'i ddilyn gan ymholiadau am drefniadau cymorth amgen.

**Canran y cwsmeriaid a ddywedodd fod eu profiad cyffredinol yn 'dda' neu'n 'dda iawn', a chanran y cwsmeriaid a oedd o'r farn ein bod wedi ateb eu hymholiad**

| Mesur | Ionawr 2017 | Chwefror 2017 | Mawrth 2017 | Cyfartaledd blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| Profiad cyffredinol | 79.7% | 80.6% | 81.0% | 76.6% |
| Ateb ymholiad | 78% | 77.1% | 78.1% | 77.0% |




Where answer was 'good' or 'very good'




Where answer was 'yes'

**Sylwadau:**
Roedd lefelau boddhad cwsmeriaid ar gyfer mis Mawrth yn gyson â'r mis blaenorol ar y cyfan.

Mae'r ganolfan alwadau wedi perfformio'n dda eleni. Mae boddhad cwsmeriaid yn dal i fod yn gadarnhaol gyda chyfradd boddhad cwsmeriaid cyffredinol o 76.6% ar gyfer y flwyddyn.

# Perfformiad Addasrwydd i Ymarfer



**Cyfnod:
Maw 2017 a throsolwg blwyddyn**

**DPAau Corfforaethol**

| DPA 2 – Canran y gorchmynion interim a gyflwynwyd o fewn 28 diwrnod i agor achos | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfartaledd 2015–16 (Mawrth 2016) | Ionawr 2017 | Chwefror 2017 | Mawrth 2017 | Targed cyfartalog diwedd blwyddyn |
| 89% | 92% | 92% | 91% (Gwyrdd) | 80% |

| DPA 3 – Canran yr achosion addasrwydd i ymarfer a gwblhawyd o fewn 15 mis i gael eu hagor | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfartaledd 2015–16 (Mawrth 2016) | Ionawr 2017 | Chwefror 2017 | Mawrth 2017 | Targed cyfartalog diwedd blwyddyn |
| 78% | 76% | 76% | 75% (Melyn) | 80% |

**Graddfa Coch/Melyn/Gwyrdd:** Coch – mae’r cyfartaledd cronnol ar gyfer y 12 mis blaenorol o dan 72%; Melyn - rhwng 72% ac 80%; Gwyrdd – yn fwy nag 80% neu’n cyfateb iddo

**Sylwadau ar berfformiad addasrwydd i ymarfer ar gyfer y flwyddyn**

Dechreuodd addasrwydd i ymarfer y flwyddyn gyda llwyth achos o 4,454 o achosion: 1,064 ar y cam dyfarnu a’r 3,390 arall ar y cam ymchwilio. Ar ddiwedd mis Mawrth 2017 roedd y llwyth achos yn 3,527, sef lleihad o 927 o achosion. Roedd achosion ar y cam dyfarnu wedi lleihau i 986 ac roedd 2,541 ar y camau ymchwilio. Bu ffocws ar ddatblygu ein hachosion hŷn ac, ar ddiwedd mis Mawrth 2017, roedd gennym 264 o achosion a oedd dros 12 mis oed ar y cam ymchwilio, yr oedd 169 ohonynt yn destun ymchwiliad trydydd parti a arweiniodd at ohirio ein gwaith achos am gyfnod. Cawsom 5,464 o atgyfeiriadau eleni, cynnydd bach o gymharu â 5,415 y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd y gyfradd gau ar y cam Sgrinio i 60% o 51% y llynedd. Cyfradd gau archwilwyr achos ar gyfer y flwyddyn oedd 44%. Gwnaed cyfanswm o 1,579 o benderfyniadau dyfarnu terfynol, a oedd yn gynnydd o 619 o benderfyniadau o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Roedd gwarediadau amgen yn cyfrif am 24% o’r penderfyniadau hynny, unwaith eto’n gynnydd o 17% o gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

Parhaodd perfformiad yn erbyn DPA gorchymyn interim yn gyson uchel a gorffennodd y flwyddyn gyda 91% o orchmynion interim yn cael eu cyflwyno o fewn 28 diwrnod. Parhaodd perfformiad yn erbyn DPA 15 mis o’r dechrau i’r diwedd yn gyson ar 78% am chwe mis cyntaf y flwyddyn ac yna gostyngodd ychydig i 75% erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd hyn yn arwydd o’n hymgais i ddatblygu achosion hŷn. Rydym yn parhau’n ymrwymedig i gwblhau achosion hŷn o fewn ein rheolaeth a sicrhau’r lefel orau bosibl o lwyth achosion yn 2017–2018.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn annog y rheini ar y gofrestr i ymgysylltu’n gynnar â’r broses addasrwydd i ymarfer ac i amlinellu’r dull pryderon rheoleiddiol newydd, a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2017. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2017 drwy weithredu adran 60 a sicrhau bod y negeseuon allweddol hyn yn cael eu bwydo i mewn i’r rhaglen drawsnewid.

Gwnaeth y lleihad yn ein llwyth achos yn ystod y flwyddyn ein galluogi i ganolbwyntio’n fwy ar ansawdd ein penderfyniadau. I atgyfnerthu ein fframweithiau rheoli ansawdd, gwnaethom sefydlu grŵp adolygu canlyniadau o ansawdd, sydd wedi dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei werthusiad o’r flwyddyn gyntaf. Cawsom ein hadroddiad adolygu perfformiad gorau erioed gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyrraedd y safon amseroldeb. Bydd ein ffocws o ran ansawdd yn 2017–2018 ar adborth cwsmeriaid; yn y lle cyntaf cynyddu nifer yr ymatebion a gawn gan gwsmeriaid ac yna ddefnyddio’r adborth hwn i nodi meysydd lle gellir gwella.

Yn 2016–2017 y gweithredwyd y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr gyntaf, gan weithio’n agos gyda chyflogwyr er mwyn gwella effeithiolrwydd cyfathrebu ac ansawdd atgyfeiriadau. Gweithredwyd honiadau a chodio cyflogwyr yn llwyddiannus yn ein systemau rheoli achos, gan ein galluogi i ddadansoddi’r math o honiadau a gawn ac o ble y maent yn dod. Byddwn yn parhau i ddatblygu swyddogaeth gwybodaeth reoleiddiol gan ganolbwyntio ar godio asesiadau risg, yn ogystal â chyflawni ein dyletswydd fel corff rhagnodedig o dan ddeddfwriaeth chwythu’r chwiban.

Bu canolbwyntio ar ein staff yn thema allweddol drwy gydol y flwyddyn a bydd hyn yn parhau yn 2017–2018 drwy drawsnewid a’n cynllun gweithredu arolwg staff.

Eitem 11: **Atodiad 2c**
NMC/17/46
24 Mai 2017


Nursing & Midwifery Council

**Welsh Translation of text in graphs on next page**


| | |
|---|---|
| Median age of caseload | Oedran canolrif llwyth achos mewn wythnosau |
| Median age of decisions | Oedran canolrif penderfyniadau mewn wythnosau |
| 156 weeks plus | 156 wythnos a mwy |
| to | i |
| weeks | wythnos |
| Third party | Trydydd parti |
| Not third party | Ddim yn drydydd parti |

# Dangosfwrdd perfformiad addasrwydd i ymarfer 2017-2018

## Llwyth achos hanesyddol




## Rhagamcan llwyth achos addasrwydd i ymarfer




**Rhagamcan llwyth achos addasrwydd i ymarfer a llwybr amseroldeb**


Mae'r graffiau ar y chwith yn dangos ein llwyth achos diwedd blwyddyn dros y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf a'n llwyth achos rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Byddwn yn adrodd ar y rhagamcanion hyn yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi pennu llwybr i gyflawni targedau amseroldeb ar bob cam o'r broses, fel y nodir isod. Byddwn yn graddio ein hynt yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r targedau'n cynnwys achosion a fu'n destun ymchwiliad gan drydydd parti.


Mae ein cynlluniau gweithredol wedi'u priodoli i gyflawni'r llwyth achos rhagamcanol a'r llwybr amseroldeb o fewn y gyllideb a bennwyd gan y Cyngor. Tybiwn y bydd buddiannau o newidiadau adran 60 yn dechrau dod i'r

| | | |
|---|---|---|
| Ebr-17 | Dim achosion sgrinio dros 8 wythnos | |
| Medi-17 | Dim achosion ymchwilio dros 30 wythnos | |
| Rhag-17 | Dim achosion Archwilydd Achos dros 39 wythnos | |
| Meh-18 | Dim achosion dyfarnu dros 65 wythnos | |


## Oedran canolrif adeg Sgrinio




## Oedran canolrif Ymchwiliadau ac Archwilwyr Achos




## Oedran Canolrif Dyfarniadau





**Oedran canolrif llwyth achos sy'n datblygu ac yn aros**


Mae'r graffiau hyn yn dangos oedran canolrif, mewn wythnosau, achosion pan fyddant yn symud o'r camau allweddol y broses addasrwydd i ymarfer, ynghyd ag oedran canolrif achosion sy'n aros yn y llwyth achos ar bob cam.

Rydym hefyd wedi dangos oedran canolrif llwyth achos a phenderfyniadau mis Mawrth 2015 a mis Mawrth 2016 ac rydym yn bwriadu diweddaru'r graffiau hyn bob chwarter er mwyn nodi'r cynnydd a wneir o ran amseroldeb penderfyniadau a llwyth achos cyffredinol.


## Llwyth achos sgrinio





## Llwyth achos ymchwiliadau




## Llwyth achos Archwilwyr Achos




## Llwyth achos Dyfarniadau




**Oedran llwyth achos ar gamau allweddol o'r broses addasrwydd i ymarfer**

Mae'r graffiau hyn yn dangos proffil oedran achosion ar bob cam o'r broses. Mae llinell doredig pob graff yn dangos y pwynt pan ddisgwyliwn weld achosion yn datblygu. Mae pob categori oedran wedi'i ddadansoddi ymhellach i ddangos yr achosion hynny a fu'n destun ymchwiliad gan drydydd parti sydd wedi peri oedi iddynt. Dylai dangos llwyth achos yn y fath fodd roi sicrwydd ynghylch amseroldeb achosion o fewn ein rheolaeth.

**Crynodeb Symud Llwyth Achos Mawrth 2017**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llwyth achos agoriadol 3,697 | 517 o achosion wedi'u derbyn | 688 o achosion wedi'u cwblhau | 3,527 llwyth achos adeg gorffen |

Eitem 11: **Atodiad 2d**
NMC/17/46
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

**Welsh Translation of text in graphs on next page (from top to bottom)**

| | |
|---|---|
| Available free reserves | Cronfeydd wrth gefn am ddim sydd ar gael ar gyfer 2016-2017 (sail actiwaraidd ddiweddaraf) |
| Actuals | Gwirioneddol |
| Budget | Cyllideb |
| Permanent Turnover | Trosiant Parhaol |

# Adnoddau – DPAau corfforaethol






**Mae'r holl wybodaeth ar y dudalen hon yn ymwneud â'r sefydliad ac nid y gyfarwyddiaeth.**

## DPA 4 – Cronfeydd wrth Gefn am Ddim sydd ar Gael

| Diwedd y flwyddyn 2015–16 31 Mawrth 2016 | Ionawr 2017 | Chwefror 2017 | Mawrth 2017 | Cyllideb 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|
| **1. Cronfeydd wrth gefn am ddim sydd ar gael gan ddefnyddio'r amcangyfrif actiwaraidd diweddaraf o ddiffyg pensiwn (yn unol â datganiadau ariannol archwiliedig)** | | | | |
| 17.9 | 22.0 | 21.5 | 19.4 (Gwyrdd) | 21.5 |
| **2. Cronfeydd wrth gefn am ddim sydd ar gael gan ddefnyddio ymrwymiadau arian parod presennol i ymdrin â'r diffyg pensiwn** | | | | |
| 22.7 | 26.9 | 26.4 | 20.7 (Gwyrdd) | 26.4 |

**Sylwadau:** Ar lefel o £19.4 miliwn, mae'r cronfeydd wrth gefn am ddim sydd ar gael islaw ffigur cyllideb 2016–2017, sef £21.5 miliwn ar gyfer mis Mawrth 2016 (ar y sail actiwaraidd ddiweddaraf). Bu gorwariant o ran y gyllideb ym meysydd addasrwydd i ymarfer ac arloesi technoleg a busnes, ond mae'r gostyngiad ar gyfer mis Mawrth yn deillio'n bennaf o gydnabod gwerth uwch yr arian parod y mae'r NMC wedi ymrwymo i'w dalu i ostwng y diffyg pensiwn tan 2026.

Fodd bynnag, mae'r lefel yn dal i fod ymhell o fewn yr ystod targed £10 miliwn i £25 miliwn a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2016, ac mae'n parhau i fod ar lefel sefydlog cyn y rhaglen Drawsnewid. Caiff cronfeydd wrth gefn am ddim sydd ar gael eu monitro'n ofalus dros y flwyddyn nesaf yn sgil y risgiau sy'n gysylltiedig â gwariant pellach ar Drawsnewid.




**Graddfa Coch/Melyn/Gwyrdd:** Lefel y cronfeydd wrth gefn am ddim rhwng £10m a £25m.
**Ffigurau mewn £ miliwn.**

## DPA 5 – Cyfradd trosiant staff


| Ffigur hanesyddol (Mawrth 2016) | Ionawr 2017 | Chwefror 2017 | Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 23.5% | 25.0% | 24.3% | 24.6% |

**Sylwadau:** Roedd trosiant ym mis Ebrill yn 23.6% ac ar ddiwedd mis Mawrth 2017 roedd yn 24.6%. Yn ystod y cyfnod hwn mae wedi amrywio rhwng 22% a 26% gyda chyfradd gyfartalog o 24.1%. Y gyfarwyddiaeth Adnoddau oedd â'r lefel uchaf o drosiant gwirfoddol, sef 38%, ac yna Swyddfa'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, sef 35.7%. Addysg, Safonau a Pholisi oedd â'r gyfradd isaf, sef 7%.

Gadawodd 161 yn barhaol rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017. O'r rhain, roedd 149 (92.5%) yn gwneud hynny o'u gwirfodd. Gadawodd 12 (7.5%) yn anwirfoddol.

Ymunodd 181 o staff parhaol yn y cyfnod hwn. O'r rhain, gadawodd 20 (11%) o'u gwirfodd yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Roedd 13 (65%) o'r rhai a adawodd yn y flwyddyn gyntaf o addasrwydd i ymarfer gyda'r saith sy'n weddill (35%) o'r holl gyfarwyddiaethau eraill.

Mae'r adran adnoddau dynol wedi dechrau llunio amrywiaeth o ddata a dadansoddiadau ar gyfer y Bwrdd Gweithredol bob mis. Mae'n cynnwys trosiant a dadansoddiad manylach o ddata cyfweliadau ymadael er mwyn nodi a thanlinellu'r prif ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau cyflogeion i adael yr NMC. Cyflwynir holiadur cyfweliad ymadael newydd ym mis Ebrill 2017, a fydd yn cynnig y cyfle i gael trafodaeth wyneb yn wyneb â chyflogeion.




**Ni phennwyd targed ar gyfer 2016-17.** Roedd yn anodd pennu targed ystyrlon oherwydd yr ansicrwydd ynghylch maint y gweithlu parhaol yn ystod y flwyddyn a'r ansicrwydd ynghylch strwythur tymor hwy a lleoliad swyddogaethau'r NMC. Yn hytrach, cafodd perfformiad ei fonitro gan gyfeirio at dueddiadau hanesyddol hwy.

Eitem 11: **Atodiad 2e**
NMC/17/46
24 Mai 2017

**Welsh Translation of text in tables on next page**

| | |
|---|---|
| **KPI** | **DPA** |
| **2015-2016 Average** | **Cyfartaledd 2015-2016** |
| **Apr**<br>**May**<br>**Jun**<br>**Jul**<br>**Aug**<br>**Sep**<br>**Oct**<br>**Nov**<br>**Dec**<br>**Jan**<br>**Feb**<br>**Mar** | **Ebr**<br>**Mai**<br>**Meh**<br>**Gorff**<br>**Awst**<br>**Medi**<br>**Hyd**<br>**Tach**<br>**Rhag**<br>**Ion**<br>**Chwe**<br>**Maw** |
| **KPI achieved?** | **Cyflawnwyd DPA?** |
| **Target** | **Targed** |
| 1a | % y ceisiadau i gofrestru yn y DU a gwblhawyd o fewn **10** diwrnod |
| 1a | % y ceisiadau i gofrestru yn y DU a gwblhawyd o fewn **30** diwrnod |
| 1b | % y ceisiadau i gofrestru o'r UE/tramor a aseswyd o fewn 68 diwrnod^ |
| 2 | % y gorchmynion interim a gyflwynwyd o fewn 28 diwrnod i agor yr achos |
| 3 | Cyfran yr achosion addasrwydd i ymarfer a gwblhawyd o fewn 15 mis i'w hagor |
| 4 | Cronfeydd wrth gefn am ddim ^ |
| 5 | Trosiant staff |
| **Year avg:** | **Cyfartaledd blwyddyn:** |
| **Year end:** | **Diwedd y flwyddyn:** |
| **n/a** | **dd/g** |

^ cyfrifwyd gan ddefnyddio ymrwymiadau arian parod presennol. Diweddarwyd mis Mawrth fel yr eglurwyd yn yr adroddiad Monitro Ariannol.

**Crynodeb o'r data cofrestru atodol a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn**

| | |
|---|---|
| % of calls | % y galwadau a atebwyd |
| % of customers | % y cwsmeriaid a ddywedodd fod eu profiad cyffredinol yn dda neu'n dda iawn |
| % of customers | % y cwsmeriaid a oedd o'r farn ein bod wedi datrys eu hymholiad |
| **Year avg:** | **Cyfartaledd blwyddyn:** |

Eitem 11: **Atodiad 2e**
NMC/17/46
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

## Crynodeb o ffigurau DPA corfforaethol 2016-2017

| KPI | | 2015-2016 Average | 2016-2017 Apr | May | Jun | Jul | Aug | Sep | Oct | Nov | Dec | Jan | Feb | Mar | KPI achieved? | Target |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1a | % of UK reg applications completed within **10** days | 97.4% | 95.1% | 93.5% | 93.9% | 98.5% | 99.1% | 99.4% | 99.3% | 95.5% | 95.4% | 95.6% | 98.3% | 98.9% | Year avg: 98.2% | 95% |
| 1a | % of UK reg applications completed within **30** days | 98.7% | 98% | 97.8% | 97.1% | 98.9% | 99.5% | 99.8% | 99.8% | 97.8% | 98% | 97% | 99.5% | 99.8% | Year avg: 99.2% | 99% |
| 1b | % of EU/OS reg applications assessed within 68 days^ | 87.5% | 61.2% | 94.6% | 99.9% | 100% | 100% | 99.9% | 99% | 98.1% | 99.5% | 99.1% | 99.4% | 100% | Year avg: 94% | 90% |
| 2 | % of interim orders imposed within 28 days of opening the case | 89% | 89% | 90% | 90% | 91% | 91% | 91% | 92% | 92% | 92% | 92% | 92% | 91% | Year avg: 91% | 80% |
| 3 | Proportion of FtP cases concluded within 15 months of being opened | 78% | 78% | 78% | 78% | 78% | 79% | 78% | 78% | 77% | 76% | 76% | 76% | 75% | Year avg: 75% | 80% |
| 4 | Free reserves ^ | £22.7m | £23.7m | £24.4m | £24.5m | £25.4m | £26.6m | £26.9m | £25.6m | £27.6m | £26.1m | £26.9m | £26.4m | £20.7m | Year end: £20.7m | £10m - £25m |
| 5 | Staff turnover | 23.5% | 23.6% | 22.6% | 22.7% | 22.1% | 23.5% | 26% | 25.1% | 24.4% | 25.2% | 25% | 24.3% | 24.6% | n/a | n/a |

^ calculated using existing cash commitments. March has been updated as explained in the Financial Monitoring report.

### Summary of supplementary registrations data reported during the year

| | | Apr | May | Jun | Jul | Aug | Sep | Oct | Nov | Dec | Jan | Feb | Mar | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % of calls answered | - | 94% | 95.4% | 93% | 96.8% | 97.7% | 96% | 82.2% | 94.5% | 97.9% | 95.4% | 94.1% | 94.9% | Year avg: 93.8% |
| % of customers rating their overall experience as good or very good | - | 86.9% | 81.3% | 78.6% | 75.5% | 80.5% | 74.2% | 58.6% | 70.2% | 80.1% | 79.7% | 80.6% | 81% | Year avg: 76.6% |
| % of customers who felt we had resolved their query | - | 89.6% | 83.9% | 83.9% | 81.6% | 79.2% | 75.2% | 62.6% | 68.7% | 78.4% | 78% | 77.1% | 78.1% | Year avg: 77% |

Eitem 11: **Atodiad 3**
NMC/17/46
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Diweddariad ar brosiect Adran 60

## Ebrill 2017

## Deddfwriaeth

1 Mae'r Cyngor wedi gwneud y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer yn ffurfiol drwy ohebiaeth ac maent wedi'u cyflwyno i Swyddfa'r Cyfrin Gyngor i'w gosod gerbron y Senedd. Mae'r Adran Iechyd wedi addasu'r dyddiad dod i rym i ddydd Gwener 28 Gorffennaf.

## Cam un: gweithredwyd 31 Mawrth 2017

2 Cafodd cam cyntaf y rhaglen ei gwblhau'n llwyddiannus ar 31 Mawrth 2017.

3 Gwnaed newidiadau i'r broses o reoleiddio bydwreigiaeth. Cwblhawyd rhaglen bellach o gyfathrebu â bydwragedd a rhanddeiliaid, a wnaeth gadarnhau'r newidiadau a chysylltu â gwybodaeth am fodelau goruchwylio yn y dyfodol.

4 Mae'r newidiadau cychwynnol i'r broses addasrwydd i ymarfer wedi'u cwblhau. Mae'r holl adolygiadau tri mis o orchymyn interim wedi'u dileu o'r amserlen ac mae'r pwerau apelio diwygiedig o ran gorchymyn interim yn fyw. Cyflwynwyd newidiadau o ran hyblygrwydd lleoliad gwrandawiadau a chynhaliwyd y gwrandawiad cyntaf o'r fath.

5 Rydym yn dal i aros am gadarnhad ynghylch cytundeb lefel gwasanaeth NHS England i gael mynediad i gronfeydd data Swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol (LSAMO).

## Cam dau: gweithredu arfaethedig 28 Gorffennaf 2017

### Newid systemau a phrosesau

6 Mae'r newidiadau i systemau er mwyn cefnogi pwerau newydd Archwilwyr Achos ar y trywydd iawn i'w profi a'u cyflwyno ddiwedd mis Gorffennaf. Bydd gwaith yn dechrau ar y feddalwedd i gefnogi'r broses o fonitro ac adolygu ymgymeriadau a ryddheir ar wahân, ar gam diweddarach o bosibl.

7 Rydym wedi cytuno ar y dull o gyhoeddi'r gwarediadau archwilwyr achos newydd. Mae gwaith wedi dechrau i gytuno ar sut i gyfleu'r gwarediadau newydd i gyflogwyr a'r cyhoedd ac i ddileu sancsiynau sydd wedi dirwyn i ben o'r storfa dogfennau cyhoeddus bresennol. Mae'r gwaith systemau a llaw dan sylw yn heriol.

8 Rydym yn aros am gadarnhad ynghylch pryd y caiff y pwyllgor addasrwydd i ymarfer unigol newydd ei gyflunio yn y system fel y gellir amserlennu. Disgwylir i waith amserlennu ddechrau ym mis Mai ar gyfer gwrandawiadau ym mis Awst.

9 Bydd y newidiadau i adran 60 yn gofyn am ddiweddaru cyfran sylweddol o dempledi gohebiaeth addasrwydd i ymarfer. Rydym yn achub ar y cyfle hwn i newid ein "llais" a gwneud gwelliannau eraill ar yr un pryd.

**Trosi, hyfforddi a chyfathrebu**

10 Bwriedir i'n cynllun trosi addasu ein proses ymchwilio a sgrinio mewn da bryd i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r pwerau newydd ac i reoli llwyth gwaith cyflawnadwy ar gyfer archwilwyr achos yn ystod cyfnod trosiannol heriol.

11 Bydd achosion yn datblygu yn ôl yr arfer drwy'r broses archwilydd achos ac ni fydd unrhyw oedi. Mae achosion a allai arwain at warediadau newydd yn cael eu nodi gan archwilwyr achos bellach. Pan fydd y pwerau newydd wedi'u cyflwyno, gall rhai achosion gael eu dychwelyd at archwilwyr achos os gellir ymdrin â hwy'n fwy priodol drwy ymgymeriad yn hytrach na gwrandawiad. Rydym yn ystyried y nifer briodol o achosion i'w dychwelyd yn y ffordd hon a'r goblygiadau o ran adnoddau. Gallai achosion o'r fath fod yn destun oedi os nad yw'r cofrestrydd yn cytuno â'r ymgymeriadau. Ni ragwelwn risgiau eraill i lwyth achos na llif.

12 Mae staff addasrwydd i ymarfer wedi cael briffiadau wyneb yn wyneb ar newidiadau a60 mewn cyfres o ddigwyddiadau llwyddiannus, a gafodd groeso da. Mae pecyn e-ddysgu ar gael i holl staff yr NMC.

13 Mae archwilwyr achos wedi mynychu gweithdai ar nodi ac argymell ymgymeriadau a bwriedir cynnal rhagor o ddigwyddiadau ar ymgymeriadau a phwerau eraill. Mae hyfforddiant i banelwyr wrthi'n cael ei ddatblygu a chaiff ei dreialu ddiwedd y mis, cyn ei gyflwyno o ddechrau mis Mai.

14 Yn fuan, bydd staff ymchwilio addasrwydd i ymarfer yn cael hyfforddiant er mwyn sicrhau bod pwerau newydd archwilwyr achos a'r dull o gynnal achosion iechyd ac ymddygiad a roddir i'r pwyllgor unigol newydd yn adlewyrchu'n briodol y dull ymchwilio.

15 Caiff digwyddiadau ymgysylltu â chyrff proffesiynol eu trefnu ar gyfer mis Mai a byddant yn cyfuno digwyddiad wyneb yn wyneb a seminarau ar-lein er mwyn gwella presenoldeb a lleihau costau.

16 Bydd y sawl sydd wedi cofrestru a chyflogwyr yn cael y newyddion diweddaraf mewn cylchlythyrau ym mis Mai a mis Gorffennaf ac efallai y gwelir erthyglau eraill mewn cyfnodolion masnach.

**Buddiannau**

17 Disgwyliwn i'r newidiadau wella ein gallu i ddiogelu'r cyhoedd drwy gyflwyno sancsiynau mwy amserol a chymesur, a fydd yn golygu mai dim ond yr achosion mwyaf difrifol sy'n cyrraedd gwrandawiad terfynol.

18 Nododd yr achos busnes £12.5m o fudd ariannol gros posibl dros dair blynedd o 2018/19. Mae hyn yn deillio'n bennaf o leihau costau gwrandawiadau oherwydd symiau adolygu is a defnyddio pwerau newydd archwilwyr achos i ddatrys achosion.

19 Mae cyfran yr achosion sy'n denu gwarediadau archwilwyr achos newydd wedi cael ei hailasesu. Disgwyliwn i oddeutu 39% o achosion a adolygir gan archwilwyr achos fod yn destun y gwarediadau newydd. Paratowyd model budd manwl a chaiff ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Mai. Cefnogodd y model y tybiaethau achos busnes ynghylch gwireddu buddiannau cyffredinol. Rydym yn asesu'r potensial i wireddu buddiannau cynnar yn 2017/18 wrth i achosion cychwynnol gael eu hatgyfeirio gan y pwerau gwaredu newydd.

**Risgiau**

20 Mae risg y gall newidiadau i'r Rheolau ddioddef oedi o ganlyniad i flaenoriaethau Seneddol yn newid ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd i ddeall y goblygiadau posibl i gyflawni prosiectau.

Eitem 12
NMC/17/47
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Y Cyngor

## Cynllun Gweithredu PSA: Adroddiad cynnydd

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | I'w drafod. |
| **Mater:** | Diweddariad ar hynt y camau gweithredu yn deillio o argymhellion adolygiad o berfformiad 2015–2016. |
| **Swyddogaeth reoleiddio graidd:** | Addasrwydd i Ymarfer.<br>Cofrestru.<br>Addysg, Safonau a Pholisi. |
| **Blaenoriaeth strategol:** | Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol.<br>Blaenoriaeth strategol 2: Defnyddio gwybodaeth.<br>Blaenoriaeth strategol 4: Sefydliad effeithiol. |
| **Penderfyniad gofynnol:** | Gofynnir i'r Cyngor nodi hynt y cynllun gweithredu mewn ymateb i'r dysgu a nodwyd gan PSA yn adroddiad adolygu perfformiad 2015–2016 (paragraff 22). |
| **Atodiadau:** | Na. |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Os hoffech gael eglurhad ynghylch unrhyw beth yn y papur neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r awdur neu'r cyfarwyddwr a enwir isod. |


Awdur: Mike Andrews
Ffôn: 020 7681 5925
mike.andrews@nmc-uk.org

Cyfarwyddwr: Emma Broadbent
Ffôn: 020 7681 5903
emma.broadbent@nmc-uk.org

**Cyd-destun:** 1 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) yn goruchwylio'r naw rheoleiddiwr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac yn adolygu perfformiad pob un ohonynt bob blwyddyn. Mae'r adolygiadau yn seiliedig ar set gytûn o 24 o Safonau Rheoleiddio Da (SOGR).

2 Ar gyfer 2015–2016 barnodd PSA ein bod wedi cyrraedd pob un o'r safonau hyn, namyn un. Roedd y safon na lwyddwyd i'w chyrraedd yn ymwneud ag amseroldeb wrth ddelio ag achosion addasrwydd i ymarfer. Roedd canlyniad cyffredinol yr adolygiad yn welliant sylweddol ar flynyddoedd blaenorol.

3 Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu manwl i fynd i'r afael ag adborth a dysgu a nodwyd gan PSA ac i'n rhoi mewn sefyllfa gref ar gyfer adolygiad o berfformiad 2016–2017. Ystyrir hynt y cynllun hwn gan y Grŵp Cyfarwyddwyr bob chwarter.

4 Mae'r broses o adolygu perfformiad ar gyfer eleni wedi dechrau. Rydym wedi derbyn ac ymateb i'r adborth trydydd parti a gafwyd gan PSA oddi wrth amrywiaeth o sefydliadau sydd wedi gweithio gyda ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, yn enwedig o ran:

4.1 gweithredu'r broses ailddilysu yn llwyddiannus;

4.2 ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys ar achosion Addasrwydd i Ymarfer;

4.3 cynnal cyfarfodydd y Cyngor;

4.4 ein gwaith ar adolygu ein safonau ar gyfer addysg cyn cofrestru, ein fframwaith addysg a'r swyddogaeth sicrhau ansawdd.

5 Bydd yr adborth a'n hymateb iddo yn ffurfio rhan o benderfyniad PSA ynghylch i ba raddau i adolygu perfformiad 2016–2017. Gwneir y penderfyniad hwn yng nghyfarfod asesu mewnol PSA ddiwedd mis Mai 2017.

**Ffactorau Pedair Gwlad:** 6 Nid oes unrhyw ffactorau sy'n berthnasol i'r papur hwn.

**Trafodaeth:** 7 Crynhoir y prif gamau rydym wedi'u cymryd hyd yma isod:

**Addysg a safonau**

8 Dynododd PSA y bydd yn monitro ein gwaith i adolygu ein hyfedredd bydwreigiaeth cyn cofrestru a'n safonau ôl-gofrestru. Bydd hefyd yn monitro hynt y gwaith o adolygu ein swyddogaeth sicrhau ansawdd addysg.

9 O ran y gwaith ar safonau, rydym wedi penodi cynghorydd bydwreigiaeth arbenigol allanol ac wedi nodi grŵp arwain agweddau, sy'n cynnwys bydwragedd o bob maes ymarfer. Cynhelir cyfarfod cyntaf y grŵp ym mis Mai 2017. Rydym wedi dechrau'r gwaith rhagarweiniol i adolygu'r safonau ôl-gofrestru. Mae'r broses o adolygu safonau hyfedredd rhagnodwyr nyrsys a bydwragedd yn mynd rhagddi a chwblhawyd yr ymarfer ymgysylltu cyn ymgynghori. Mae'r adolygiad annibynnol o broses sicrhau ansawdd addysg yr NMC bron â gorffen a chyflwynir opsiynau o ran model sicrhau ansawdd y dyfodol i'r Cyngor yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Gwasanaeth cwsmeriaid**

10 Dywedodd PSA y bydd yn monitro gwelliannau i wasanaethau cwsmeriaid yn ofalus, gan ystyried yn arbennig brosesau cofrestru a rheoli adnoddau cofrestru.

11 Rydym wrthi'n datblygu strategaeth gwasanaethau cwsmeriaid gorfforaethol a gyflwynir i'r Cyngor i gytuno arni, ac rydym wedi sefydlu grŵp llywio cwsmeriaid, a wnaeth gyfarfod am y tro cyntaf ddiwedd mis Ebrill 2017. Rydym yn datblygu mesurau cwsmeriaid newydd i'n galluogi i fonitro p'un a ydym yn bodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid a dysgu o'u hadborth. Hysbysir y Cyngor am y canlyniadau eisoes a chaiff y gwaith hwn ei ddatblygu a'i wella yn ystod y flwyddyn.

12 Ym meysydd Cofrestru ac Ailddilysu, rydym wedi datblygu adnodd rhagamcanu er mwyn darogan a mesur y galw posibl a chaiff yr adnodd hwn ei ddefnyddio'n effeithiol yn awr at ddibenion cynllunio adnoddau a busnes.

13 Rydym hefyd wedi cynnal nifer o weithdai i randdeiliaid yn canolbwyntio ar gyfleoedd i wella ein prosesau tramor ac mae nifer o welliannau wedi cael eu gweithredu neu yn yr arfaeth.

**Uniondeb y gofrestr**

14 Dywedodd PSA y bydd yn monitro ein perfformiad yn y maes hwn, o ystyried ei bryderon mewn blynyddoedd blaenorol ynghylch gwallau wrth adlewyrchu canlyniadau addasrwydd i ymarfer ar y Gofrestr. Ni nodwyd unrhyw wallau o'r fath y llynedd.

15 Rydym wedi gwella'r cysylltiadau a'r cyfathrebu rhwng y ddwy gyfarwyddiaeth ac yn cynnal gwiriadau cysoni deirgwaith yr wythnos ym meysydd Cofrestru ac Ailddilysu ac Addasrwydd i Ymarfer er mwyn sicrhau bod holl ganlyniadau Addasrwydd i Ymarfer yn cael eu hadlewyrchu ar y Gofrestr.

**Ailddilysu**

16 Mynegodd PSA bryder ynghylch p'un a yw ein model ailddilysu yn

ddigon seiliedig ar risg.

17 Rydym yn cynnal gwerthusiad annibynnol o'r broses ailddilysu. Mae hyn yn cynnwys gwerthusiad o effaith ailddilysu ar wahanol grwpiau o gofrestryddion a byddwn yn ymchwilio i weld a oes risgiau sy'n gysylltiedig â mathau penodol o ymarfer. Bydd y gwaith gwerthuso yn cwmpasu tair blynedd, ond byddwn yn cyhoeddi canlyniad blwyddyn gyntaf yr adolygiad ym mis Gorffennaf 2017 ac yn ei rannu â PSA.

**Ymdrin ag achosion addasrwydd i ymarfer**

18 Gwnaeth PSA nifer o awgrymiadau i wella ansawdd ymchwiliadau, paratoi achosion a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys sicrhau cytundeb o ran penderfyniadau panel a phenderfyniadau dileu gwirfoddol.

19 Mae gennym gyfreithwyr arbenigol ym mhob tîm sy'n darparu cyngor ac arweiniad i ymchwilwyr. Rydym wedi rhoi hyfforddiant gloywi i staff ar gynnal ymchwiliadau. Rydym wedi atgyfnerthu ein fframweithiau sicrhau ansawdd i gynnwys asesiad o achosion dileu gwirfoddol a chytundeb o ran penderfyniadau panel. Hefyd, ym mis Mai 2017, byddwn yn cynnal cyfres o weithdai i staff yn cwmpasu adborth a dysgu PSA.

**Amseroldeb achosion addasrwydd i ymarfer**

20 Hon oedd y safon na lwyddwyd i'w chyrraedd a chododd PSA bryderon am amseroldeb hynt achosion, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ymchwiliadau a gohirio gwrandawiadau. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y cynnydd mewn llwyth achos hen.

21 Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ddelio ag achosion mewn modd amserol ac yn arbennig ymdrin â'r achosion hŷn. Manylir ar ein perfformiad cyfredol o ran amseroldeb yn yr adroddiad ar berfformiad i'r Cyngor, sydd mewn rhan arall o'r agenda ar gyfer y cyfarfod hwn.

22 **Argymhelliad: Gofynnir i'r Cyngor nodi hynt y cynllun gweithredu mewn ymateb i'r dysgu a nodwyd gan PSA yn adroddiad adolygu perfformiad 2015–2016.**

**Goblygiadau amddiffyn y cyhoedd:**

23 Drwy gymryd camau priodol i ymateb i ddysgu yn adroddiad PSA gallwn amddiffyn y cyhoedd yn fwy drwy well rheoleiddio.

**Goblygiadau o ran adnoddau:**

24 Gwneir y newidiadau angenrheidiol o adnoddau presennol.

| | | |
|---|---|---|
| **Goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth:** | 25 | Heb nodi dim. |
| **Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** | 26 | Rydym yn ymrwymedig i ymgysylltu'n adeiladol â PSA ac achub ar bob cyfle i wella o'r adborth a gawn. |
| **Goblygiadau o ran risg:** | 27 | Gallai methiant i reoli newid a chyflawni'r gwelliant angenrheidiol arwain at ganlyniad negyddol wrth adolygu perfformiad ac yn deillio o hynny mae risgiau i enw da'r NMC. |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | 28 | Heb nodi dim. |

Eitem 13
NMC/17/48
24 Mai 2017

# Y Cyngor

## Adroddiad monitro ariannol tan 31 Mawrth 2017

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | I'w drafod. |
| **Mater:** | Gwybodaeth perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017. |
| **Swyddogaeth reoleiddio graidd:** | Swyddogaethau cefnogol. |
| **Blaenoriaethau strategol:** | Blaenoriaeth strategol 4: Sefydliad effeithiol. |
| **Angen penderfyniad:** | Na. |
| **Atodiadau:** | Mae'r atodiadau canlynol ynghlwm wrth y papur hwn:<br>• Atodiad 1: Canlyniadau ariannol cryno Mawrth 2017 (heb eu harchwilio).<br>• Atodiad 2: Sefyllfa'r fantolen gan gynnwys daliadau arian parod (heb ei harchwilio). |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Os hoffech gael eglurhad ynghylch unrhyw beth yn y papur neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r awdur neu'r cyfarwyddwr a enwir isod. |

Awdur: Richard Wilkinson
Ffôn: 020 7681 5172
Richard.Wilkinson@nmc-uk.org

Cyfarwyddwr: Adam Broome
Ffôn: 020 7681 5964
Adam.Broome@nmc-uk.org

**Cyd-destun:**

1. Cyflwynir adroddiad monitro ariannol i'r Cyngor ym mhob cyfarfod.

2. Mae'r NMC wedi bod yn symud o sefyllfa o ansicrwydd ariannol i un fwy sefydlog. Cynhelir y cynnydd hwn.

3. Bydd mwy o sefydlogrwydd ariannol yn ein galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau fel rheoleiddiwr dynamig yn unol â Strategaeth yr NMC, tra hefyd yn cynnig gwerth ardderchog i'r sawl sy'n cofrestru â ni. Bydd hefyd yn galluogi'r NMC i gefnogi'r rhaglen drawsnewid gyda'r nod o wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ymhellach.

**Trafodaeth:** **Canlyniadau'r flwyddyn gyfan**

**Darlun cyffredinol**

4. Mae'r adroddiad hwn yn gyfystyr â'r adroddiad monitro terfynol ar gyfer 2016–2017 gyda'r holl ffigurau bellach yn destun archwiliad. Mae'r adroddiad hwn yn cymharu'r sefyllfa derfynol hon â'r rhagamcanion a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth 2017.

5. Mae incwm yn uwch na'r hyn a gyllidebwyd ynghyd â refeniw a gwariant cyfalaf. Y gorwariant net terfynol yn erbyn y gyllideb yw £1.1m ar ddiwedd y flwyddyn sy'n adlewyrchu'r hyn a ragamcanwyd i'r Cyngor ym mis Mawrth. Mae hyn yn bennaf oherwydd gwariant uwch na'r gyllideb o fewn y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer, Arloesi Technoleg a Busnes a'r gyfarwyddiaeth Gorfforaethol. Manylir ymhellach ar amrywiadau isod ac yn **atodiad 1**.

6. Yn ogystal, mae'r adroddiad bellach yn adlewyrchu'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y cynllun Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio a gafwyd ym mis Mawrth 2017 fel yr amlinellir isod.

**Incwm**

7. Yn £86.1 miliwn, mae incwm yn £1.2 miliwn, neu 1%, uwchlaw'r hyn y cynlluniwyd ar ei gyfer yn y gyllideb. Mae hyn oherwydd incwm ffioedd uwch na'r disgwyl, cynnal mwy o asesiadau cymhwysedd na'r disgwyl o fewn yr UE a thramor, a bellach adlewyrchu'r arian sy'n ddyledus i ni gan yr Adran Iechyd am y gwaith Nyrsys Cyswllt a gwblhawyd ar ddiwedd y flwyddyn.

**Gwariant refeniw**

8. Mae gwariant refeniw cyffredinol yn £2.2 miliwn neu 3% uwchlaw'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd sawl achos o dan a gorwario:

   8.1. Mae Swyddfa'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr (OCCE) £0.4 miliwn islaw'r gyllideb a £0.1 miliwn islaw rhagamcan alldro

terfynol y Cyngor ym mis Mawrth.

8.2. Mae'r gyfarwyddiaeth Cofrestru ac Ailddilysu £0.1 miliwn islaw'r gyllideb a £0.2 miliwn islaw rhagamcan y Cyngor ym mis Mawrth, yn sgil arbedion a wnaed drwy ddefnyddio llai o adnoddau dros dro yn ystod mis Mawrth 2017 na'r disgwyl.

8.3. Mae Addasrwydd i Ymarfer £2.4 miliwn uwchlaw'r gyllideb a £0.2 miliwn uwchlaw rhagamcan y Cyngor ym mis Mawrth. Mae'r gorwariant yn ymwneud yn fras â chynnydd sylweddol yn nifer y canlyniadau achos a gyflawnwyd o gymharu â'r llynedd. Cyflawnwyd hyn wrth leihau cost gyfartalog pob gwrandawiad yn ystod y flwyddyn o £25,000 ym mis Mawrth 2016 i £18,000 ym mis Mawrth 2017. Mae pedwar prif ffactor yn gyfrifol am y gorwariant:

8.3.1. costau fesul gwrandawiad yn cael eu cyllidebu am lai na'r gyfradd redeg wirioneddol. Addaswyd hyn yn y rhagamcan cyn y pwynt canol blwyddyn, fel y nodwyd mewn Adroddiadau Monitro Ariannol blaenorol;

8.3.2. mwy o ddiwrnodau gwrandawiadau yn Ch3 a Ch4 er mwyn gwneud iawn am y diffyg canlyniadau gwrandawiadau yn Ch1 a Ch2;

8.3.3. oedi o dri mis wrth weithredu Recordio Sain Digidol ac felly gyflawni arbedion effeithlonrwydd a gyllidebwyd;

8.3.4. costau teithio a llety uwch na'r disgwyl. Mae hyn yn rhannol oherwydd nifer yr hawliadau uwch na'r disgwyl.

8.4. Mae'r gyfarwyddiaeth Safonau Addysg a Pholisi £0.6 miliwn islaw'r gyllideb a £0.1 miliwn islaw rhagamcan y Cyngor ym mis Mawrth, yn bennaf oherwydd recriwtio arafach na'r disgwyl i'r rhaglen addysg yn chwarter un a dau. Defnyddiwyd adnoddau allanol er mwyn sicrhau bod cynnydd tuag at gerrig milltir allweddol yn parhau o fewn y rhaglen; felly, nid yw hyn wedi cael effaith negyddol ar berfformiad na chyflawni'r rhaglen.

8.5. Mae Arloesi Technoleg a Busnes £0.7 miliwn dros y gyllideb, ac yn unol â rhagamcan y Cyngor ym mis Mawrth, yn sgil gwario £0.5 miliwn yn fwy ar staff a £0.2 miliwn yn fwy ar drwyddedau meddalwedd na'r disgwyl. Mae hyn oherwydd cynyddu capasiti o fewn yr adran, drwy ddefnyddio mwy o gontractwyr allanol, er mwyn cyflymu'r broses o gwblhau gwaith ar systemau craidd a phrosiectau allweddol fel Adran 60, trosi'r ganolfan ddata a thaliadau graddol.

8.6. Mae gwariant Trawsnewid yn £0.1 miliwn, neu 2%, uwchlaw'r gyllideb a rhagamcan y Cyngor ym mis Mawrth.

8.7. Mae gwariant y gyfarwyddiaeth Adnoddau £1.4 miliwn islaw'r

gyllideb, a £0.1 miliwn uwchlaw rhagamcan diwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd arbed £0.4 miliwn drwy gaffael llety dros dro rhatach na'r disgwyl a gwario £0.8 miliwn yn llai ar waith adferol ar stadau'r NMC na'r disgwyl. Rhoddwyd cyfrif am gynllun diwygiedig ar gyfer gwaith adferol yn ymwneud â blynyddoedd i ddod yng nghyllideb 2017–2018.

8.8. Mae gwariant Corfforaethol £1.4 miliwn uwchlaw'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu:

8.8.1. dibrisiant £0.5 miliwn yn uwch na'r gyllideb o ran meddalwedd yr NMC sy'n dilyn adolygiad o brosiectau a gwblhawyd yn 2015–2016, a nododd fod nifer uwch o asedau wedi'u creu a bod angen eu dibrisio.

8.8.2. £0.6 miliwn yn ymwneud â gwariant ar waith ar Nyrsys Cyswllt. Tybiodd rhagamcan y Cyngor ym mis Mawrth fod y gost a'r incwm yn ymwneud â Nyrsys Cyswllt o fewn y maes Corfforaethol, ond mae'r ffigurau hyn bellach wedi'u rhannu rhwng y llinell incwm a'r llinell Corfforaethol.

**Cyfalaf**

9. Mae gwariant Cyfalaf £0.1 miliwn uwchlaw'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn deillio o'r ffaith i brosiectau cyfalaf TG gael eu cyflawni yn gynt na phryd a bod cyfran uwch o waith prosiect na'r disgwyl wedi bod yn gyfalaf ei natur yn ystod y flwyddyn.

10. Mae'r gorwariant o £0.6 miliwn ar brosiectau cyfalaf TG wedi'i wrthbwyso'n rhannol drwy beidio â gwario darpariaeth gyfalaf a gyllidebwyd o £0.5 miliwn ar waith yn 23 Portland Place.

**Addasiadau actiwaraidd pensiwn diwedd y flwyddyn**

11. Yn atodiad 1 ceir yr addasiadau actiwaraidd diweddaraf yn ymwneud â'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Ni fyddai'r rhain wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn y gyllideb gan mai dim ond actiwariaid allanol annibynnol sy'n eu cyflawni a'u llunio'n derfynol yn achlysurol. Mae'r prisiadau actiwaraidd yn amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn, nawr ac yn y dyfodol, ac, ynghyd â thaliadau i mewn ac allan o'r gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn, yn arwain at addasiadau i'n cyfrif incwm a gwariant a lefelau o gronfeydd wrth gefn am ddim.

12. Mae'r cyfrif incwm a gwariant yn adlewyrchu'r prisiad actiwaraidd diweddaraf ar 31 Mawrth 2017, a baratowyd ar gyfer cyfrifon blynyddol yr NMC. Dangosir effaith net y prisiad hwn fel un llinell ("addasiad actiwaraidd pensiwn diwedd y flwyddyn") yn **atodiad 1** sef cost net o £0.6 miliwn. Mae'r addasiad pensiwn actiwaraidd hwn yn gostwng y gwarged net o £0.7 miliwn ar wariant gweithredu arferol a ddangosir yn atodiad 1 i £62,000.

13. Mae hyn hefyd yn effeithio ar gronfeydd wrth gefn am ddim a gyfrifwyd ar sail actiwaraidd diwedd blwyddyn yn atodiad 2. Mae'r rhain bellach yn £19.4 miliwn o gymharu â £21.5 miliwn a gyllidebwyd.

14. Mae dangosyddion y fantolen yn atodiad 2 hefyd yn dangos cronfeydd wrth gefn am ddim yn seiliedig ar "sail ymrwymiad arian parod". Mae hyn yn adlewyrchu ein cyfraniadau arian parod cytûn yn y dyfodol i'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Mae hyn bellach wedi'i ddiwygio yn dilyn ailbrisiad teirblwydd y cynllun pensiwn ei hun ar 31 Mawrth 2016. Mae hyn yn arwain at gronfeydd wrth gefn am ddim o £20.6 miliwn ar 31 Mawrth 2017.

15. Tra dangosir yr addasiadau actiwaraidd yn atodiadau 1 a 2 am y tro cyntaf, gan mai dim ond wedi'u llunio'n derfynol y maent, fe'u rhagwelwyd wrth asesu'r cronfeydd wrth gefn am ddim tebygol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr achos busnes trawsnewid yng Nghyngor mis Mawrth.

**Arian Parod**

16. Mae arian parod yn cyd-fynd â'r gyllideb yn fras. Yn y cyfnod hyd at fis Mawrth 2017, gan ddechrau ym mis Mehefin 2016, roedd 54,234 (7.9%) o'r rheini a gofrestrodd wedi dewis taliadau graddol. Felly, mae'r effaith ar lif arian parod hyd yn hyn yn gyfyngedig, ond parheir i'w monitro ynghyd â nifer y rheini sy'n dewis talu bob chwarter.

17. Nodir daliadau arian parod o £82.3 miliwn yn **atodiad 2** ynghyd â chronfeydd wrth gefn am ddim a gofnodir ar wahân fel rhan o DPA4. Mae daliadau arian parod yn bodloni gofyniad y strategaeth fuddsoddi gytûn na ddylai mwy na 40% o arian parod gael ei gadw mewn un sefydliad.

18. Cedwir cronfeydd yr NMC yng nghyfrifon adneuo llog sefydlog pedwar o fanciau stryd fawr y DU, a fydd yn cynyddu i bump ym mis Ebrill 2017. Y refeniw a gynhyrchwyd o'r buddsoddiadau yn 2016–2017 oedd £0.59 miliwn.

**Arbedion effeithlonrwydd 2016-2017**

19. Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2016 cytunodd y Cyngor mai prin oedd y cyfleoedd i gyflawni targed ymestynnol o 5 y cant o arbedion effeithlonrwydd yn sgil gwaith trawsnewid sydd angen ffocws llawn. Yn dilyn hynny cytunodd y Cyngor, yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2016, na fyddai'r ymrwymiad cynllun corfforaethol hwn yn cael ei gynnwys wrth adrodd yn ail hanner y flwyddyn.

20. Hefyd, gwnaethom gyflawni arbedion effeithlonrwydd a osodwyd gennym yn rhannol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Ni wnaethom gyflawni'r holl arbedion effeithlonrwydd ac fel y cyfryw mae hyn wedi arwain at orwariant.

**Arbedion effeithlonrwydd 2017-2018**

21. Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu dull yr NMC o gyflawni a dangos arbedion effeithlonrwydd yn 2017-2018 a thu hwnt.

22. Wrth wraidd hyn mae'r rhaglen drawsnewid a fydd yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd sylweddol, fel y nodir yn yr achos busnes, dros gyfnod y rhaglen.

23. Hefyd, fel rhan o'r broses gynllunio a chyllidebu, rydym wedi mynd ati i fesur arbedion effeithlonrwydd mewn ffordd fwy systematig a chadarn. Mae cyfarwyddiaethau wedi nodi dangosyddion perfformiad cyfarwyddiaeth a fydd yn helpu i lywio perfformiad effeithlon. Bydd y mesurau'n cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion priodol, er enghraifft cost uned gweithgarwch craidd.

**Goblygiadau amddiffyn y cyhoedd:**

24. Drwy fonitro canlyniadau ariannol a rhagamcanion, gall yr NMC sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau i amddiffyn y cyhoedd yn barhaus.

**Goblygiadau o ran adnoddau:**

25. Trafodir dangosyddion ariannol allweddol ar gyfer lefelau presennol a rhagamcanol o ddefnyddio adnoddau yn y papur hwn.

**Goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth:**

26. Dim.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid:**

27. Na.

**Goblygiadau o ran risg:**

28. Nodir risgiau mewn perthynas â rhagamcanu ac adnoddau ariannol mewn cofrestri risg cyfarwyddiaeth a chorfforaethol.

**Goblygiadau cyfreithiol:**

29. Na.

Eitem 13: **Atodiad 1**
NMC/17/48
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Welsh Translation of text in tables at Annexe 1 and Annexe 2

## Annexe 1

| **Actual, budget & forecast** | **Gwirioneddol, cyllideb a rhagamcanol 2016-2017** |
|---|---|
| **INCOME...** | **INCWM A GWARIANT (£'000au)** |
| **Full Year ... Feb** | **Blwyddyn Lawn v Rhagamcan Chwef 17** |
| **Full Year ... Budget** | **Blwyddyn Lawn v Cyllideb** |
| Actual | Gwirioneddol |
| Forecast | Rhagamcanol |
| Variance | Amrywiad |
| Budget | Cyllideb |
| % vs budget | % vs cyllideb |
| **Total Income** | **Cyfanswm Incwm** |
| OCCE | OCCE |
| Registration ... | Cofrestru ac Ailddilysu |
| Fitness ... | Addasrwydd i Ymarfer |
| Education ... | Safonau a Pholisi Addysg |
| Technology ... | Arloesi Technoleg a Busnes |
| Transformation | Trawsnewid |
| Resources | Adnoddau |
| Corporate | Corfforaethol (gweler nodyn 1) |
| **Total Expenditure** | **Cyfanswm Gwariant** |
| **Income less ...** | **Incwm llai Gwariant (cyn addasiad pensiwn)** |
| Less year end | Llai addasiad actiwaraidd pensiwn diwedd blwyddyn |
| **Income less ...** | **Incwm llai Gwariant (ar ôl addasiad pensiwn)** |
| Estates | Stadau |
| **Capital** | **Cyfalaf** |
| 1. Corporate ... | Cyllideb gyfredol gorfforaethol yn cynnwys dibrisiant ...; Lefi Awdurdod Safonau Proffesiynol ... |

| **Staff v non-staff** | **Gwariant staff v unigolion nad ydynt yn staff** |
|---|---|
| Staff Salaries | Cyflogau Staff a gwariant cysylltiedig |
| Non staff | Gwariant nad yw'n gysylltiedig â staff |
| | |
| **Colour Key:** | **Allwedd Lliw:** |
| | **Yn unol â'r gyllideb neu'n ffafriol iddi** |
| | **Hyd at 5% yn andwyol i'r gyllideb** |
| | **Mwy na 5% yn andwyol i'r gyllideb** |

Eitem 13: **Atodiad 1**
NMC/17/48
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

**Actual, budget & forecast 2016-2017**
£000

| INCOME AND EXPENDITURE (£'000s) | Full Year v Feb 17 Forecast | | | | Full Year v Budget | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2016/2017** | Actual | Forecast | Variance | % vs budget | Actual | Budget | Variance | % vs budget |
| **Total Income** | **86,078** | **85,500** | **578** | **1%** | **86,078** | **84,875** | **1,203** | **1%** |
| OCCE | 3,587 | 3,694 | 107 | **3%** | 3,587 | 3,999 | 412 | **10%** |
| Registration & Revalidation | 6,089 | 6,262 | 174 | **3%** | 6,089 | 6,145 | 56 | **1%** |
| Fitness to Practise | 41,475 | 41,268 | (208) | **(1%)** | 41,475 | 39,051 | (2,424) | **(6%)** |
| Education Standards & Policy | 4,146 | 4,285 | 139 | **3%** | 4,146 | 4,697 | 551 | **12%** |
| Technology Business Innovation | 9,737 | 9,744 | 6 | **0%** | 9,737 | 9,005 | (733) | **(8%)** |
| Transformation | 2,905 | 2,851 | (54) | **(2%)** | 2,905 | 2,849 | (56) | **(2%)** |
| Resources | 11,049 | 10,909 | (140) | **(1%)** | 11,049 | 12,464 | 1,415 | **11%** |
| Corporate (see note 1) | 6,410 | 5,729 | (680) | **(12%)** | 6,410 | 5,014 | (1,396) | **(28%)** |
| **Total Expenditure** | **85,398** | **84,741** | **(656)** | **(1%)** | **85,398** | **83,223** | **(2,175)** | **(3%)** |
| **Income less Expenditure (before pension adjustment)** | **681** | **759** | **(79)** | **(10%)** | **681** | **1,652** | **(971)** | **(59%)** |
| Less year end pension actuarial adjustment | 619 | 1,056 | 437 | **41%** | 619 | 1,056 | 437 | **41%** |
| **Income less Expenditure (after pension adjustment)** | **62** | **(297)** | **358** | **(121%)** | **62** | **596** | **(534)** | **(90%)** |
| Technology Business Innovation | **2,329** | **2,425** | **96** | **4%** | **2,329** | **1,750** | **(579)** | **(33%)** |
| Estates | **0** | **0** | **0** | **N/A** | **0** | **500** | **500** | **100%** |
| **Capital** | **2,329** | **2,425** | **96** | **4%** | **2,329** | **2,250** | **(79)** | **(4%)** |

1. Corporate current budget includes depreciation (£3,214k); PSA levy (£1,743k)

**Staff v non-staff expenditure**

| | Full Year v Feb 17 Forecast | | | | Full Year v Budget | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2016/2017** | Actual | Forecast | Variance | % vs budget | Actual | Budget | Variance | % vs budget |
| Staff Salaries and related expenditure | 39,502 | 39,770 | 268 | **1%** | 39,502 | 39,945 | 442 | **1%** |
| Non staff expenditure | 45,895 | 44,971 | (924) | **(2%)** | 45,895 | 43,278 | (2,617) | **(6%)** |
| **Total Expenditure** | **85,398** | **84,741** | **(656)** | **(1%)** | **85,398** | **83,223** | **(2,175)** | **(3%)** |

**Colour Key:**
**In line with or favourable to budget**
**Up to 5% adverse to budget**
**More than 5% adverse to budget**

**Annexe 2**

| **BALANCE SHEET** | **DANGOSYDDION MANTOLEN** |
|---|---|
| **Available free reserves** | **Cronfeydd wrth gefn am ddim sydd ar gael** |
| **Net assets** | **Asedau net** |
| **less: fixed assets** | **llai: asedau sefydlog** |
| **Total free ...** | **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn am ddim cyn diffyg pensiwn** |
| **Available ...** | **Cronfeydd wrth gefn am ddim sydd ar gael (sail actiwaraidd ddiweddaraf)** |
| **less: Pension deficit ...** | **llai: Diffyg Pensiwn (sail ymrwymiad arian parod)** |
| **Available ...** | **Cronfeydd wrth gefn am ddim sydd ar gael (sail ymrwymiad arian parod)** |

| **Cash summary** | **Crynodeb arian parod** |
|---|---|
| **Mar 2017** | **Maw 2017** |
| Less than 12 months ... | Llai na 12 mis o adneuon<br>**Cyfanswm Buddsoddiadau** |
| **Current Account** | **Cyfrif Cyfredol** |
| **Total Cash ...** | **Cyfanswm Arian Parod**<br>**% Rhaniad** |

Eitem 13: **Atodiad 2**
NMC/17/48
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

**Actual, budget & forecast 2016-2017**

**BALANCE SHEET INDICATORS**

| | Available free reserves | Year End v Feb 17 Forecast Actual | Forecast | Variance | % vs budget | Year End v Budget Actual | Budget | Variance | % vs budget |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Net assets | 53,363 | 53,492 | (128) | (0%) | 53,363 | 55,388 | (2,024) | (4%) |
| B | less: Fixed assets | 21,745 | 21,857 | (112) | (1%) | 21,745 | 22,235 | (490) | (2%) |
| C = A - B | Total free reserves before pensions deficit | 31,618 | 31,635 | (17) | (0%) | 31,618 | 33,153 | (1,535) | (5%) |
| D | less: Pension deficit (latest actuarial basis) | 12,188 | 11,606 | (582) | (5%) | 12,188 | 11,606 | (582) | (5%) |
| E = C - D | **Available free reserves (latest actuarial basis)** | **19,430** | **20,028** | (598) | (3%) | **19,430** | **21,546** | (2,116) | (10%) |
| F | less: Pension deficit (cash committed basis) | 10,955 | 6,743 | (4,213) | (62%) | 10,955 | 6,743 | (4,213) | (62%) |
| G = C - F | **Available free reserves (cash committed basis)** | **20,663** | **24,892** | (4,230) | (17%) | **20,663** | **26,410** | (5,748) | (22%) |

| Cash summary | Mar 2017 | Lloyds | Barclays | HSBC |
|---|---|---|---|---|
| Less than 12 month deposits | 59,653 | 18,082 | 29,570 | 12,000 |
| **Total Investments** | **59,653** | **18,082** | **29,570** | **12,000** |
| **Current Account** | 22,597 | 0 | 0 | 22,597 |
| **Total Cash** | **82,250** | **18,082** | **29,570** | **34,597** |
| % Split | | 22% | 36% | 42% |

**Colour Key:**
- In line with or favourable to budget
- Up to 5% adverse to budget
- More than 5% adverse to budget

Eitem 14
NMC/17/49
24 Mai 2017

# Y Cyngor

## Rheolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | I'w benderfynu. |
| **Mater:** | Gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y diweddariadau i Reolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor. |
| **Swyddogaeth reoleiddio graidd:** | Swyddogaethau cefnogol. |
| **Blaenoriaeth strategol:** | Blaenoriaeth strategol 4: Sefydliad effeithiol. |
| **Penderfyniad gofynnol:** | Gofynnir i'r Cyngor gytuno i fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo diwygiedig yn Atodiad 1. |
| **Atodiad:** | Mae'r atodiad canlynol ynghlwm wrth y papur hwn:<br>• Atodiad 1: Rheolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo diwygiedig. |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Os hoffech gael eglurhad ynghylch unrhyw beth yn y papur neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r awdur neu'r cyfarwyddwr a enwir isod. |

Ysgrifennydd: Fionnuala Gill
Ffôn: 020 7681 5842
Fionnuala.Gill@nmc-uk.org

**Cyd-destun:**

1 Cytunodd y Cyngor ar Reolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyo cyfredol yr NMC ym mis Gorffennaf 2013, a gwnaed mân ddiwygiadau ym mis Hydref 2015 a mis Tachwedd 2015.

2 Bellach mae angen diweddariadau pellach er mwyn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol diweddar (a) yn dileu'r gofyniad i'r Cyngor gael Pwyllgor Bydwreigiaeth statudol; a (b) yn diwygio'r Pwyllgorau Ymarfer statudol (Addasrwydd i Ymarfer). Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i wneud rhai mân newidiadau pellach i'r Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo.

**Ffactorau sy'n berthnasol i'r pedair gwlad:**

3 Nid oes unrhyw ffactorau yn berthnasol i'r papur hwn.

**Trafodaeth:**

4 Mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2013. Ar y pryd, gwnaed gwaith ymchwil helaeth er mwyn sicrhau bod y dull gweithredu a roddwyd ar waith yn mabwysiadu arfer gorau a'r hyn a ddysgwyd gan gyrff cymharol eraill.

5 Yn gyffredinol, mae'r Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo wedi bod yn effeithiol wrth alluogi'r Cyngor i gynnal ei fusnes yn effeithlon ac yn effeithiol ac maent wedi gweithredu'n llwyddiannus. Bellach mae angen rhai diwygiadau fel y trafodir isod ac a amlygir mewn testun coch (er mwyn dangos y newidiadau) yn atodiad 1.

6 Prif ddiben y diwygiadau a gynigir yw adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol diweddar a ddiddymodd y Pwyllgor Bydwreigiaeth ac a newidiodd y Pwyllgorau Ymarfer statudol (Addasrwydd i Ymarfer).

7 Gwneir newid arall er mwyn nodi'n amlwg yn y Cynllun Dirprwyo y gofyniad i'r Cyngor gael ei hysbysu cyn gynted â phosibl am unrhyw faterion a allai beri problemau neu risgiau rheoleiddiol, strategol, cyfreithiol neu ariannol i'r Cyngor neu broblemau neu risgiau o ran enw da'r Cyngor (atodiad 1 paragraff 8). Mae hyn yn gydnaws ag arfer cyfredol.

8 Cynigir newidiadau bach eraill hefyd i'r Cynllun Dirprwyo er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd, er enghraifft, mewn perthynas â phrosesau ar gyfer recriwtio aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor i Bwyllgorau a mewn perthynas â maint y Bwrdd Penodiadau. Ar ôl cymeradwyo'r Rheoliadau Ariannol newydd ym mis Ionawr, ychwanegwyd y terfynau ar awdurdod i wario i'r Cynllun Dirprwyo er mwyn sicrhau ei fod yn gyflawn.

9 Mae'r Cyngor wedi codi ei rôl wrth benodi Cofrestryddion Cynorthwyol; aelodau'r Panel Addasrwydd i Ymarfer; ac Aseswyr cyfreithiol yn y gorffennol. Bwriedir cynnal adolygiad o'r trefniadau

presennol gyda'r nod o ystyried pa sicrwydd a chamau diogelu y byddai angen eu rhoi ar waith, pe na fyddai'r cyfrifoldebau hyn wedi'u neilltuo gan y Cyngor. Caiff safbwyntiau'r Cyngor eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn a chyflwynir cynigion yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2017.

**10 Argymhelliad: Gofynnir i'r Cyngor gytuno i fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo diwygiedig fel y'u nodir yn atodiad 1.**

**Goblygiadau o ran amddiffyn y cyhoedd:**

11 Adlewyrchir prif ddyletswydd statudol y Cyngor i amddiffyn y cyhoedd yn y Cynllun Dirprwyo.

**Goblygiadau o ran adnoddau:**

12 Dim.

**Goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth:**

13 Dim.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid:**

14 Dim.

**Goblygiadau o ran risg:**

15 Mae'r Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo yn elfen sylfaenol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor a dylid sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

**Goblygiadau cyfreithiol:**

16 Mae'r Rheolau Sefydlog yn cydymffurfio â phwerau a chyfrifoldebau'r Cyngor yn y Gorchymyn.

Eitem 14: **Atodiad 1**
NMC/17/49
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Rheolau Sefydlog

## Gwnaed gan y Cyngor o dan Erthygl 12, Atodlen 1 i Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001

## Rheolau Sefydlog yr NMC

Gwnaed gan y Cyngor o dan Erthygl 12, Atodlen 1 i Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001

*Cytunwyd Gorffennaf 2013*

*Diwygiwyd 8 Hydref 2015*

*Diwygiwyd 25 Tachwedd 2015*

# Cynnwys


1 Cymhwyso ... 5
2 Dehongli ... 5
3 Y Cyngor ... 6
3.1 Amcanion a Phwerau'r Cyngor a'r cynllun dirprwyo ... 6
3.2 Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor ... 6
3.3 Enwebu Dirprwy Gadeirydd ... 7
3.4 Ymddygiad ... 7
3.5 Addysg a hyfforddiant ... 8
3.6 Gwahardd aelodau'r Cyngor dros dro ... 8
4 Pwyllgorau'r Cyngor ... 8
4.1 Pwyllgorau Ymarfer ... 8
~~4.2 Y Pwyllgor Bydwreigiaeth~~ ... 9
4.3 Pwyllgorau Disgresiwn ... 9
5 Cyfarfodydd a gweithrediadau'r Cyngor a'i bwyllgorau ... 10
5.1 Cyfarfodydd ... 10
5.2 Hawl y cyhoedd i ddod i gyfarfodydd ... 11
5.3 Agenda a phapurau ategol ... 12
5.4 Cadeirio cyfarfodydd ... 12
5.5 Cworwm ... 12
5.6 Presenoldeb mewn cyfarfodydd ... 13
5.7 Y weithdrefn mewn cyfarfodydd ... 14
5.8 Gwrthdaro buddiannau ... 15
5.9 Cofnodion cyfarfodydd ... 15
5.10 Penderfyniadau drwy ohebiaeth ... 16
5.11 Camau gweithredu gan Gadeiryddion pwyllgorau ... 16
6 Darpariaethau cyffredinol ... 17
6.1 Cofrestr buddiannau ... 17
6.2 Lwfansau a threuliau ... 17
6.3 Prif Weithredwr a Chofrestrydd ... 17
6.4 Cyfarwyddwyr ... 17
6.5 Ysgrifennydd ... 18
6.6 Dirprwy Gofrestryddion a Chofrestryddion Cynorthwyol ... 18
6.7 Sêl Cyffredin ... 18
6.8 Cyfathrebu electronig ... 18
Atodiad 1: Cynllun Dirprwyo ... 19
Atodiad 2a: Cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ... 24
~~Atodiad 2b: Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Bydwreigiaeth~~ ... 27
Atodiad 2b~~2c~~ Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ... 28
Atodiad 2c~~2d~~: Cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Penodiadau ... 30
Atodiad 2d~~2e~~: Grŵp Craffu ar y Gyllideb: Cylch Gorchwyl ... 32

Atodiad 1: Awdurdod i wario ........................................................................................ 34

# Rheolau Sefydlog

## 1 Cymhwyso

1.1 Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ("NMC") yw'r rheoleiddiwr proffesiynol annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y Deyrnas Unedig. Sefydlwyd yr NMC gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (y "Gorchymyn”).

1.2 Gwneir y Rheolau Sefydlog hyn gan y Cyngor o dan Erthygl 12, Atodlen 1 i'r Gorchymyn ac maent yn weithredol o 25 Mawrth 2015 oni bai a hyd nes y cânt eu diddymu neu eu diwygio drwy benderfyniad gan y Cyngor. Ynghyd â darpariaethau'r Gorchymyn, ac unrhyw is-reoliadau, maent yn pennu'r gweithdrefnau sylfaenol i'w dilyn gan y Cyngor a'i bwyllgorau wrth gynnal eu busnes.

1.3 Ac eithrio Rheolau Sefydlog 4.1 a 6.1 nid yw'r Rheolau Sefydlog hyn yn gymwys i'r Pwyllgorau Ymarfer.

1.4 Gall y Cyngor, drwy benderfyniad, atal unrhyw Reol Sefydlog, ac eithrio rheolau a ragnodir gan y Gorchymyn neu unrhyw ddeddfwriaeth arall.

## 2 Dehongli

2.1 Oni nodir fel arall, yn y Rheolau Sefydlog hyn,

2.1.1 mae gan y termau a ddefnyddir yr un ystyr ag yn y Gorchymyn;

2.1.2 mae'r diffiniadau canlynol yn gymwys:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Fel sy'n ofynnol gan y cyd-destun, Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd pwyllgor, neu unrhyw unigolyn arall sy'n llywyddu yn un o gyfarfodydd y Cyngor neu bwyllgor. |
| Prif Weithredwr a Chofrestrydd | Yr unigolyn a benodir gan y Cyngor o dan Reol Sefydlog 6.3. |
| Gorchymyn Cyfansoddiad | Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) 2008 (fel y'i diwygiwyd). |
| Diwrnodau | Mae unrhyw gyfeiriad at ddiwrnodau bob amser yn cyfeirio at ddiwrnodau calendr. |
| Cyfarwyddwr | Unigolyn a benodir gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd o dan Reol Sefydlog 6.4. |

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Disgresiwn | Pwyllgor a sefydlir gan y Cyngor o dan Erthygl 3(12) o'r Gorchymyn. |
| Aelod o'r Panel | Unigolyn, nad yw wedi'i ddatgymhwyso o dan Reol Sefydlog 4.1.4, a benodir yn aelod neu Gadeirydd Pwyllgor Ymarfer yn unol â'r Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Pwyllgorau Statudol. |
| Aelod Partner | Unigolyn, nad yw'n aelod o'r Cyngor, a benodir ~~i'r Pwyllgor Bydwreigiaeth neu~~ i Bwyllgor Disgresiwn y Cyngor yn unol â'r Rheolau Sefydlog hyn. |
| Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Pwyllgorau Statudol | Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Pwyllgorau Bydwreigiaeth ac Ymarfer) (Cyfansoddiad) 2008 (fel y'u diwygiwyd). |
| Ysgrifennydd | Yr unigolyn a benodir gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd o dan Reol Sefydlog 6.5, neu'r unigolyn a enwebwyd ganddo. |

2.1.3 mae cyfeiriadau at unrhyw statud neu ddarpariaeth statudol yn cynnwys cyfeiriad at y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno fel y'i diwygiwyd, y'i haddaswyd neu y'i hailddeddfwyd o bryd i'w gilydd;

2.1.4 mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog ac mae geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;

2.1.5 mae geiriau ffurf wrywaidd yn cynnwys y ffurf fenywaidd ac mae geiriau ffurf fenywaidd yn cynnwys y ffurf wrywaidd.

2.2 Cadeirydd y Cyngor sy'n meddu ar yr awdurdod terfynol o ran dehongli'r Rheolau Sefydlog (gyda chyngor gan yr Ysgrifennydd).

# 3 Y Cyngor

## 3.1 Amcanion a Phwerau'r Cyngor a'r cynllun dirprwyo

3.1.1 Nodir amcanion a phwerau'r Cyngor yn y Gorchymyn.

3.1.2 Nodir y materion sydd wedi'u neilltuo i'r Cyngor, a'r cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd, yn y cynllun dirprwyo a fabwysiedir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd [Atodiad 1]. Nodir y cyfrifoldebau a ddirprwyir i bwyllgorau yn y cylch gorchwyl [Atodiad 2] a fabwysiedir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

## 3.2 Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor

3.2.1 Yn unol â'r Gorchymyn a'r Gorchymyn Cyfansoddiad,

(a) mae'r Cyngor yn cynnwys chwe aelod cofrestredig a chwe aelod lleyg. ~~y mae o leiaf un ohonynt yn byw neu'n gweithio'n llwyr yn~~ Rhaid i'r Cyngor gynnwys o leiaf un aelod o Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban sy'n byw neu'n gweithio'n llwyr neu'n bennaf yn y wlad honno;

(b) caiff y Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor eu penodi gan y Cyfrin Gyngor a'r Cyfrin Gyngor sy'n pennu telerau eu swyddi hefyd.

## 3.3 Enwebu Dirprwy Gadeirydd

3.3.1 Os bydd y Cadeirydd yn absennol am un cyfarfod, bydd Rheol Sefydlog 5.4 yn gymwys. Yn unol ag Erthygl 9 (2) o'r Gorchymyn Cyfansoddiad,

(a) os bydd y Cyngor wedi cael gwybod bod Cadeirydd y Cyngor yn debygol

(i) o fod yn absennol am fwy nag un o gyfarfodydd y Cyngor, neu

(ii) o fethu â bod ar gael i gyflawni dyletswyddau Cadeirydd am fwy nag un mis; neu

(b) os yw swydd y Cadeirydd yn wag

bydd y Cyngor yn cyfarfod cyn gynted â phosibl er mwyn enwebu aelod ("Dirprwy Gadeirydd") i wasanaethu fel Cadeirydd yn ystod y cyfnod o absenoldeb neu'r cyfnod pan na fydd y cadeirydd ar gael neu pan fydd y swydd yn wag.

3.3.2 Pennir yr enwebiad drwy etholiad fel a ganlyn:

(a) bydd yr aelodau sy'n bresennol yn enwebu un o'u plith nad yw'n bwriadu sefyll i gael ei enwebu yn Ddirprwy Gadeirydd i lywyddu'r cyfarfod hyd nes y pennir yr enwebiad;

(b) gall unrhyw aelod o'r Cyngor enwebu ei hun;

(c) os na chaiff mwy nag un aelod ei enwebu, bydd yr unigolyn hwnnw yn gwasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd;

(d) os caiff mwy nag un aelod ei enwebu, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn ethol drwy bleidlais un o'r enwebeion i wasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd.

3.3.3 Bydd swydd Dirprwy Gadeirydd a enwebwyd yn unol â Rheol Sefydlog 3.3 yn dirwyn i ben yn unol ag Erthygl 9 (3) o'r Gorchymyn Cyfansoddiad.

## 3.4 Ymddygiad

3.4.1 Mae'n ofynnol i aelodau'r Cyngor gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a fabwysiedir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

### 3.5 Addysg a hyfforddiant

3.5.1 Mae'n ofynnol i aelodau'r Cyngor gydymffurfio â'r polisïau sy'n llywodraethu'r broses o sefydlu, datblygu ac arfarnu aelodau a fabwysiedir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

### 3.6 Gwahardd aelodau'r Cyngor dros dro

3.6.1 Mae Erthygl 7 o'r Gorchymyn Cyfansoddiad yn nodi'r amgylchiadau lle y gall y Cyfrin Gyngor wahardd neu ddiddymu aelod o'i swydd.

3.6.2 Gall y Cyngor drwy benderfyniad wahardd aelod o'r Cyngor o'i swydd dros dro hyd nes y bydd y Cyfrin Gyngor wedi gwneud penderfyniad o ran p'un a ddylid gwahardd neu ddiddymu aelod o dan y Gorchymyn Cyfansoddiad.

3.6.3 Rhaid i'r Ysgrifennydd anfon unrhyw gynnig sy'n awgrymu y dylid gwahardd aelod o'r Cyngor dros dro at bob aelod, gan weithredu yn ôl cyfarwyddyd y Cadeirydd, a rhaid gwneud penderfyniad ar y cynnig hwnnw yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

3.6.4 Ar ôl cael cais ysgrifenedig gan o leiaf bedwar aelod o'r Cyngor, bydd yr Ysgrifennydd yn anfon unrhyw gynnig sy'n awgrymu y dylid gwahardd Cadeirydd y Cyngor am gyfnod dros dro at bob aelod. Gwneir penderfyniad ar y cynnig yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

3.6.5 Bydd unrhyw benderfyniad gan y Cyngor i wahardd aelod am gyfnod dros dro yn weithredol ar unwaith. Ni fydd gan unrhyw aelod a gaiff ei wahardd dros dro yr hawl i ddod i gyfarfodydd y Cyngor na'i bwyllgorau, i arfer unrhyw swyddogaethau aelod, nac i gymryd rhan fel arall ym musnes y Cyngor.

3.6.6 Os bydd aelod wedi'i wahardd dros dro, mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn ôl y Gorchymyn Cyfansoddiad, hysbysu'r Cyfrin Gyngor yn ysgrifenedig am y gwaharddiad dros dro cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

3.6.7 Os bydd y Cyfrin Gyngor yn penderfynu peidio â gwahardd neu ddiddymu'r aelod o'i swydd, mae'r Gorchymyn Cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddod â'r gwaharddiad dros dro i ben.

## 4 Pwyllgorau'r Cyngor

### 4.1 Pwyllgorau Ymarfer

4.1.1 Caiff penderfyniadau i benodi, diddymu a gwahardd Aelodau'r Panel eu rheoleiddio gan y Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Pwyllgorau Statudol.

4.1.2 Caiff gweithrediadau'r Pwyllgorau Ymarfer eu rheoleiddio gan Reolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) 2004 (fel y'u diwygiwyd).

4.1.3 O bryd i'w gilydd, gall y Cyngor (neu unigolyn neu gorff a awdurdodwyd gan y Cyngor) gyhoeddi:

(a) cyfarwyddiadau safonol i Bwyllgorau Ymarfer;

(b) cod ymddygiad i Aelodau'r Panel;

(c) polisïau sy'n llywodraethu'r broses o recriwtio a dethol, sefydlu a datblygu, arfarnu a rheoli perfformiad Aelodau'r Panel;

(d) polisïau ar gyfer ad-dalu treuliau a thalu lwfansau i Aelodau'r Panel.

4.1.4 Caiff unigolyn ei ddatgymhwyso rhag cael ei benodi'n Aelod o'r Panel os bydd yr unigolyn hwnnw ar unrhyw adeg yn ystod y pum mlynedd flaenorol wedi gwasanaethu fel aelod o'r Cyngor neu un o Bwyllgorau Disgresiwn y Cyngor neu, cyn 31 Mawrth 2017, fel Aelod Partner o'r Pwyllgor Bydwreigiaeth fel y'i sefydlwyd yn flaenorol ~~neu un o'r Pwyllgorau Disgresiwn ar unrhyw adeg yn ystod y pum mlynedd flaenorol~~.

## ~~4.2 Y Pwyllgor Bydwreigiaeth~~

~~4.2.1 Mae Erthygl 41 o'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol cael Pwyllgor Bydwreigiaeth, y mae ei gylch gwaith yn cynnwys cynghori'r Cyngor, ar gais y Cyngor neu fel arall, ar unrhyw faterion sy'n effeithio ar fydwreigiaeth.~~

~~4.2.2 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn, nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Bydwreigiaeth yn y cylch gorchwyl a gyhoeddir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd [Atodiad 2].~~

~~4.2.3 Ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer yn Rheol Sefydlog 5.7.8, ni all y Pwyllgor Bydwreigiaeth ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau heb awdurdod gan y Cyngor ymlaen llaw.~~

~~4.2.4 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Pwyllgorau Statudol, pennir cyfansoddiad y Pwyllgor Bydwreigiaeth gan y Cyngor.~~

~~4.2.5 Mae gan Gadeirydd y Cyngor awdurdod i arfer swyddogaethau'r Cyngor o dan y Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Pwyllgorau Statudol mewn perthynas â phenodi, diddymu a gwahardd y Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Bydwreigiaeth.~~

~~4.2.6 Caiff Aelodau Partner y Pwyllgor Bydwreigiaeth eu dethol ar sail sgiliau a phrofiad perthnasol gan banel dethol gan gynnwys Cadeirydd y pwyllgor a Chyfarwyddwr.~~

## 4.3 Pwyllgorau Disgresiwn

4.3.1 O dan Erthygl 3(12) o'r Gorchymyn, caiff y Cyngor sefydlu Pwyllgorau Disgresiwn mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau a dirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau iddynt, ac eithrio'r pŵer i wneud rheolau.

4.3.2 Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Disgresiwn yn y cylch gorchwyl a gyhoeddir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd [Atodiad 2].

4.3.3 Ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer yn Rheol Sefydlog 5.7.8, ni chaiff Pwyllgor Disgresiwn ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau heb awdurdod ymlaen llaw gan y Cyngor.

4.3.4 Caiff Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgorau Disgresiwn eu penodi gan Gadeirydd y Cyngor o blith aelodau'r Cyngor.

4.3.5 Y Cyngor fydd yn gyfrifol am wneud unrhyw benderfyniad i ategu aelodaeth Pwyllgor Disgresiwn drwy benodi Aelod Partner, ar gyngor y pwyllgor hwnnw.

4.3.6 Caiff Aelodau Partner eu dethol ar sail sgiliau a phrofiad perthnasol gan banel dethol a benodir gan Gadeirydd y Cyngor ac a all gynnwys Cadeirydd y Cyngor. ~~gan gynnwys Cadeirydd y pwyllgor (neu Gadeirydd y Cyngor, lle y bwriedir dewis Aelod Partner i fod yn Gadeirydd pwyllgor) a Chyfarwyddwr.~~

4.3.7 Cadeirydd y Cyngor fydd yn pennu hyd cyfnod swydd pob Cadeirydd ac aelod o bwyllgor ac,

(a) yn achos aelod o'r Cyngor, ni all fod yn hwy na'r cyfnod o'r dyddiad y penodwyd yr unigolyn yn aelod o'r pwyllgor hyd at y dyddiad y disgwylir i gyfnod presennol aelodaeth yr unigolyn hwnnw o'r Cyngor ddirwyn i ben;

(b) yn achos Aelod Partner, ni all fod yn hwy na thair blynedd o'r dyddiad penodi, a gellir adnewyddu'r cyfnod unwaith.

4.3.8 Gall Cadeirydd y Cyngor wahardd neu ddiddymu Aelod Partner o'i swydd yn unol â'r un amodau ar gyfer gwahardd neu ddiddymu aelod o Bwyllgor Statudol o dan y Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Pwyllgorau Statudol.

# 5 Cyfarfodydd a gweithrediadau'r Cyngor a'i bwyllgorau

## 5.1 Cyfarfodydd

5.1.1 Fel arfer, bydd y Cyngor yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn, yn unol ag amserlen a lunnir gan yr Ysgrifennydd ac a gymeradwyir gan y Cyngor.

5.1.2 Bydd yr Ysgrifennydd yn trefnu cyfarfod arbennig o'r Cyngor cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael cais ysgrifenedig, gan nodi natur y busnes i'w drafod, gan:

(a) Cadeirydd y Cyngor;

(b) saith neu fwy o aelodau'r Cyngor; neu

(c) y Prif Weithredwr a Chofrestrydd.

5.1.3 Yn amodol ar unrhyw gyfarwyddyd cyffredinol gan y Cyngor o ran amlder cyfarfodydd, bydd pwyllgorau fel arfer yn cyfarfod yn unol â'r hyn y bydd yr aelodau yn ei benderfynu. Bydd yr Ysgrifennydd yn llunio amserlen cyfarfodydd i'w chymeradwyo gan bob pwyllgor.

5.1.4 Bydd yr Ysgrifennydd yn trefnu cyfarfod arbennig o bwyllgor cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael cais ysgrifenedig, gan nodi natur y busnes i'w drafod, gan Gadeirydd y pwyllgor.

## 5.2 Hawl y cyhoedd i ddod i gyfarfodydd

5.2.1 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i lywodraethu agored a thryloyw ac mae'n gweithredu yn unol â'r rhagdybiaeth y dylid cynnal ei fusnes yn gyhoeddus, oni fydd rheswm amlwg dros ei gynnal yn breifat.

5.2.2 Caniateir i aelodau'r cyhoedd ddod i gyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor. Caiff yr agenda a'r papurau ategol ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus eu cyhoeddi ar-lein cyn y cyfarfod.

5.2.3 Gall y Cadeirydd, yn ôl ei ddisgresiwn, ganiatáu amser yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus ar gyfer datganiadau neu gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd. Ni chaniateir i aelodau'r cyhoedd gymryd rhan mewn cyfarfodydd fel arall.

5.2.4 Gall y Cadeirydd, yn ôl ei ddisgresiwn, roi cyfarwyddyd i aelodau'r cyhoedd adael cyfarfod cyhoeddus, neu ran o gyfarfod cyhoeddus, o dan yr amgylchiadau canlynol:

(a) os bydd mater cyfrinachol yn codi yn ystod trafodaeth; neu

(b) os bydd yn ymddangos fel arall i'r Cadeirydd bod angen gwneud hynny er mwyn gallu cynnal cyfarfod effeithiol.

5.2.5 Bydd y Cadeirydd yn penderfynu pa fusnes y dylid ei drafod yn breifat. Mae'r eitemau busnes a gaiff eu hystyried yn breifat fel arfer yn cynnwys y canlynol, yn ddigyfyngiad:

(a) gwybodaeth sy'n gyfystyr â data personol neu sy'n cynnwys data personol;

(b) gwybodaeth a ddarparwyd i'r NMC yn gyfrinachol;

(c) paratoi dogfennau i'w cyhoeddi yn y dyfodol (oni fyddai o fudd i'r cyhoedd pe trafodwyd dogfennau drafft yn gyhoeddus);

(d) materion sy'n ymwneud â chydberthnasau rhwng yr NMC a'i gyflogeion;

(e) telerau tendr neu gontract, neu wariant yn unol â thendr neu gontract, i brynu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau neu gaffael neu waredu eiddo;

(f) unrhyw fater sy'n ymwneud ag achos cyfreithiol sy'n cael ei ystyried neu sy'n mynd rhagddo gan yr NMC neu yn erbyn yr NMC;

(g) unrhyw fater a fyddai'n atal yr NMC rhag cynnal ei fusnes yn effeithiol pe'i datgelwyd yn gyhoeddus, neu a fyddai'n debygol o wneud hynny.

5.2.6 Ni chaniateir i aelodau'r cyhoedd dynnu lluniau, trosglwyddo, gwneud recordiadau sain na recordiadau fideo o drafodion y Cyngor heb awdurdod gan y Cadeirydd ymlaen llaw. Gall unrhyw achos o fynd yn groes i'r Rheol Sefydlog hon arwain at gamau gweithredu gan y Cadeirydd o dan Reol Sefydlog 5.2.4.

5.2.7 Fel arfer, ni fydd cyfarfodydd pwyllgorau yn agored i'r cyhoedd.

## 5.3 Agenda a phapurau ategol

5.3.1 Dylai unrhyw aelod sy'n awyddus i ychwanegu eitem fusnes i'r agenda ar gyfer cyfarfod hysbysu'r Cadeirydd o leiaf 14 diwrnod cyn y cyfarfod.

5.3.2 Fel arfer, bydd papur ategol yn cyd-fynd â phob eitem fusnes.

5.3.3 Fel arfer, caiff yr agenda a'r papurau ategol ar gyfer cyfarfodydd arferol eu hanfon at aelodau o leiaf saith diwrnod cyn y cyfarfod.

5.3.4 Fel arfer, caiff yr agenda a'r papurau ategol ar gyfer cyfarfodydd arbennig eu hanfon at aelodau o leiaf dri diwrnod cyn y cyfarfod.

5.3.5 Dim ond gyda chaniatâd y Cadeirydd y gellir cyflwyno papurau mewn cyfarfod.

5.3.6 Ni fydd y ffaith nad yw unrhyw aelod wedi derbyn yr agenda a / neu'r papurau ategol ar gyfer cyfarfod yn golygu bod y cyfarfod hwnnw neu unrhyw fusnes a drafodir yn y cyfarfod yn annilys.

## 5.4 Cadeirio cyfarfodydd

5.4.1 Yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog 5.4.2 a 5.4.3, y Cadeirydd, os yw'n bresennol, fydd yn llywyddu ym mhob cyfarfod.

5.4.2 Os na fydd y Cadeirydd yn bresennol mewn cyfarfod, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn enwebu aelod o'u plith i lywyddu yn y cyfarfod hwnnw.

5.4.3 Os na fydd y Cadeirydd yn gallu llywyddu am fod achos perthnasol o wrthdaro buddiannau ganddo mewn perthynas ag eitem fusnes sy'n cael ei thrafod, bydd yr aelodau eraill sy'n bresennol yn enwebu aelod o'u plith i lywyddu tra y trafodir yr eitem fusnes honno.

## 5.5 Cworwm

5.5.1 Fel y diffinnir yn y Gorchymyn Cyfansoddiad, cworwm y Cyngor yw saith aelod.

~~5.5.2 Fel y diffinnir yn y Rheolau ar gyfer Cyfansoddiad Pwyllgorau Statudol, cworwm y Pwyllgor Bydwreigiaeth yw hanner cyfanswm nifer aelodau'r pwyllgor, ac un ychwanegol.~~

5.5.3 Cworwm y Pwyllgor Disgresiwn yw mwyafrif aelodau'r pwyllgor hwnnw.

5.5.4 Ni fydd busnes a drafodwyd cyn bod diffyg cworwm mewn cyfarfod yn annilys oherwydd y diffyg cworwm diweddarach.

5.5.5 Yn ystod cyfarfod

(a) os na cheir cworwm o fewn hanner awr o'r amser a bennwyd ar gyfer y cyfarfod, neu

(b) os ceir diffyg cworwm yn ystod y cyfarfod,

bydd y Cadeirydd yn datgan bod y cyfarfod wedi dirwyn i ben a chaiff y busnes sy'n weddill ei gario drosodd i'r cyfarfod nesaf.

## 5.6 Presenoldeb mewn cyfarfodydd

5.6.1 Yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, gellir cynnal cyfarfod yn llwyr neu'n rhannol drwy delegynadledda neu fideogynadledda. Ystyrir bod pob aelod sy'n cymryd rhan yn bresennol a chaiff ei gyfrif yn y cworwm.

5.6.2 Os bydd aelod

(a) yn cymryd rhan mewn llai na 75% o'r cyfarfodydd y disgwylir iddo ddod iddynt mewn unrhyw flwyddyn ariannol; neu

(b) os ystyrir nad yw aelod wedi gwneud cyfraniad digonol at waith y Cyngor,

caiff hyn ei ystyried fel rhan o'r broses arfarnu a gall ddarparu sail ar gyfer diswyddo'r aelod.

5.6.3 O dan amgylchiadau eithriadol, gall Cadeirydd y Cyngor ddyfarnu cyfnod o absenoldeb i aelod am gyfnod diffiniedig.

5.6.4 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 5.8,

(a) mae hawl gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd i ddod i unrhyw gyfarfod ac i siarad yn y cyfarfod hwnnw;

(b) mae hawl gan bob Cyfarwyddwr i ddod i unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor ac unrhyw gyfarfod pwyllgor y mae ei fusnes yn ymwneud â chylch gwaith gweithredol y Cyfarwyddwr hwnnw a, gyda chaniatâd y Cadeirydd, i siarad yn y cyfarfod hwnnw;

(c) mae hawl gan yr Ysgrifennydd i ddod i unrhyw gyfarfod a, gyda chaniatâd y Cadeirydd, i siarad yn y cyfarfod hwnnw.

5.6.5 Gall y Cadeirydd wahodd unrhyw unigolyn i ddod i gyfarfod cyfan neu ran o gyfarfod er mwyn siarad neu er mwyn cyflwyno adroddiad.

## 5.7 Y weithdrefn mewn cyfarfodydd

5.7.1 Bydd trefn busnes mewn cyfarfodydd yn dilyn yr agenda, oni cheir cyfarwyddyd fel arall gan y Cadeirydd, a all newid y drefn yn ôl ei ddisgresiwn ar unrhyw adeg.

5.7.2 Ni chaiff unrhyw fusnes ac eithrio'r busnes a gynhwyswyd ar yr agenda ei drafod mewn cyfarfod, ac eithrio busnes brys, y gellir ei drafod yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

5.7.3 Bydd y Cadeirydd yn:

(a) cadw trefn ac yn sicrhau y caiff pob aelod ddigon o gyfle i fynegi ei farn ar y materion a gaiff eu trafod;

(b) gwneud penderfyniadau o ran pob mater o drefn, gweithdrefn a pherthnasedd;

(c) gwneud penderfyniadau o ran ym mha drefn y dylai'r rheini sy'n bresennol siarad;

(d) gwneud penderfyniad o ran p'un a oes angen pleidlais a sut y dylid ei chynnal.

5.7.4 Fel arfer, ni chynhelir trafodaeth ar yr eitemau busnes a gyflwynir er gwybodaeth yn unig, oni cheir cyfarwyddyd fel arall gan y Cadeirydd. Caiff eitemau o'r fath eu nodi'n glir ar yr agenda. Dylai unrhyw aelod sy'n awyddus i drafod eitem a gyflwynwyd er gwybodaeth hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o leiaf ddeuddydd cyn y cyfarfod.

5.7.5 Fel arfer, gwneir penderfyniadau drwy gonsensws yn hytrach na phleidlais. Gwneir penderfyniadau drwy bleidlais o dan yr amgylchiadau canlynol:

(a) os bydd y Cadeirydd o'r farn na chaed consensws clir a bod cryn anghytundeb neu amheuon ynghylch cynnig;

(b) os bydd aelod yn gofyn am bleidlais;

(c) os daw'r Cadeirydd i'r casgliad, am unrhyw reswm arall, y dylid cynnal pleidlais.

5.7.6 Caiff unrhyw gynnig y cynhelir pleidlais yn ei gylch ei benderfynu drwy fwyafrif syml o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio. Bydd y Cadeirydd yn datgan p'un a wnaed penderfyniad ai peidio. Os bydd yr un nifer o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn y cynnig, bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw ychwanegol.

5.7.7 Fel arfer, dim ond canlyniadau rhifol pleidlais a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod, gan ddangos y nifer o blaid y cynnig a'r nifer yn erbyn y cynnig ac unrhyw ymataliadau. Gall unrhyw aelod ei gwneud yn ofynnol i'w bleidlais benodol gael ei chofnodi yn y cofnodion ar yr amod y bydd yn gofyn i'r Ysgrifennydd ar unwaith pan gaiff canlyniad y bleidlais ei ddatgan.

5.7.8 Gall y Cyngor neu bwyllgor benderfynu dirprwyo penderfyniadau ar eitemau ar yr agenda i'r Cadeirydd. Cofnodir unrhyw benderfyniad o'r fath yn y cofnodion.

5.7.9 Gall y Cyngor neu bwyllgor benderfynu gohirio penderfyniad ar eitem ar yr agenda. Cofnodir unrhyw achos o ohirio penderfyniad, ynghyd â'r rhesymau dros wneud hynny, yn y cofnodion.

## 5.8 Gwrthdaro buddiannau

5.8.1 Rhaid i unrhyw aelod sydd â buddiant personol, ariannol neu fuddiant arall mewn unrhyw eitem fusnes ar yr agenda ddatgan natur a graddau'r buddiant hwnnw yn llawn i'r cyfarfod.

5.8.2 Os bydd aelod yn datgan buddiant yn unol â Rheol Sefydlog 5.8.1, bydd y Cadeirydd yn penderfynu p'un a oes achos perthnasol o wrthdaro buddiannau ac, os felly, p'un a ddylai'r unigolyn hwnnw gymryd rhan yn y drafodaeth a'r penderfyniad ar y mater ac i ba raddau (os o gwbl).

5.8.3 Os bydd y Cadeirydd yn datgan buddiant yn unol â pharagraff 5.8.1, bydd yr aelodau sy'n weddill yn penderfynu p'un a oes achos perthnasol o wrthdaro buddiannau ac, os felly, p'un a ddylai'r Cadeirydd gymryd rhan yn y drafodaeth a'r penderfyniad ar y mater ac i ba raddau (os o gwbl).

5.8.4 Heb ystyried darpariaethau Rheol Sefydlog 5.5.5, lle na cheir cworwm mwyach o ganlyniad i benderfyniad o dan Reol Sefydlog 5.8.2 neu 5.8.3, caiff y drafodaeth ar yr eitem fusnes honno ei gohirio a bydd y cyfarfod yn symud ymlaen i'r eitem nesaf y ceir cworwm ar ei chyfer.

5.8.5 Rhaid i unrhyw un o gyflogeion yr NMC sy'n bresennol mewn cyfarfod ddatgan unrhyw fuddiannau yn yr un ffordd ag aelodau. Bydd y Cadeirydd yn penderfynu p'un a oes achos perthnasol o wrthdaro buddiannau ac, os felly, p'un a ddylai'r unigolyn hwnnw gymryd rhan yn y drafodaeth ar y mater ac i ba raddau (os o gwbl). Fel arfer, bydd yn ofynnol i gyflogai adael cyfarfod os bydd ei swydd yn cael ei thrafod.

## 5.9 Cofnodion cyfarfodydd

5.9.1 Bydd yr Ysgrifennydd yn cymryd cofnodion pob cyfarfod.

5.9.2 Bydd y cofnodion yn cynnwys:

(a) enwau'r canlynol:

(i) yr aelodau sy'n bresennol;

(ii) y swyddogion sy'n bresennol;

(iii) unrhyw aelodau y cafwyd ymddiheuriadau ganddynt.

(b) unrhyw ddatganiadau o fuddiant;

(c) unrhyw achos o ofyn i unrhyw aelod adael y cyfarfod oherwydd achos perthnasol o wrthdaro buddiannau.

5.9.3 Bydd y cofnodion yn cofnodi'r prif bwyntiau trafod a'r penderfyniadau yn y drefn y trafodir busnes yn y cyfarfod. Ni fydd y cofnodion yn priodoli sylwadau i aelodau penodol oni cheir cais penodol i wneud hynny gan yr aelod dan sylw neu'r Cadeirydd.

5.9.4 Ar ôl i'r Cadeirydd fwrw golwg drostynt, caiff y cofnodion drafft eu dosbarthu i bob aelod a'u cynnwys yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf er mwyn gallu eu cadarnhau fel cofnod cywir.

5.9.5 Unwaith y cânt eu cadarnhau fel cofnod cywir, caiff y cofnodion eu llofnodi gan y Cadeirydd a'u cadw gan yr Ysgrifennydd yn y llyfr cofnodion.

5.9.6 Caiff cofnodion cyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor eu cyhoeddi ar wefan yr NMC ar ôl iddynt gael eu cadarnhau.

5.9.7 Bydd pob pwyllgor yn cyflwyno adroddiad llawn a phrydlon i'r Cyngor ar ôl pob cyfarfod. Fel arfer, bydd cofnodion llawn cyfarfodydd pwyllgorau ar gael i unrhyw aelod o'r Cyngor drwy wneud cais i'r Ysgrifennydd.

## 5.10 Penderfyniadau drwy ohebiaeth

5.10.1 Gellir penderfynu ar unrhyw fater y gellir gwneud penderfyniad yn ei gylch mewn cyfarfod yn lle hynny drwy ohebiaeth drwy fwyafrif syml o'r aelodau sydd â hawl i bleidleisio arno.

5.10.2 Lle y bydd angen penderfyniad ar fater o bwys rhwng cyfarfodydd, ym marn y Cadeirydd, ac nad yw'n ymarferol trefnu cyfarfod arbennig, caiff dogfen yn egluro'r mater, ynghyd â chyfarwyddiadau ar gyfer ymateb, eu dosbarthu gan yr Ysgrifennydd er mwyn i aelodau wneud penderfyniad drwy ohebiaeth.

5.10.3 Bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu pob aelod o ganlyniad unrhyw benderfyniad drwy ohebiaeth a bydd yn ei gofnodi yn y llyfr cofnodion.

## 5.11 Camau gweithredu gan Gadeiryddion pwyllgorau

5.11.1 Mae gan Gadeirydd pwyllgor y pŵer i awdurdodi cam gweithredu ar faterion dibwys nad oes dadl yn eu cylch, neu faterion brys sy'n berthnasol i gyfrifoldebau'r pwyllgor sy'n codi rhwng cyfarfodydd. Bydd y Cadeirydd yn cymryd camau rhesymol i ymgynghori ag aelodau eraill y pwyllgor cyn gwneud hynny. Ymgynghorir ymlaen llaw â'r Ysgrifennydd a bydd yn cadw cofnod o unrhyw benderfyniadau er mwyn rhoi gwybod amdanynt yn y cyfarfod nesaf.

# 6 Darpariaethau cyffredinol

## 6.1 Cofrestr buddiannau

6.1.1 Ystyr 'buddiannau' yn y cyd-destun hwn yw pob buddiant, boed yn ariannol neu'n anariannol, a allai ddylanwadu ar yr unigolyn dan sylw wrth iddo gynnal busnes yr NMC, neu y gellid ystyried ei fod yn dylanwadu arno. Os na fydd yr unigolyn yn siŵr a yw buddiant yn ddigon perthnasol i'w ddatgan, dylid datgan y buddiant.

6.1.2 Mae'n ofynnol i'r canlynol gofnodi eu buddiannau bob blwyddyn ar y gofrestr buddiannau a sicrhau bod eu cofnod ar y gofrestr yn parhau'n gywir drwy hysbysu'r Ysgrifennydd neu unigolyn a awdurdodir gan yr Ysgrifennydd am newidiadau mewn modd amserol:

(a) aelodau'r Cyngor;

(b) Aelodau'r Panel;

(c) Aelodau Partner;

(d) y Prif Weithredwr a Chofrestrydd;

(e) y Cyfarwyddwyr a'r cyfarwyddwyr cynorthwyol;

(f) unrhyw arolygwyr, adolygwyr ac aseswyr sy'n gweithredu ar ran yr NMC.

6.1.3 Caiff cofnodion ar y gofrestr buddiannau eu cyhoeddi fel sy'n ofynnol gan y Gorchymyn.

## 6.2 Lwfansau a threuliau

6.2.1 Bydd y Cyngor yn pennu'r trefniadau ar gyfer ad-dalu treuliau a thalu lwfansau i ~~a~~Aelodau'r Cyngor ac Aelodau Partner~~, ac aelodau'r Pwyllgor Bydwreigiaeth~~.

## 6.3 Prif Weithredwr a Chofrestrydd

6.3.1 Bydd y Cyngor yn penodi Prif Weithredwr a Chofrestrydd i arwain materion a rheoli adnoddau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

6.3.2 Mae'r Cyngor (neu gorff a awdurdodir gan y Cyngor) yn gyfrifol am bennu cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd.

6.3.3 Er mwyn cynnal ei gyfrifoldebau'n effeithiol, gall y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ddirprwyo'r cyfryw faterion ag y gwêl yn briodol.

## 6.4 Cyfarwyddwyr

6.4.1 Gall y Prif Weithredwr benodi Cyfarwyddwyr i ymgymryd â'r cyfryw gyfrifoldebau ag a ddynodir ganddo.

6.4.2 Mae'r Cyngor (neu gorff a awdurdodir gan y Cyngor) yn gyfrifol am bennu cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr.

## 6.5 Ysgrifennydd

6.5.1 Bydd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn penodi aelod o staff i weithredu fel Ysgrifennydd i'r Cyngor a'i bwyllgorau.

## 6.6 Dirprwy Gofrestryddion a Chofrestryddion Cynorthwyol

6.6.1 Ar ôl enwebu Cofrestrydd, gall y Cyngor benodi aelod o staff yn Ddirprwy Gofrestrydd neu Gofrestrydd Cynorthwyol.

6.6.2 Gall y Cofrestrydd roi awdurdod ysgrifenedig i unrhyw unigolyn a benodir gan y Cyngor o dan Reol Sefydlog 6.6.1 weithredu ar ei ran mewn perthynas ag unrhyw fater.

6.6.3 Wrth benderfynu p'un a ddylid awdurdodi unigolyn o dan Reol Sefydlog 6.6.2, bydd y Cofrestrydd yn sicrhau (a) bod hyfforddiant, canllawiau a gweithdrefnau priodol ar gael er mwyn gallu cyflawni'r swyddogaethau dirprwyedig yn briodol; (b) y rhoddir ystyriaeth briodol i (i) dyrannu dyletswyddau, lle y bo'n briodol; (ii) achosion posibl o wrthdaro buddiannau.

## 6.7 Sêl Cyffredin

6.7.1 Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd (neu aelod o staff a benodir gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd) yn gyfrifol am gadw'r Sêl Cyffredin yn ddiogel.

6.7.2 Caiff y broses o osod y Sêl Cyffredin ei thystio,

(a) yn achos datganiadau o dan sêl, ac unrhyw ddosbarthiadau eraill o ddogfennau a ddynodir gan y Cyngor, gan lofnodion y Prif Weithredwr ac aelod arall o staff ag awdurdod dilys;

(b) yn achos pob dogfen arall y mae'n ofynnol ei gweithredu o dan sêl, gan lofnodion aelod o'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd (neu aelod arall o staff a awdurdodir yn arbennig neu'n gyffredinol gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd).

## 6.8 Cyfathrebu electronig

6.8.1 Gellir cofnodi a/neu anfon unrhyw hysbysiadau neu ddogfennau y mae'n ofynnol eu cyflwyno'n ysgrifenedig a/neu eu hanfon o dan y Rheolau Sefydlog hyn ar ffurf electronig.

# Atodiad 1: Cynllun Dirprwyo

## Y Cyngor

1 Yr NMC yw'r rheoleiddiwr proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU. Ei ddiben craidd yw diogelu cleifion a'r cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd mewn ffordd effeithiol a chymesur. Caiff yr NMC ei sefydlu gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ("Gorchymyn") sy'n nodi amcanion a dyletswyddau statudol y Cyngor, a chaiff ei lywodraethu'n unol â'r Gorchymyn hwnnw.

2 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC a'i aelodau yw ymddiriedolwyr yr elusen. Cylch gwaith y Cyngor yw (a) pennu cyfeiriad strategol ac amcanion corfforaethol yr NMC, yn unol â'i ddiben craidd; (b) sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a risg; (c) cynnal gonestrwydd wrth arfer swyddogaethau'r NMC a defnyddio cronfeydd, a chynnal atebolrwydd cyhoeddus amdanynt.

3 Er mwyn cyflawni ei gylch gwaith yn effeithiol, gall y Cyngor ddirprwyo'r cyfryw faterion ag y gwêl yn briodol. Os bydd o'r farn bod angen gwneud hynny, gall y Cyngor arfer unrhyw swyddogaeth a gaiff ei dirprwyo fel arfer. Mae'r materion canlynol wedi'u neilltuo i'r Cyngor:

### Swyddogaethau rheoleiddiol

3.1 Cymeradwyo deddfwriaeth reoleiddiol yr NMC, ac unrhyw newidiadau iddi, yn ddarostyngedig i ganiatâd y Cyfrin Gyngor.

### Strategaeth, cynllunio a pherfformiad

3.2 Cymeradwyo strategaethau.

3.3 Cymeradwyo polisïau rheoleiddiol.

3.4 Cymeradwyo'r strategaeth ariannol, y polisi cronfeydd wrth gefn, y polisi buddsoddi a'r strategaeth ffioedd.

3.5 Cymeradwyo’r cynllun corfforaethol a'r gyllideb flynyddol.

3.6 Adolygu perfformiad corfforaethol yr NMC a sicrhau bod y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn atebol am y perfformiad hwnnw.

3.7 Gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch unrhyw fater o bwysigrwydd strategol sylfaenol i'r NMC, neu sy'n peri risg sylweddol i'r sefydliad.

### Rheolaeth fewnol, sicrwydd ac atebolrwydd

3.8 Cytuno ar system reolaeth fewnol ar y lefel uchaf, gan gynnwys y Rheoliadau Ariannol ac awdurdod i wario ~~y Cynllun Dirprwyo~~. Nodir awdurdod i wario yn Atodiad 1.

3.9 Cymeradwyo'r fframwaith rheoli risg a phennu'r awydd i fentro.

3.10 Cymeradwyo'r archwilwyr allanol.

3.11 Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, yr adroddiad addasrwydd i ymarfer blynyddol, ac unrhyw adroddiad arall a gaiff ei osod gerbron y Senedd.

### Llywodraethu

3.12 Penderfynu ar bob mater sy'n ymwneud â fframwaith llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys dirprwyo pwerau, llunio Rheolau Sefydlog a chyfansoddi pwyllgorau.

3.13 Penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd.

## Y Cadeirydd

4 Cylch gwaith y Cadeirydd yw (a) cadeirio cyfarfodydd y Cyngor a (b) rheoli materion y Cyngor fel corff llywodraethu'r NMC, o fewn y fframwaith llywodraethu a bennir gan y Cyngor. Wrth ymgymryd â'i gylch gwaith, mae gan y Cadeirydd awdurdod dirprwyedig mewn perthynas â'r canlynol:

4.1 Pennu natur gyffredinol ac amserlen ar gyfer busnes y Cyngor.

4.2 Penodi aelodau a Chadeiryddion pwyllgorau'r Cyngor.

4.3 Cynnal yr arfarniad blynyddol o aelodau'r Cyngor.

4.4 Cynnal y broses ar gyfer penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd.

4.5 Cynnal y broses ar gyfer pennu amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac arfarnu ei berfformiad.

4.6 Gwneud penderfyniadau ar faterion dibwys nad oes dadl yn eu cylch neu faterion brys sy'n rhan o gylch gwaith y Cyngor, pan gânt eu hatgyfeirio gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd.

5 Mae'r Cadeirydd yn atebol i'r Cyngor am ei benderfyniadau a rhaid iddo roi gwybod i'r Cyngor (neu'r pwyllgor priodol) bob tro y bydd wedi arfer awdurdod dirprwyedig.

## Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd

6 Cylch gwaith y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw arwain materion a rheoli adnoddau'r NMC o fewn y fframwaith strategol a sefydlir gan y Cyngor. Wrth ymgymryd â'i gylch gwaith, mae gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd awdurdod dirprwyedig i weithredu mewn perthynas ag unrhyw fater nad yw wedi'i neilltuo'n benodol i'r Cyngor ac nad yw'n benodol o fewn cylch gwaith y Cadeirydd.

7 Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn atebol i'r Cyngor am ei benderfyniadau ac mae'n rhaid iddo ddarparu'r cyfryw adroddiadau ag sy'n ofynnol gan y Cyngor er mwyn cyflawni ei rôl yn effeithiol.

8 Mae cyfrifoldeb ar y Prif Weithredwr a Chofrestrydd i hysbysu'r Cyngor cyn gynted â phosibl am unrhyw faterion a all beri risg neu broblem reoleiddiol, strategol, cyfreithiol neu ariannol sylweddol i'r Cyngor neu risg neu broblem sylweddol o ran ei enw da.

9 Yn ogystal, mae~~Mae~~ cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn cynnwys y canlynol:

### Swyddogaethau rheoleiddiol

9.1 Sicrhau y caiff swyddogaethau rheoleiddiol yr NMC eu cyflawni yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r diben craidd, sef diogelu cleifion a'r cyhoedd.

9.2 Cyflwyno cynigion i'r Cyngor o ran datblygu deddfwriaeth reoleiddiol neu wneud newidiadau iddi, a gofyn am ganiatâd y Cyfrin Gyngor mewn perthynas â phenderfyniadau'r Cyngor.

9.3 Fel Cofrestrydd, yn unol â'r ddeddfwriaeth reoleiddiol, (i) derbyn, dileu ac ailgofnodi cofrestryddion; (ii) sicrhau uniondeb y gofrestr; (iii) cyhoeddi'r gofrestr; (iv) sicrhau yr ymchwilir i honiadau sy'n ymwneud ag addasrwydd cofrestryddion i ymarfer ac y gwneir dyfarniadau yn eu cylch mewn modd teg, effeithiol ac effeithlon.

### Strategaeth, cynllunio a pherfformiad

9.4 Llunio a chyflwyno cynigion i'r Cyngor ynghylch strategaethau a pholisïau rheoleiddiol, a rhoi penderfyniadau'r Cyngor ar waith.

9.5 Llunio a chyflwyno cynigion i'r Cyngor ynghylch y strategaeth ariannol, y polisi cronfeydd wrth gefn, y polisi buddsoddi a'r strategaeth ffioedd, a rhoi penderfyniadau'r Cyngor ar waith.

9.6 Llunio a chyflwyno cynigion i'r Cyngor ynghylch y cynllun corfforaethol a'r gyllideb flynyddol, a rhoi penderfyniadau'r Cyngor ar waith.

9.7 Cymeradwyo cynlluniau busnes blynyddol cyfarwyddiaethau a dyrannu'r gyllideb sydd ei hangen er mwyn eu rhoi ar waith, a sicrhau bod Cyfarwyddwyr yn atebol am eu gweithredu.

9.8 Rhoi system effeithiol ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno.

9.9 Gwneud penderfyniadau ar bob mater sy'n ymwneud â strwythur sefydliadol a rheoli staff, o fewn y fframwaith a'r gyllideb y cytunwyd arnynt gan y Cyngor.

### Rheolaeth fewnol, sicrwydd ac atebolrwydd

9.10 Rhoi system rheolaeth fewnol effeithiol ar waith, o fewn y fframwaith y cytunnir arno gan y Cyngor, a sicrhau y rhoddir gwybod i'r Cyngor am faterion pwysig.

9.11 Rhoi'r fframwaith rheoli risg y cytunwyd arno gan y Cyngor ar waith, gan sicrhau y caiff risgiau eu nodi a'u gwerthuso, y caiff mesurau priodol eu rhoi ar waith i liniaru risgiau ac y caiff cynnydd ei fonitro a'i gofnodi.

9.12 Sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio mewn ffordd effeithiol, effeithlon a darbodus, gan sicrhau priodoldeb ariannol, cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyflawni rôl Swyddog Cyfrifyddu ar ran yr NMC (fel y penodir gan y Cyfrin Gyngor).

10 Er mwyn cynnal ei gyfrifoldebau'n effeithiol, gall y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ddirprwyo'r cyfryw faterion ag y gwêl yn briodol.

11 Bydd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn cynnull un bwrdd neu fwy, fel y bo'n briodol, i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau drwy (a) datblygu a gweithredu strategaethau, polisïau, cynlluniau busnes a chyllidebau; (b) monitro perfformiad gweithredol ac ariannol; (c) gwerthuso a rheoli risg; (ch) blaenoriaethu a dyrannu adnoddau.

## Pwyllgorau

### Pwyllgorau Statudol

#### Y Pwyllgorau Ymarfer

12 Mae'n ofynnol i'r NMC sefydlu~~'r~~ pwyllgorau ymarfer ~~canlynol~~.

~~12.1 Y Pwyllgor Ymchwilio.~~

~~12.2 Y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd.~~

~~12.3 Y Pwyllgor Iechyd.~~

13 Dynodir swyddogaethau'r pwyllgorau ymarfer yn y Gorchymyn ac nid ydynt yn ddarostyngedig i'r cynllun dirprwyo hwn.

#### ~~Y Pwyllgor Bydwreigiaeth~~

~~14 Mae'n ofynnol i'r NMC gael Pwyllgor Bydwreigiaeth, y mae ei gylch gwaith, fel y'i nodir yn Erthygl 41 o'r Gorchymyn, yn cynnwys cynghori'r Cyngor, ar gais y Cyngor neu fel arall, ar unrhyw faterion sy'n effeithio ar fydwreigiaeth. Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Bydwreigiaeth mewn cylch gorchwyl a gymeradwyir gan y Cyngor.~~

### Pwyllgorau Disgresiwn

15 O dan Erthygl 3 (12) o'r Gorchymyn, gall y Cyngor sefydlu'r cyfryw bwyllgorau eraill fel y gwêl yn briodol mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau a dirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau iddynt, ac eithrio'r pŵer i wneud rheolau.

16 Mae'r Cyngor wedi sefydlu pwyllgorau â'r cylchoedd gwaith canlynol. Nodir cyfrifoldebau pob pwyllgor mewn cylch gorchwyl a gymeradwyir gan y Cyngor.

## Y Pwyllgor Archwilio

16.1 Cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio yw helpu'r Cyngor a'i reolwyr drwy adolygu cyflawnder a dibynadwyedd sicrwydd o ran llywodraethu, rheoli risg, rheoli'r amgylchedd ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol.

## Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

16.2 Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer cydnabyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn yr NMC.

## Y Bwrdd Penodiadau

16.3 Cylch gwaith y Bwrdd Penodiadau yw helpu'r Cyngor i arfer unrhyw swyddogaeth neu broses sy'n ymwneud â phenodi Aelodau'r Panel ac Aseswyr Cyfreithiol.

## Grŵp Craffu ar Gyllideb y Cyngor

16.4 Grŵp byrdymor yw Grŵp Craffu ar Gyllideb y Cyngor a all weithredu yn ystod y broses o bennu'r gyllideb er mwyn darparu swyddogaeth graffu mewn perthynas â datblygu'r gyllideb, cynghori'r Bwrdd Gweithredol a rhoi sicrwydd neu wneud argymhellion i'r Cyngor.

Mabwysiadwyd y cynllun dirprwyo gan y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2013 (diwygiwyd 8 Hydref 2015 a 25 Tachwedd 2015).

## Atodiad 2a: Cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio

1 Sefydlir y Pwyllgor Archwilio gan y Cyngor o dan Erthygl 3 (12) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

## Cylch Gwaith

2 Cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio yw helpu'r Cyngor a'i reolwyr drwy adolygu cyflawnder a dibynadwyedd sicrwydd o ran llywodraethu, rheoli risg, rheoli'r amgylchedd ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol.

## Cyfrifoldebau

### Uniondeb datganiadau ariannol

3 Adolygu'r adroddiad blynyddol a chyfrifon cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

3.1 Cysondeb polisïau cyfrifyddu a chydymffurfiaeth â hwy.

3.2 Cydymffurfiaeth â'r safonau cyfrifyddu priodol.

3.3 Addasiadau sylweddol yn deillio o waith archwilio ac unrhyw gamddatganiadau nas addaswyd.

3.4 Barnau cyfrifyddu pwysig.

3.5 Eglurder y datganiad llywodraethu blynyddol a datgeliadau eraill yn yr adroddiad blynyddol sy'n ymwneud â rheolaeth fewnol, rheoli risg, archwilio a materion eraill sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor.

4 Sicrhau y caiff y systemau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol i'r Cyngor eu hadolygu er mwyn sicrhau eglurder, cyflawnder a chywirdeb.

### Rheolaethau mewnol a rheoli risg

5 Adolygu digonolrwydd rheolaethau mewnol a monitro ffynonellau sicrwydd cysylltiedig.

6 Adolygu'r system rheoli risg, gan gynnwys cwmpas ac effeithiolrwydd y prosesau a ddefnyddir gan y rheolwyr i nodi, gwerthuso, rheoli a monitro risgiau sylweddol.

7 Adolygu'r rheoliadau ariannol, gan gynnwys y cynllun dirprwyo ariannol a'r ~~polisïau~~ polisi gwrth-dwyll, ~~a~~ gwrth-lwgrwobrwyo a llygredd~~.~~

8 Adolygu gweithdrefn datgelu er budd y cyhoedd (chwythu'r chwiban) yr NMC a'r polisi adolygu digwyddiadau difrifol.

## Gwaith archwilio mewnol

9 Cynghori'r Prif Weithredwr mewn perthynas â phenodi'r archwilwyr mewnol.

10 Ystyried a chymeradwyo'r siarter archwilio mewnol, gan sicrhau bod gan yr archwilwyr mewnol statws digonol yn yr NMC, y gallant gael gafael ar wybodaeth yn briodol, ac nad oes cyfyngiadau rheoli neu gyfyngiadau eraill arnynt er mwyn iddynt allu arfer eu swyddogaeth yn effeithiol ac yn unol â'r safonau perthnasol.

11 Ystyried a chymeradwyo'r rhaglen archwilio mewnol flynyddol lefel uchel.

12 Derbyn adroddiadau ar y rhaglen archwilio mewnol, gan adolygu a monitro ymatebolrwydd rheolwyr i ganfyddiadau ac argymhellion yr archwilwyr mewnol.

13 Cyfarfod â'r archwilwyr mewnol o leiaf unwaith y flwyddyn, heb fod rheolwyr yr NMC yn bresennol, i drafod eu cylch gwaith ac unrhyw faterion sy'n deillio o'r archwiliadau mewnol a gynhelir.

## Gwaith archwilio allanol

14 Ystyried a gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch penodi, ailbenodi a rhoi'r gorau i ddefnyddio'r archwilwyr allanol.

15 Goruchwylio'r gydberthynas â'r archwilwyr allanol, gan gynnwys:

15.1 Cymeradwyo eu cydnabyddiaeth, eu telerau ymgysylltu a chwmpas yr archwiliad.

15.2 Asesu eu hannibyniaeth a'u gwrthrychedd yn unol â safonau archwilio perthnasol.

15.3 Cytuno ar gynigion iddynt ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio.

16 Ystyried a chymeradwyo'r cynllun archwilio allanol blynyddol.

17 Adolygu'r llythyr sylwadau y gofynnir amdano gan yr archwilydd allanol cyn i'r Ymddiriedolwyr ei lofnodi.

18 Adolygu canfyddiadau gwaith archwilio mewnol, gan gynnwys:

18.1 Adolygu'r llythyr archwilio allanol i reolwyr ac ymatebion y rheolwyr.

18.2 Trafod unrhyw faterion pwysig a gododd yn ystod yr archwiliad.

18.3 Unrhyw farnau cyfrifyddu ac archwilio.

18.4 Lefelau'r gwallau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

## Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG)

19 Goruchwylio'r gydberthynas â'r SAG.

20 Ystyried a chymeradwyo cynllun archwilio blynyddol y SAG.

21 Adolygu canfyddiadau gwaith y SAG, gan gynnwys:

 21.1 Adolygu adroddiad cwblhau'r archwiliad y SAG ac ymatebion y rheolwyr.

 21.2 Trafod unrhyw faterion pwysig a gododd yn ystod yr archwiliad.

 21.3 Unrhyw farnau cyfrifyddu ac archwilio.

 21.4 Lefelau'r gwallau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Mabwysiadwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio gan y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2013.

## Atodiad 2b: Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Bydwreigiaeth

1 Mae'r Pwyllgor Bydwreigiaeth yn un o bwyllgorau'r Cyngor a sefydlwyd gan Erthygl 3 (9) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

### Cylch Gwaith

2 O dan Erthygl 41 (1) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, cylch gwaith y Pwyllgor Bydwreigiaeth yw cynghori'r Cyngor, ar gais y Cyngor neu fel arall, ar unrhyw faterion sy'n effeithio ar fydwreigiaeth.

### Cyfrifoldebau

3 Cynghori'r Cyngor ar unrhyw faterion sy'n effeithio ar fydwreigiaeth, gan gynnwys datblygiadau proffesiynol a datblygiadau polisi a newidiadau arfaethedig neu wirioneddol i waith rheoleiddio statudol.

4 Monitro datblygiadau proffesiynol a datblygiadau polisi ym maes gofal iechyd sy'n effeithio ar ddiogelwch gwasanaethau mamolaeth, ymarfer bydwreigiaeth a'r trefniadau statudol ar gyfer goruchwylio bydwragedd.

5 Cytuno ar unrhyw newidiadau i safonau a chanllawiau ym maes addysg bydwreigiaeth ac addysg a hyfforddiant sy'n benodol i'r proffesiwn bydwreigiaeth ac argymell y newidiadau hynny.

6 Cyflwyno gwybodaeth berthnasol i'r Cyngor am awdurdodau goruchwylio lleol, gan gynnwys y safonau ar gyfer arfer swyddogaethau'r awdurdodau hynny, adolygu swyddogaethau'r awdurdodau a sicrhau ansawdd yr awdurdodau.

7 Cytuno ar ymgyngoriadau ar ran y Cyngor ar unrhyw reolau a safonau arfaethedig mewn perthynas ag ymarfer bydwreigiaeth a'r trefniadau statudol ar gyfer goruchwylio bydwragedd.

### Cyfansoddiad

8 Sefydlir y Pwyllgor yn unol â Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Pwyllgorau Bydwreigiaeth ac Ymarfer) (Cyfansoddiad) 2008.

Mabwysiadwyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Bydwreigiaeth gan y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2013.

# Atodiad 2b~~2c~~ Cylch gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

1 Sefydlir y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gan y Cyngor o dan Erthygl 3 (12) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

## Cylch Gwaith

2 Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer cydnabyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn yr NMC.

## Cyfrifoldebau

### Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, ~~Prif Swyddog Gweithredu,~~ Cyfarwyddwyr a chyflogeion eraill

3 Cymeradwyo a goruchwylio'r broses ar gyfer recriwtio a dethol y Prif Weithredwr a Chofrestrydd.

4 Ystyried ac argymell i'r Cyngor strategaeth wobrwyo briodol ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, ~~y Prif Swyddog Gweithredu~~ a'r Cyfarwyddwyr.

5 Cymeradwyo pecyn gwobrwyo'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd, ~~y Prif Swyddog Gweithredu~~ a'r Cyfarwyddwyr bob blwyddyn, gan gynnwys unrhyw elfen sy'n gysylltiedig â pherfformiad, yn unol â'r strategaeth wobrwyo a bennir gan y Cyngor.

6 Cymeradwyo'r broses ar gyfer pennu amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac arfarnu ei berfformiad.

7 Adolygu adroddiadau gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ymwneud â phennu amcanion ar gyfer y ~~Prif Swyddog Gweithredu a'r~~ Cyfarwyddwyr ac arfarnu eu perfformiad.

8 Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer cynllunio olyniaeth ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac adolygu'r trefniadau ar gyfer y Cyfarwyddwyr.

9 Cymeradwyo unrhyw gais i'w gyflwyno i Drysorlys EM gan y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, mewn perthynas â thaliadau diswyddo arbennig os daw cyflogaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd neu Gyfarwyddwr i ben, ac unrhyw daliadau arbennig eraill i gyflogeion. [1]

10 Adolygu, fel y bo angen, unrhyw newidiadau sylweddol i'r Strategaeth Pobl, y strwythur cyflog a graddio cyflogeion, neu'r cynllun pensiwn.

### Y Cadeirydd a'r Cyngor

11 Argymell i'r Cyngor unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth y Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor, gan ofyn am gyngor annibynnol fel y bo'n briodol.

---

[1] Nodir priod rolau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r Cyfrin Gyngor mewn memorandwm esboniadol ar wahân.

12 Cymeradwyo'r polisi treuliau ar gyfer y Cadeirydd, ~~ac~~ aelodau'r Cyngor ac aelodau Partner.

13 Argymell i'r Cyngor y trefniadau ar gyfer sefydlu, arfarnu a datblygu'r Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor.

14 Cymeradwyo a goruchwylio'r broses ar gyfer recriwtio aelodau'r Cyngor neu ailbenodi'r Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor, yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol a gofynion y Cyfrin Gyngor.

Cymeradwywyd gan y Cyngor
18 Gorffennaf 2013 (diwygiwyd 25 Tachwedd 2015)

# Atodiad 2c~~2d~~: Cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Penodiadau

1. Sefydlir y Bwrdd Penodiadau gan y Cyngor o dan Erthygl 3 (12) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

## Cylch Gwaith

2. Cylch gwaith y Bwrdd Penodiadau yw helpu'r Cyngor mewn perthynas ag arfer unrhyw swyddogaeth neu broses sy'n ymwneud â phenodi Aelodau'r Panel ac Aseswyr Cyfreithiol[2].

## Cyfrifoldebau

3. Cymeradwyo'r cod ymddygiad i Aelodau'r Panel.

4. Cymeradwyo polisïau sy'n llywodraethu'r broses o recriwtio a dethol, sefydlu a datblygu, arfarnu, rheoli perfformiad, cydnabyddiaeth a threfniadau cytundebol Aelodau'r Panel ac Aseswyr Cyfreithiol.

5. Cymeradwyo polisïau ar gyfer trefniadau teithio, ad-dalu treuliau a thalu lwfansau i Aelodau'r Panel ac Aseswyr Cyfreithiol.

6. Craffu ar flaengynlluniau a'u hadolygu er mwyn sicrhau y gellir gwneud penodiadau ac ailbenodiadau amserol a digonol i ymateb i lwyth achosion yr NMC.

7. Craffu ar y broses o roi trefniadau recriwtio a dethol ar waith a'i hadolygu a gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch penodi Aelodau'r Panel ac Aseswyr Cyfreithiol.

8. Craffu ar y broses o roi trefniadau sefydlu, hyfforddi a datblygu, arfarnu a rheoli perfformiad ar waith (gan gynnwys cyfraddau cyfranogiad, trefniadau eistedd, adborth gan Aelodau'r Panel ac Aseswyr Cyfreithiol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) a'r meini prawf ar gyfer ailbenodi a'u hadolygu, a gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch a) ailbenodi Aelodau'r Panel ac Aseswyr Cyfreithiol a b) dod â phenodiad Aelodau'r Panel ac Aseswyr Cyfreithiol i ben yn gynnar lle y bo'n briodol.

9. Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar weithgareddau'r Bwrdd Penodiadau, gan gynnwys asesiad o gydymffurfiaeth â'r polisïau sydd ar waith ac effeithiolrwydd y polisïau hynny.

10. Ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau eraill y gofynnir amdanynt gan y Cyngor sy'n gydnaws â chylch gwaith y Bwrdd.

[2] Mae aelodau'r panel ac aseswyr cyfreithiol yn gontractwyr annibynnol ac nid ydynt yn gyflogeion i'r NMC

## Aelodaeth

11. Bydd y Bwrdd Penodiadau yn cynnwys hyd at bum Aelod Partner, y bydd un ohonynt yn Gadeirydd ar y Bwrdd, a gaiff ei ddethol a'i benodi yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Mabwysiadwyd cylch gorchwyl y Bwrdd Penodiadau gan y Cyngor ar 26 Mawrth 2014.

# Atodiad 2d~~2e~~: Grŵp Craffu ar y Gyllideb: Cylch Gorchwyl

## Cylch gwaith ac aelodaeth

1. Grŵp byrdymor yw'r Grŵp Craffu ar y Gyllideb a sefydlir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor. Dim ond yn ystod y broses o bennu'r gyllideb y bydd yn weithredol.

2. Caiff y Grŵp ei ~~gadeirio~~ benodi gan Gadeirydd y Cyngor a bydd hefyd yn cynnwys o leiaf Gadeiryddion neu aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

3. Diben y Grŵp yw:

   3.1. ymgymryd â gwaith craffu mewn perthynas â datblygu'r gyllideb a rhoi cyngor i'r Bwrdd Gweithredol;

   3.2. rhoi sicrwydd i'r Cyngor y gwnaed gwaith dadansoddi priodol ac y rhoddwyd ystyriaeth briodol wrth lunio'r cynlluniau ariannol a'r cyllidebau.

## Cylch gorchwyl

4. Mae cylch gorchwyl y Grŵp fel a ganlyn:

   4.1. Adolygu'r cynlluniau ariannol wrth iddynt gael eu datblygu a chyn cyflwyno'r cynigion ar gyfer y gyllideb i'r Cyngor, gan gynnwys:

      4.1.1. Unrhyw ragdybiaethau sylfaenol a wneir o ran maint ac o ran y gyllideb

      4.1.2. Unrhyw gynigion o ran buddsoddi cyfalaf.

      4.1.3. Nodi arbedion / effeithlonrwydd.

   4.2. Rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol wedi ystyried dadansoddiadau manwl o'r opsiynau ariannol, sensitifrwyddau a risgiau mewn perthynas â chynlluniau ariannol.

   4.3. Adolygu'r gyllideb yng nghyd-destun y Cynllun Corfforaethol er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod y broses o ddyrannu'r gyllideb wedi ystyried busnes rheoleiddiol craidd ac unrhyw welliant a ddymunir.

   4.4. Adolygu'r uchod yng nghyd-destun strategaeth ariannol ~~arfaethedig~~ yr NMC.

5. Argymell i'r Cyngor unrhyw ragdybiaethau cyllidebol lefel uchel i'w defnyddio at ddibenion cynllunio'r gyllideb, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth ariannu i'w gwneud mewn perthynas â'r bil cyflogau.

6. Bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflwyno adroddiad ar waith y Grŵp i'r Cyngor, mewn seminar, yn gyfrinachol neu mewn sesiwn agored fel yr ystyrir yn briodol.

7. Bydd y Cyngor yn adolygu'r angen am Grŵp Craffu ar y Gyllideb o bryd i'w gilydd ~~bob blwyddyn~~.

Mabwysiadwyd cylch gorchwyl y Grŵp Craffu ar y Gyllideb gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2015.

# Atodiad 1: Awdurdod i wario

<table>
<tr><th rowspan="2">Eitem</th><th>Y Cyngor</th><th>Prif Weithredwr a Chofrestrydd</th></tr>
<tr><th colspan="2">Cyfanswm Gwerth<br>(ystyr cyfanswm gwerth yw'r gost dros oes yr eitem neu gontract gan gynnwys unrhyw TAW)</th></tr>
<tr><td>• argymell dyfarnu'r contract<br>• amrywio neu ymestyn contract<br>• ffurf y cytundeb a fyddai'n rhwymo'r NMC i ymrwymiad ariannol<br>• cymeradwyo archeb i brynu (ystyr archeb yw cais i archebu nwyddau neu wasanaethau)</td><td>≥500,000</td><td><500,000</td></tr>
</table>

Mae'r gwerthoedd yn nodi'r trothwyon lle mae awdurdod deiliaid y swydd yn ddigonol i ymrwymo'r NMC i wario oddi tanynt.

Rhaid i'r Cyngor roi cymeradwyaeth ymlaen llaw er mwyn ymrwymo symiau â chyfanswm gwerth dros £500,000 mewn cyfarfod. O dan amgylchiadau eithriadol, gall y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ynghyd â dau aelod o'r Cyngor, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn Gadeirydd, gymeradwyo ceisiadau i wario symiau â chyfanswm gwerth dros £500,000 ond yn llai nag £1 filiwn. Rhaid cofnodi unrhyw ymrwymiadau o'r fath yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Lle y bydd angen penderfyniad ar fyrder, gellir rhoi cymeradwyaeth drwy ohebiaeth fel y nodir yn Rheolau Sefydlog y Cyngor.

Lle bydd y Cyngor wedi gwneud y penderfyniad, bydd y Cadeirydd yn llofnodi ar ran y Cyngor.

Eitem 15
NMC/17/50
24 Mai 2017

# Y Cyngor

## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu:** | Er gwybodaeth. |
| **Mater:** | Adroddiadau ar waith y Pwyllgor Archwilio. |
| **Swyddogaeth reoleiddio graidd:** | Swyddogaethau cefnogol. |
| **Blaenoriaeth strategol:** | Blaenoriaeth strategol 4: Sefydliad effeithiol. |
| **Angen penderfyniad:** | Dim angen penderfyniad. |
| **Atodiadau:** | Dim. |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Os hoffech gael eglurhad ynghylch unrhyw beth yn y papur neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r awdur neu'r cyfarwyddwr a enwir isod. |

Ysgrifennydd: Fionnuala Gill
Ffôn: 020 7681 5842
fionnuala.gill@nmc-uk.org

Cadeirydd: Marta Phillips

**Cyd-destun:** 1 Ers yr adroddiad diwethaf i'r Cyngor, cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio ar 25 Ebrill 2017.

2 Croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod Cadeirydd y Pwyllgor wedi'i benodi'n aelod o'r Cyngor ar 1 Mai 2017. Cadarnhaodd Cadeirydd y Cyngor y byddai'n parhau i gadeirio'r Pwyllgor Archwilio am y flwyddyn i ddod yn rhinwedd ei rôl newydd.

**Ffactorau pedair gwlad:** 3 Dim yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

**Trafodaeth**

**Hyfforddiant ac effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio**

4 Cafodd aelodau'r Pwyllgor sesiwn anffurfiol ar effeithiolrwydd y Pwyllgor a'i anghenion hyfforddi. Nodwyd nifer o bynciau ar gyfer sesiynau hyfforddi penodol byr a datblygir y rhain yn ystod y flwyddyn.

**Rhaglen waith archwilio mewnol 2016–2017**

5 Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad diwedd blwyddyn ar hynt rhaglen waith archwilio mewnol 2016–2017. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod y rhaglen waith wedi'i chwblhau. Roedd un adroddiad archwilio yn weddill ar gaffael a chontractio TGCh. Cyflwynir fersiwn derfynol yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor pan fydd ar gael.

**Rhaglen waith archwilio mewnol 2017–2018**

6 Ystyriodd y Pwyllgor fersiwn ddiwygiedig o raglen waith archwilio mewnol 2017–2018, yr oedd wedi gwneud sylwadau arni yn ei gyfarfod diwethaf. Roedd y Pwyllgor yn fodlon yr ystyriwyd ei sylwadau.

7 Wrth ystyried y rhaglen waith, tynnodd y Pwyllgor sylw at yr angen i sicrhau bod unrhyw ran yr oedd Archwilio Mewnol yn ei chwarae ym maes Trawsnewid yn cael ei phennu'n ofalus er mwyn osgoi dyblygu â gweithgarwch sicrwydd arall.

**Argymhellion archwilio mewnol**

8 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed o ran clirio argymhellion archwilio mewnol a chanmolodd staff ar y cynnydd da a wnaed ers dechrau'r flwyddyn ariannol.

9 Nododd y Pwyllgor nifer o argymhellion neilltuol o ran dull y sefydliad o ymdrin ag ansawdd. Gan nodi y byddai strategaeth ansawdd, a fyddai'n ymdrin â rhai agweddau ar yr argymhellion, yn cael ei hystyried gan y Cyngor ym mis Mehefin 2017 mewn sesiwn seminar, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar yr holl argymhellion oedd

yn gysylltiedig ag ansawdd oedd yn weddill yn ei gyfarfod nesaf.

**Adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd prosesau rheoli risg**

10 Ystyriodd y Pwyllgor adolygiad diwedd blwyddyn o effeithiolrwydd prosesau rheoli risg yn ystod 2016–2017, a wnaeth ddarparu asesiad defnyddiol o'r broses a'r newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn o ran adrodd ar risg. Gofynnodd y Pwyllgor am i adroddiadau risg, yn y dyfodol, hefyd ganolbwyntio ar ganlyniadau ac, yn arbennig, p'un a oedd unrhyw risgiau sylweddol nas disgwyliwyd wedi dod i'r amlwg neu p'un a oedd unrhyw risgiau a ddisgwyliwyd wedi dod yn weithredol.

11 Wrth drafod, tanlinellwyd yr angen i'r sefydliad fod yn gadarn, a oedd yn hynod bwysig yn ystod cyfnod o newid mawr. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod cyfarwyddwyr yn ymwneud â gwaith cynllunio wrth gefn ar gais y Prif Weithredwr. Hefyd tanlinellwyd yr angen i hyrwyddo asesiadau risg a thrafodaethau cadarn o fewn y sefydliad cyfan.

**Barn Archwilio Mewnol Ddrafft 2016–2017 a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016–2017**

12 Adolygodd y Pwyllgor y farn archwilio mewnol ddrafft a'r adroddiad ar gyfer 2016–2017. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi barn yr Archwilydd Mewnol y bu gwelliant nodedig, tra'n cydnabod pwysigrwydd gwelliant pellach ym maes rheoli risg a rheolaethau mewnol.

13 Roedd yr Archwilydd Mewnol wedi defnyddio diffiniad safonol a oedd yn cyfeirio at lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Archwilydd Mewnol ddiwygio'r adroddiad er mwyn egluro mai'r meysydd yr oedd angen eu gwella ymhellach oedd rheoli risg a rheolaethau mewnol ac nid llywodraethu. Yn amodol ar wneud hyn, derbyniodd y Pwyllgor y farn fel adlewyrchiad teg a chywir o'r sefyllfa bresennol.

14 Hefyd, ystyriodd y Pwyllgor ddrafft o'r datganiad llywodraethu blynyddol i'w gynnwys yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon statudol. Cynigiwyd rhai awgrymiadau ac ychwanegiadau gan y Pwyllgor a ystyrir yn yr iteriad nesaf.

**Adolygiad ac adroddiad blynyddol chwythu'r chwiban 2016–2017**

15 Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad blynyddol ar y defnydd o bolisi chwythu'r chwiban yn ystod 2016–2017. Dilynwyd polisi chwythu'r chwiban ar un achlysur yn ystod 2016–2017, a chafodd y Cyngor wybod am ganlyniad hynny.

16 Croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod hyfforddiant ar sut i ddefnyddio polisi chwythu'r chwiban wedi'i roi i'r Bwrdd Gweithredol a'r tîm Arwain a'i fod bellach yn cael ei roi i reolwyr rheng flaen. Roedd

adborth o'r hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o fireinio'r polisi a chanllawiau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

17 Byddai archwiliad o effeithiolrwydd y polisi yn cael ei gynnal yn ystod hydref 2017 yn unol â pharamedrau y cytunwyd arnynt yn flaenorol â'r Pwyllgor Archwilio.

**Adolygiad ac adroddiad blynyddol gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth 2016–2017**

18 Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar faterion a chamau gweithredu yn 2016–2017 o ran twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth.

19 Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod aelodau allweddol o staff wedi cael hyfforddiant gwrth-dwyll. Fodd bynnag, rhaid oedd osgoi gorffwys ar eich rhwyfau o ran risgiau'n ymwneud â thwyll a llwgrwobrwyo o fewn y sefydliad cyfan. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Bwrdd Gweithredol sicrhau bod ymarferion codi ymwybyddiaeth parhaus yn digwydd gyda phob aelod o staff. Yn arbennig, gofynnodd y Pwyllgor i'r Bwrdd Gweithredol edrych yn ofalus ar brif gontractau'r NMC er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw risgiau.

**Adroddiad Digwyddiadau Difrifol a Thor-Data**

20 Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar ddigwyddiadau difrifol a thor-data rhwng 7 Ionawr 2017 a 19 Mawrth 2017.

21 Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod yr hyn a ddysgwyd o gwynion ac Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol yn cael ei ystyried wrth ddylunio'r rhaglen Trawsnewid er mwyn sicrhau bod y risg o wallau dynol yn cael ei lleihau cymaint â phosibl.

22 Roedd yr adroddiad yn parhau i gynnig cipolwg defnyddiol ar faterion yn y sefydliad. Gofynnodd y Pwyllgor am gael gweld data ar dueddiadau a dadansoddiadau mewn adroddiadau yn y dyfodol er mwyn cynnig cipolwg pellach.

**Cynlluniau ar gyfer y tendr Archwilio Mewnol**

23 Ystyriodd y Pwyllgor gynlluniau i aildendro'r contract archwilio mewnol presennol, a ddaw i ben ym mis Ebrill 2018. Cytunodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Derek Pretty i fod yn rhan o'r broses gwerthuso tendr.

**Goblygiadau amddiffyn y cyhoedd:**

24 Nid oes unrhyw faterion amddiffyn y cyhoedd yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

**Goblygiadau o ran adnoddau:**

25 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

| | | |
|---|---|---|
| **Goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth:** | 26 | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn deillio o'r adroddiad hwn. |
| **Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** | 27 | Na. |
| **Goblygiadau o ran risg:** | 28 | Nid oes unrhyw oblygiadau o ran risg yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. |
| **Goblygiadau cyfreithiol:** | 29 | Heb nodi dim. |

Eitem 16
NMC/17/51
24 Mai 2017

Nursing & Midwifery Council

# Y Cyngor

## Camau a gymerwyd gan y Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf

**Cam gweithredu:** Er gwybodaeth.

**Mater:** Adrodd ar y camau a gymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor ers 29 Mawrth 2017 o dan bwerau dirprwyedig yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Cafwyd un cam gweithredu gan y Cadeirydd, sef llofnodi a selio Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) (Diwygio) 2017.

**Swyddogaeth reoleiddio graidd:** Swyddogaethau cefnogol.

**Blaenoriaeth strategol:** Blaenoriaeth strategol 4: Sefydliad effeithiol.

**Angen penderfyniad:** Na.

**Atodiadau:** Mae'r atodiad canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn:

- Atodiad 1: Cam gweithredu'r Cadeirydd - Llofnodi a selio Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) (Diwygio) 2017.

**Rhagor o wybodaeth:** Os hoffech gael eglurhad ynghylch unrhyw beth yn y papur neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r awdur neu'r cyfarwyddwr a enwir isod.

Ysgrifennydd: Fionnuala Gill
Ffôn: 020 7681 5842
fionnuala.gill@nmc-uk.org

Nursing & Midwifery Council

# Camau Gweithredu'r Cadeirydd

O dan Reolau Sefydlog y CNB, mae gan Gadeirydd y Cyngor y pŵer i awdurdodi camau gweithredu ar fân faterion, materion nad oes dadlau yn eu cylch neu faterion dybryd o dan awdurdod y Cyngor (Cynllun Dirprwyo, paragraff 4.6). Caiff camau o'r fath eu cofnodi'n ysgrifenedig a'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd sy'n cadw cofnod o bob awdurdodiad a wneir o dan y paragraff hwn. Mae'n ofynnol i'r Cadeirydd gofnodi'n ysgrifenedig, er gwybodaeth, i bob cyfarfod o'r Cyngor yr hyn a awdurdodwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

Rhaid i holl gamau gweithredu'r Cadeirydd fanylu ar y camau hynny y gofynnir i'r Cadeirydd eu hawdurdodi ar ran y Cyngor.

| **Cais gan:** | **Dyddiad:** |
|---|---|
| Fionnuala Gill<br>Ysgrifennydd y Cyngor | 26 Ebrill 2017 |

**Llofnodi a Selio Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) (Diwygio) 2017**

Ar 11 Ebrill 2017, penderfynodd y Cyngor, drwy ohebiaeth, gymeradwyo'r diwygiadau i'r Rheolau a llunio Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) (Diwygio) 2017. Gellir gweld manylion llawn y broses penderfynu drwy ohebiaeth yn **atodiad 1**.

Ar sail y penderfyniad uchod, gofynnir i'r Cadeirydd lofnodi a selio Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) (Diwygio) 2017, a geir yn **atodiad 2**.

Llofnodwyd: (Cadeirydd)

Dyddiad: 26 Ebrill 2017

# Penderfyniad drwy ohebiaeth

**NMC/17/23 Cynnig i lunio Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) (Diwygio) 2017**

1. Ar 3 Ebrill 2017 cafodd hysbysiad ei ddosbarthu:

   (a) atodwyd memorandwm yn argymell y dylai'r Cyngor, yn dilyn ei gytundeb mewn egwyddor ar 29 Mawrth 2017 i'r newidiadau arfaethedig i Reolau Addasrwydd i Ymarfer 2004, lunio'r Rheolau Diwygiedig a fydd yn caniatáu i Archwilwyr Achos roi cyngor, rhybuddio, ac argymell ymgymeriadau;

   (b) atodwyd copi o Reolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) (Diwygio) 2017;

   (c) cynghorwyd y Cyngor bod ganddo'r pŵer i benderfynu ar faterion drwy ohebiaeth, yn unol â'r weithdrefn yn y Rheolau Sefydlog;

   (d) gwahoddwyd aelodau'r Cyngor i ymateb erbyn hanner dydd ar 11 Ebrill 2017 gan nodi a oeddent yn cytuno â'r diwygiadau i'r Rheolau ai peidio.

2. Am hanner dydd ar 11 Ebrill 2017, penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau i'r Rheolau a llunio Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addasrwydd i Ymarfer) (Diwygio) 2017.

Fe'i cadarnhawyd gan y Cyngor fel cofnod cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd:

Llofnodwyd: ________________________ Dyddiad: ____________________